# Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019 – 23)

## Heriau a chyfleoedd ar gyfer Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus

**Datganiad**

Cyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2024

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/public-service-broadcasting/review-of-public-service-media/

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ....................................................................................................3

2. Cyflwyniad ................................................................................................7

3. Diwallu anghenion y gynulleidfa ...........................................................10

4. Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a sector newyddion y DU .......................25

5. Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a’r sector cynhyrchu yn y DU ...................42

6. Cynaliadwyedd ariannol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus..........................53

7. Cyflawni dibenion ac amcanion Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus.................66

8. Y camau nesaf...........................................................................................78


## Atodiad


Geirfa.........................................................................................................79

# 1. Trosolwg

## Mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wedi wynebu her enfawr, ond maen nhw'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd y DU

Ers ein hadolygiad diwethaf yn 2020, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, mae'r diwydiant darlledu wedi gweld ac wedi rhoi gwybod am ansefydlogrwydd cenedlaethol a rhyngwladol na welwyd ei debyg o'r blaen: pandemig byd-eang a weddnewidiodd ein bywydau, rhyfeloedd yn Wcráin a'r Dwyrain Canol ac ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd yn y DU a ledled y byd. Nid yw rôl ein Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus erioed wedi bod yn bwysicach. Y prif ddarparwyr yw'r BBC, ITV, STV, Channel 4, Channel 5 ac S4C. Gyda'i gilydd, mae dyletswydd arnyn nhw i gyflawni dibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a darparu cynnwys sydd ar gael am ddim i bawb.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ganolog i ddarparu Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus: gan ddarparu newyddion y gellir ymddiried ynddo sy'n ddigon cywir ac yn ddigon diduedd, ynghyd ag amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r DU gyfan ac sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Mae cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar draws ffynonellau llinol, fideo ar-alw gan ddarlledwyr a ffynonellau ar-lein.

Gyda'i gilydd, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion yn ystod y cyfnod adolygu hwn, ond mae bellach yn fwy cymhleth i gyrraedd pawb nag yr oedd yn arfer bod. Mae tarfu parhaus ar dechnoleg a chystadleuaeth ffyrnig am gynulleidfaoedd gan ffrydwyr byd-eang yn dwysáu'r pwysau cynyddol ar gynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Ein gwaith yn Ofcom yw rhoi cynulleidfaoedd wrth galon popeth a wnawn a sicrhau bod y sector yn sicrhau canlyniadau da i wrandawyr a gwylwyr. Mae hefyd angen i ni adrodd bob pum mlynedd ar sut y gellir cynnal a chryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

## Mae cynulleidfaoedd y DU yn dal i gael mwy o ddewis o ran cynnwys

Mae'r rhan fwyaf o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei ddarparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedd lefelau cyffredinol yr allbwn gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gymharol sefydlog dros gyfnod yr adolygiad. Mae hyn er gwaethaf y tarfu a achoswyd yn sgil pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'n fawr y ffaith bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddarparu rhaglenni newydd yn y DU – yn enwedig newyddion. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i addasu i'r newid mewn arferion gwylio, ond mae cynulleidfaoedd hefyd yn mwynhau cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus amrywiol o ansawdd uchel gan ystod gynyddol fawr o ddarparwyr. Mae ffrydwyr byd-eang wedi cynyddu eu buddsoddiad mewn cynnwys yn y DU ac mae cynulleidfaoedd mwy yn gwylio ac yn gwrando ar eu gwasanaethau. Mae gwylwyr a gwrandawyr yn gwerthfawrogi mwy o ddewis a hyblygrwydd o ran beth i'w wylio, a sut a phryd maen nhw'n gwneud hynny. Er mwyn cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a chynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn sgil hynny, mae'n bwysig sicrhau'r fframwaith rheoleiddio sy'n cefnogi'r holl ddarpariaeth cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

## Yr her fwyaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw denu cynulleidfaoedd i wylio a gwrando ar eu cynnwys

Mae'r frwydr gynyddol am gynulleidfaoedd a refeniw hysbysebion yn y DU wedi gorfodi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i barhau i arloesi, er mwyn parhau i ddarparu rhaglenni o ansawdd uchel. Mae strategaethau digidol yn gyntaf darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cael rhywfaint o

lwyddiant a chynyddodd yr amser a dreuliodd cynulleidfaoedd yn gwylio chwaraewyr fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn 2023, ond nid yw'n ddigon i wrthbwyso'r gostyngiad mewn gwylio llinol. Mae cynulleidfaoedd yn troi fwyfwy at wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos sy'n cael eu darparu gan gwmnïau byd-eang. Ar gyfartaledd, mae pobl yn y DU yn treulio tua thraean (32%) o'u hamser gwylio fideos yn y cartref ar y llwyfannau hyn, a disgwylir i hyn barhau i dyfu.

Bu cynnydd cyflym yn y nifer sy'n gwylio ar lwyfannau rhannu fideos, yn enwedig YouTube a TikTok, yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y prif ffactorau a sbardunodd dwf YouTube yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd cynulleidfaoedd hŷn a gwylio ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu, ar ôl bod yn boblogaidd yn draddodiadol ymysg pobl iau. Mae 60% o unigolion yn y DU yn gwylio fideos YouTube dros eu cysylltiad band eang cartref bob wythnos. Mae plant a phobl ifanc yn gwylio cynnwys ar-lein yn bennaf ac yn gwylio a gwrando ar lawer llai o gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus na chenedlaethau hŷn. Nid ydynt bellach yn tyfu i fyny gyda theledu llinol fel eu prif ffynhonnell wylio, ac mae plant 4-15 mlwydd oes yn llawer mwy tebygol o wylio YouTube, Netflix a TikTok na'r BBC neu unrhyw wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus arall. Wrth i gynulleidfaoedd dreulio mwy o amser ar wasanaethau llwyfannau rhannu fideos a fideo ar-alw drwy danysgrifio, maen nhw'n gweld llai o gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn golygu eu bod yn debygol o fod yn gwylio llai o newyddion sy'n ddigon diduedd a digon cywir, llai o raglenni yn y DU sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan, sydd hefyd yn golygu llai o gyfleoedd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddod â'r wlad ynghyd gyda digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon ac adloniant mawr.

I fynd i'r afael â hyn, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi eu cynnwys eu hunain ar lwyfannau trydydd parti. Gallai hyn eu helpu i gysylltu â'r genhedlaeth nesaf o wylwyr, ond maen nhw wedyn yn fwy dibynnol ar y llwyfan a'i system argymell er mwyn cael amlygrwydd. Ar ben hynny, mae risg bob amser, os na fydd cynulleidfaoedd iau yn troi at gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddyn nhw fynd yn hŷn, y bydd y gynulleidfa'n dirywio'n sylweddol dros amser.

## Mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd yn hawdd i newyddion cywir o ansawdd uchel maen nhw'n ymddiried ynddo

Mae tirwedd cyfryngau bywiog, gydag amrywiaeth o ddarparwyr newyddion ar draws amryw o lwyfannau, yn helpu i sicrhau bod dinasyddion yn wybodus ac yn gallu cael gafael a gwrando ar amrywiaeth eang o safbwyntiau yn y lle ac yn y ffordd maen nhw eisiau gwneud hynny. Y mynediad hwn at amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yw conglfaen cymdeithas ddemocrataidd sy'n gweithredu'n dda.

Mae ffynonellau ar-lein a chyfryngwyr fel cyfryngau cymdeithasol, peiriannau chwilio a chyd-gasglwyr newyddion bellach yn cael eu defnyddio'n eang i gael newyddion yn y DU, ac mae ganddyn nhw ddylanwad sylweddol dros y newyddion mae defnyddwyr yn cael gafael arno. Mae oedolion yn y DU nawr yn defnyddio ffynonellau newyddion ar-lein (71%) i'r un graddau ag y maen nhw'n defnyddio ffynhonnell newyddion teledu (70%). Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ddarparwyr newyddion ymgysylltu a chysylltu â chynulleidfaoedd nad ydyn nhw efallai'n troi'n uniongyrchol at eu gwasanaethau nhw. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno nifer o heriau. Mae ein hymchwil yn dangos y gall cynulleidfaoedd ei chael hi'n anodd gwybod pwy sy'n gyfrifol am y cynnwys newyddion maen nhw'n cael gafael arno ar lwyfannau trydydd parti. Er y gallan nhw gael amrywiaeth fwy amrywiol o safleoedd newyddion, maen nhw'n fwy tebygol o fod yn agored i ystod fwy cyfyngedig o bynciau newyddion ar gyfryngau cymdeithasol, o'u cymharu â mynd yn uniongyrchol i wefannau cyhoeddwyr newyddion. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein, a all arwain at ganlyniadau difrifol, fel y gwelwyd gyda'r trais a ffrwydrodd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yr haf hwn yn dilyn ymosodiad Southport. Yn dilyn yr anrhefn,

ysgrifennodd Ofcom at yr Ysgrifennydd Gwladol, yn nodi cysylltiad clir â thwyllwybodaeth ar-lein. Yn sgil datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial ("AI") a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, mae'n debygol o fynd yn anoddach i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar-lein.

Mae cael gafael ar newyddion cywir sy'n glynu wrth safonau newyddiadurol uchel yn hanfodol i fynd i'r afael ag effeithiau camwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy hwyluso dealltwriaeth sifig a thrafodaeth deg a gwybodus. Rydyn ni'n gwybod bod gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ran bwysig yn hyn o beth. Mae cynulleidfaoedd yn credu mai newyddion dibynadwy a chywir yn y DU yw'r elfen bwysicaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac maen nhw fel arfer yn rhoi sgôr uchel i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr eraill am eu cywirdeb ac ymddiriedaeth. Mae ein hymchwil wedi canfod bod y rheini sy'n defnyddio allbwn newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fwy tebygol o adnabod gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, bod ganddyn nhw lefelau uwch o ymddiriedaeth mewn sefydliadau, a bod llai o hollti barn yn eu plith nag ymatebwyr nad oedden nhw'n defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae gan fentrau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau hefyd rôl bwysig i'w chwarae o ran arfogi cynulleidfaoedd â'r adnoddau i sylwi ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a gwahaniaethu rhwng newyddion o ansawdd newyddiadurol uchel a gynhyrchir yn broffesiynol, a mathau eraill o gynnwys.

Fodd bynnag, fel llawer o ddarparwyr newyddion, mae'n dod yn fwy heriol i gynnwys newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dorri drwodd mewn amgylchedd mor orlawn, lle mae gan lwyfannau byd-eang ddylanwad sylweddol dros y cynnwys sy'n cael ei gyflwyno i gynulleidfaoedd. Mae pwysau cyllido hefyd yn golygu ei bod yn mynd yn her gynyddol i gynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel allbwn newyddion a newyddiaduraeth wreiddiol, a'i ddarparu ar draws nifer o wasanaethau a llwyfannau. Mae ein hadolygiad diweddar o'r cyfryngau lleol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd parhaus y diwydiant newyddion lleol, ond hefyd yr heriau sy'n ei wynebu. Mae'r rhain yn cynnwys cynulleidfaoedd yn symud ar-lein a mwy o gystadleuaeth i gael eu sylw, yn ogystal â gostyngiad mewn refeniw hysbysebion, rôl cyfryngwyr ar-lein a'r nifer cynyddol o bobl sy'n osgoi'r newyddion.

## Mae sector cynhyrchu yn y DU sy'n parhau i esblygu yn bwysig er mwyn llwyddo i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

Mae sector cynhyrchu'r DU yn rhan o'n heconomi greadigol sy'n amrywiol, yn gystadleuol ac yn llwyddiannus yn fyd-eang, sy'n enwog am greu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darlledwyr masnachol, stiwdios ffilmiau a gwasanaethau fideo ar-alw byd-eang drwy danysgrifio. Mae sector cynhyrchu ffyniannus ledled y DU yn arbennig o bwysig er mwyn darparu cynnwys sy'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd y DU mewn ffordd ddilys – mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi symud mwy o'u gwariant ar gynyrchiadau rhwydwaith ar draws y DU dros gyfnod ein hadolygiad. Yn y tymor hwy, bydd angen i'r sector barhau i addasu i'r heriau ariannol sy'n wynebu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r effeithiau ar eu patrymau a'u gwariant comisiynu yn sgil hynny. Mae'r sector cynhyrchu annibynnol wedi llwyddo i ddenu refeniw o ffynonellau rhyngwladol, er nad oes unrhyw ofyniad ar y gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio i gomisiynu yn y DU ac ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

## Bydd heriau ariannol yn parhau wrth i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys ar draws nifer o wasanaethau

Mae'n hanfodol bod system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU yn ei chyfanrwydd yn gynaliadwy yn y tymor hir ac yn parhau i ddarparu cynnwys gwerthfawr i holl gynulleidfaoedd y DU.

Bu gostyngiad sylweddol mewn termau real yn refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y 10 mlynedd diwethaf. Refeniw o'r Drwydded Deledu yw'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer y BBC ac S4C. Gwerth y ffrwd refeniw hon yn 2023/24 oedd £3.7 biliwn, £1.3 biliwn y flwyddyn yn is mewn termau

real nag yn 2016. Mae ITV, STV, Channel 4 a Channel 5 yn dibynnu ar refeniw hysbysebion o'u sianeli teledu llinol a gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr am lawer o'u cyllid. Gwerth y refeniw hysbysebion hwn oedd tua £3.1 biliwn yn 2023, mwy na £600m yn is mewn termau real nag yn 2018.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym nad yw eu costau wedi gostwng i'r un graddau yn ystod y cyfnod hwn a bod lefelau uchel o chwyddiant wedi effeithio ar y gost o wneud rhaglenni teledu. Ar ben hynny, mae'n rhaid iddyn nhw fuddsoddi symiau sylweddol i ddatblygu eu llwyfannau dosbarthu digidol, ar yr un pryd â chynnal amserlenni ar gyfer gwasanaethau teledu llinol a'u darlledu ar deledu daearol digidol a lloeren, yn ogystal â gwasanaethau eraill. Mae'r strategaethau cynnwys hyn a'r llwybrau dosbarthu lluosog yn gostus, felly mae perfformiad ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dirywio. Yn 2023, fe wnaeth y BBC, Channel 4 ac S4C nodi diffygion, a dywedodd ITV ac STV fod eu helw wedi gostwng.

Ymateb y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw newid y ffordd maen nhw'n comisiynu cynnwys. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi lleihau eu gwariant (mewn termau real) ar gynnwys gwreiddiol o'r DU ac maen nhw'n defnyddio mwy o gyllid trydydd parti i wneud rhaglenni. Byddan nhw'n parhau i wynebu heriau ariannol oherwydd y newid parhaus mewn gwylio i ffwrdd o deledu llinol. Efallai y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn ei chael hi'n anodd disodli eu ffrydiau incwm traddodiadol â ffynonellau refeniw newydd ar yr un raddfa, wrth iddyn nhw ehangu eu strategaethau digidol a chystadlu fwyfwy â gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos am refeniw hysbysebion.

Hyd yma, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn arbrofi gyda rhoi gwahanol feintiau o gynnwys ar lwyfannau trydydd parti, er bod rhai wedi dweud wrthym mai bach iawn yw'r elw. Mae'n anodd gwneud arian o gynulleidfaoedd ar y llwyfannau hyn, yn enwedig os yw hynny ar draul cynyddu lefelau gwylio ar eu gwasanaethau fideo ar-alw eu hunain sy'n fwy proffidiol. Y peryg yw y bydd yr heriau hyn yn arwain at lai o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

## Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ar sut mae cryfhau'r ddarpariaeth o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn 2025

Yn y ddogfen hon, rydyn ni'n nodi: sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, o'u cymryd gyda'i gilydd, wedi cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus; sut mae gwasanaethau cyfryngau eraill hefyd wedi cyfrannu at hyn, ac yn tynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Yn Haf 2025, byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad yn edrych ar sut gellir cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y degawd nesaf. Gallai hyn gynnwys meysydd lle rydyn ni'n bwriadu ymgynghori ar newidiadau i rai o'n rheolau, yn ogystal â nodi lle gallai fod angen rhagor o ymyrraeth gan y Llywodraeth. Byddwn ni'n parhau i edrych ar y materion hyn gyda rhanddeiliaid ac yn croesawu eu mewnbwn i gam nesaf ein gwaith.

Os hoffech chi gymryd rhan, mae croeso i chi gysylltu â PSMReview2025@ofcom.org.uk.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw'r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae'r holl ganfyddiadau a'r dystiolaeth ategol wedi'u nodi yn y ddogfen lawn, yn yr atodiad ategol a'r adroddiad data rhyngweithiol.

# 2. Cyflwyniad

| Yn yr adran hon, rydyn ni'n: |
|---|
| • Nodi cefndir a fframwaith cyfreithiol ein hadolygiad; ac yn<br>• Trafod strwythur ein hadroddiad a'r atodiadau. |

## Dyletswyddau Ofcom i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Yn ddiweddar, fe wnaethom ni gyhoeddi Cylch Gorchwyl yn nodi cwmpas ac amserlen yr adolygiad hwn. Mae'n rhaid i Ofcom adolygu o leiaf unwaith bob pum mlynedd i ba raddau y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, wedi cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus drwy ddarparu eu sianeli fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw: y BBC, darparwyr pob gwasanaeth Channel 3 (mae pob un ohonyn nhw'n is-gwmni i ITV Plc neu STV Plc), Channel 4 Corporation, Channel 5 Broadcasting Limited (un o is-gwmnïau Paramount Global), ac S4C. Y gwasanaethau perthnasol maen nhw'n eu darparu at ddibenion ein hadolygiad ydy pob un o wasanaethau darlledu teledu'r BBC, pob gwasanaeth Channel 3 rhanbarthol, Channel 4, Channel 5 ac S4C ("sianelau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus").

Rhaid i ni adrodd ar ein canfyddiadau gyda golwg ar gynnal a chryfhau ansawdd darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Fel rhan o'n hadolygiad, rhaid i ni ystyried costau bodloni'r dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r ffynonellau incwm sydd ar gael i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Nodir dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn Atodiad 1 yr adroddiad. Maen nhw'n cynnwys darparu gwasanaethau teledu sydd ag ystod eang o genres a rhaglenni o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion a diddordebau llawer o gynulleidfaoedd gwahanol. Maen nhw'n cael eu bodloni os cyflawnir yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus[1].

Rydyn ni hefyd yn ystyried y cyfraniad y mae gwasanaethau cyfryngau eraill yn ei wneud i'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys sianeli portffolio masnachol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gwasanaethau teledu sy'n cael eu darparu gan y sector amlsianel, gwasanaethau radio, gwasanaethau fideo ar-alw a gwasanaethau ar-lein eraill (lle mae gan berson reolaeth olygyddol dros y deunydd ar y gwasanaeth).

Yn yr adolygiad hwn, rydyn ni wedi canfod bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion gyda'i gilydd. Dyma ein prif ganfyddiadau:

- Mae cynulleidfaoedd yn canmol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am ddarparu amrywiaeth eang o raglenni yn y DU sy'n apelio at gynulleidfaoedd gwahanol, newyddion am y DU sy'n ddibynadwy ac yn gywir, a digwyddiadau sy'n dod â'r genedl at ei gilydd;
- Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnal lefelau cyffredinol o allbwn sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, ond mae wedi bod yn fwy o her i gynnal buddsoddiad, gyda gostyngiad mewn termau real yn y gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

[1] Gweler Adran 264(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a nodir yn Atodiad 1. Mae'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys darparu amrywiaeth o genres gwahanol, gan gynnwys newyddion a chynnwys i blant, ac adlewyrchu'r gwahanol weithgareddau a chymunedau diwylliannol ledled y DU, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain.

Mae'r gwariant comisiynu cyffredinol wedi aros yn weddol sefydlog mewn termau real oherwydd cyfraniadau trydydd parti;
- Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi darparu rhaglenni mewn ystod eang o genres. Fodd bynnag, bu gostyngiad bychan yn yr oriau o raglenni o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf mewn genres sy'n cynnwys rhaglenni ffeithiol, celfyddydol a cherddoriaeth glasurol arbenigol, a rhaglenni plant;
- Er mwyn cyrraedd a chysylltu â phob cynulleidfa, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddatblygu eu gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Mae hyn wedi cynnwys cynyddu'n sylweddol faint o gynnwys a gynhyrchir yn y DU ar eu chwaraewyr.

## Diwygiadau i'r Ddeddf Cyfathrebiadau a wnaed gan y Ddeddf Cyfryngau

Yn Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, fe wnaethom ni edrych ar y newidiadau a'r heriau yn y sector cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a gwnaethom ni argymhellion i ddiogelu, cynnal a chryfhau'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu datblygu yn Neddf Cyfryngau 2024 ("Deddf Cyfryngau") sy'n moderneiddio cylch gwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut mae eu cynnwys yn cael ei ddarparu a'r gofynion y mae'n rhaid i'w cynnwys, gyda'i gilydd, eu bodloni.

Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn gwneud nifer o newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft:

- Mae'n galluogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar draws amrywiaeth o sianeli darlledu a gwasanaethau ar-alw a gwasanaethau ar-lein eraill;
- Bydd yn ofynnol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyhoeddi datganiadau polisi rhaglenni blynyddol estynedig sy'n egluro sut y maen nhw'n bwriadu cyflawni eu gorchwylion gwasanaeth cyhoeddus unigol;
- Dim ond darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gallu darparu gwasanaethau cymwys ar gyfer y drefn digwyddiadau rhestredig;
- Rheolau newydd i sicrhau bod gwasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn cael lle amlwg ar lwyfannau teledu wedi'u cysylltu poblogaidd; a
- Diddymu'r cyfyngiad sy'n atal Channel 4 rhag cynhyrchu ei gynnwys ei hun.

Rydyn ni wedi cyhoeddi map ar gyfer ein trefn o roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith, a byddwn yn ymgynghori ar agweddau ar y drefn honno. Mae amrywiadau i'r drwydded a'r gofynion newydd ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn debyg o ddod i rym o 2026 ymlaen. Er bod ein hadolygiad yn cwmpasu'r cyfnod 2019 – 2023, cyn gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau a'r newidiadau y bydd yn eu gwneud i'r fframwaith rheoleiddio. Rydyn ni wedi ystyried y newidiadau posibl yn ein dadansoddiad a'n hystyriaethau, lle bo hynny'n briodol.

## Strwythur ein hadroddiad a'r atodiadau ategol

Rydyn ni wedi strwythuro'r adroddiad hwn fel a ganlyn:

- **Diwallu anghenion y gynulleidfa:** Yn nodi sut mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar gyfryngau yn parhau i newid a'r heriau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran cysylltu â phob cynulleidfa ar-lein, yn enwedig plant ac oedolion ifanc.

- **Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a sector newyddion y DU:** Yn archwilio a yw cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i newyddion cywir o ansawdd uchel y maen nhw'n ymddiried ynddo wrth i'r drefn o gynhyrchu, dosbarthu a chael gafael ar newyddion newid.
- **Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r sector cynhyrchu yn y DU:** Sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi ac yn dibynnu ar sector cynhyrchu'r DU i gynhyrchu cynnwys sy'n diwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd ac sy'n cynrychioli amrywiaeth y DU gyfan.
- **Cynaliadwyedd ariannol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus:** Yn trafod yr heriau o ran darparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- **Cyflawni dibenion ac amcanion Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus:** Adolygiad o sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion ac wedi darparu ar gyfer cynulleidfaoedd y DU rhwng 2019 a 2023, a chyfraniad gwasanaethau cyfryngau eraill at hyn.
- **Y camau nesaf:** Rydyn ni'n nodi ein cynlluniau ar gyfer cam nesaf y gwaith ar yr adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn 2025.

Mae adroddiad data rhyngweithiol cysylltiedig yn darparu rhagor o ddata a gwybodaeth ategol.

Cyflwynir data ariannol a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn mewn termau real, sy'n golygu fod data wedi cael ei addasu i ystyried chwyddiant. I'r rheini sy'n dymuno gweld y data nad yw wedi cael ei addasu ar gyfer chwyddiant, mae ein hadroddiad data rhyngweithiol yn galluogi iddyn nhw weld data ariannol mewn termau nominal neu 'real' (wedi'i addasu gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr), gyda defnyddwyr yn gallu newid rhwng y ddau yn hawdd.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi atodiadau ategol ar:

- Y fframwaith cyfreithiol;
- Methodoleg a ffynonellau gwybodaeth; a
- Adolygu sut mae Channel 4 Corporation wedi cyflawni ei dyletswyddau cynnwys cyfryngau.

Ddechrau 2025, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ddogfennau ategol ar gyfer yr adolygiad hwn ar:

- Y farchnad hysbysebion teledu yn y DU;
- Y berthynas rhwng defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer newyddion ac ystod o ganlyniadau ar lefel cymdeithas; a
- Cyfryngwyr ar-lein ac amrywiaeth y cynnwys newyddion.

# 3. Diwallu anghenion y gynulleidfa

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Nodi pwysigrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd;
- Disgrifio sut mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando ar gynnwys;
- Nodi grwpiau cynulleidfa sy'n fwy heriol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu ar eu cyfer; a
- Nodi ein barn am yr heriau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol wrth ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa.

## Mae cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig i gynulleidfaoedd

Yn Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr fe wnaethon ni nodi fod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, yn enwedig ar gyfer newyddion dibynadwy a chywir, cynnwys addysgiadol a difyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU ac sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Mae ein hymchwil ddiweddaraf yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r prif feysydd hyn yn y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.[2]

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ganolog i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sydd am ddim pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio. Maen nhw'n darparu newyddion sy'n ddigon cywir ac yn ddigon diduedd y mae cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddo ac yn troi ato mewn adegau o argyfwng ac o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol. Maen nhw hefyd yn darparu cymysgedd eang o gynnwys sy'n adlewyrchu'r DU gyfan ac yn apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd.

Mae cynulleidfaoedd hefyd yn mwynhau cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar draws ystod llawer ehangach o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth newyddion o ansawdd uchel fel Sky News, dramâu o ansawdd uchel o'r DU sy'n cael eu cynnig gan ffrydwyr byd-eang a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael ar lwyfannau rhannu fideos. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau hyn o reidrwydd ar gael am ddim i bawb ac nid oes rheidrwydd ar y darparwyr i barhau i gomisiynu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Felly, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol i barhau i ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Ar y cyfan, mae cynulleidfaoedd yn fodlon â gwasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dywedodd dau draean (67%) o oedolion 16 oed a hŷn yn y DU a oedd wedi gwylio sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis blaenorol eu bod yn fodlon â nhw ac mae hyn wedi aros yn gyson ers 2021.[3] Mae bodlonrwydd yn y gwledydd wedi aros yn weddol debyg i gyfartaledd y DU

[2] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023. Gofynnwyd i ymatebwyr ar-lein beth oedden nhw'n teimlo oedd y tair nodwedd bwysicaf i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu darparu ar gyfer cymdeithas. Y dair nodwedd gyda'r sgoriau uchaf oedd '*newyddion dibynadwy a chywir am y DU*' (49%), '*amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon*' (45%) a '*rhaglenni sy'n fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw* (29%).
[3] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2021-2023.


yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda rhai amrywiadau mewn gwledydd penodol dros amser.[4] Mae cynulleidfaoedd anabl (65%), yn ogystal â chynulleidfaoedd C2DE (65%), yn ychydig yn llai tebygol o fod yn fodlon â sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, o'u cymharu â'r holl oedolion (67%).[5] Fel y trafodwyd yn ein hadroddiad Blynyddol diweddar ar y BBC, mae diwallu anghenion cynulleidfaoedd DE wedi bod yn broblem ers tro byd i'r BBC.

## Mae cynulleidfaoedd yn gwylio ac yn gwrando ar fwy o gynnwys ar-lein

Er mai sianeli llinol yw'r brif ffordd mae llawer o gynulleidfaoedd yn gwylio'r teledu o hyd, mae hyn yn gostwng. Bu gostyngiad o 21% mewn lefelau gwylio cynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar setiau teledu ers 2019 ac erbyn hyn mae gwylio ar deledu llinol ond yn cyfrif am hanner yr holl gynnwys sy'n cael ei wylio yn y cartref[6], ac mae disgwyl i'r gostyngiad barhau.[7] Yn ogystal, nid yw nifer sylweddol o bobl yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yn rheolaidd.[8]

Yn hytrach, mae cynulleidfaoedd yn gwylio a/neu'n gwrando ar amrywiaeth o wasanaethau ffrydio ac ar-alw ar-lein gan ddefnyddio dyfeisiau gwahanol, fel setiau teledu wedi'u cysylltu, ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a seinyddion clyfar. Fel y nodwyd yn Ffigur 1, mae cyfran uchel o oriau gwylio bellach ar wasanaethau fideo ar-alw a llwyfannau rhannu fideos.

**Ffigur 1: Munudau cyfartalog o wylio fideos yn y cartref y dydd ar draws pob dyfais, pob unigolyn: 2023**




*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwelwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n defnyddio rhwydwaith WiFi y cartref.*[9]

---

[4] Er enghraifft, roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru'n llai bodlon na chyfartaledd y DU yn 2023 (Roedd 60% yn fodlon o'i gymharu â 67% o oedolion y DU yn gyffredinol).
[5] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.
[6] Barb.
[7] Er enghraifft, yn 2024, mae Enders yn rhagweld y bydd lefelau gwylio darllediadau byw yn gostwng 18% ymhellach erbyn 2030.
[8] Nid oedd chwarter y bobl bellach yn gwylio'r teledu o leiaf unwaith yr wythnos yn 2023. Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig.
[9] Mae'r saethau'n dangos a yw'r amser gwylio ar gyfer y categori hwnnw wedi newid ers 2022 Mae "cynnwys darlledwyr" yn cynnwys teledu byw, chwarae recordiadau a fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Mae "defnydd arall o setiau teledu" yn cynnwys gwylio ar rai gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio/ fideo ar-alw wedi'i

Fodd bynnag, mae rhai pobl yn dal i wneud defnydd mawr o wasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu – mae pobl o'r grŵp economaidd-gymdeithasol DE[10] a phobl hŷn yn tueddu i wylio mwy o deledu sy'n cael ei ddarlledu na phobl o grwpiau eraill (ar gyfartaledd mae cynulleidfaoedd DE yn gwylio 3 awr, 34 munud y dydd ar setiau teledu a'r rheini sy'n 75 oed a hŷn yn gwylio 5 awr, 33 munud o'i gymharu â 2 awr, 29 munud i bawb sy'n hŷn na 4 oed)[11].

## Bu cynnydd sylweddol yn lefelau gwylio fideo ar-alw drwy danysgrifio, ond rhagwelir y bydd hyn yn arafu[12]

Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, fel Netflix, Amazon Prime Video, Disney+ ac Apple TV yw'r gyrchfan gyntaf erbyn hyn ar gyfer bron i ddwy ran o bump o oedolion a phobl ifanc yn eu harddegau ar-lein pan nad oes ganddyn nhw ddim byd penodol i'w wylio, o'i gymharu â thraean sy'n troi at sianeli teledu.[13] Mae gan dros ddwy aelwyd o bob tair (69%) yn y DU o leiaf un tanysgrifiad, o'i gymharu â 47% yn 2019, ac mae gan yr aelwyd gyfartalog ddau danysgrifiad.[14] Mae cynulleidfaoedd yn tueddu bod yn fodlon â'r gwasanaethau hyn: dywedodd pedwar gwyliwr o bob pump yn y chwe mis blaenorol eu bod yn fodlon â Netflix (84%) a Disney+ (82%) ond dim ond ychydig mwy na thri chwarter y gwylwyr ddywedodd yr un peth am Amazon Prime Video (77%).[15]

Mae gan y gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio gatalogau mawr, sydd â chynnwys ffurf hir yn bennaf. Yn draddodiadol, nid ydyn nhw wedi darparu'r amrywiaeth o gynnwys yn y DU y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei gynnig – er eu bod yn arallgyfeirio, er enghraifft drwy symud i chwaraeon neu chwarae gemau fideo. Maen nhw hefyd yn cynnwys mwy a mwy o gynnwys lleol yn eu catalogau (gan gynnwys cynnwys a gomisiynwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus)[16] ac mae hyn yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd. Er enghraifft, yn 2023, roedd chwech o'r deg o deitlau a berfformiodd orau yn y DU ar y gwasanaethau hyn yn cynnwys y DU neu dalent y DU.[17]

Mae llawer o ffrydwyr hefyd yn comisiynu cynnwys ac wedi buddsoddi mewn cyfleusterau cynhyrchu yn y DU. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio i gynhyrchu cynnwys yn y DU na gwarantu y byddan nhw'n cynnal yr un lefel o fuddsoddiad yn y dyfodol.

## Mae cynnydd cyflym yn niferoedd gwylio llwyfannau rhannu fideos

---

gefnogi gan hysbysebion/ llwyfannau rhannu fideos na ellir eu mesur yn derfynol, yn ogystal â rhai sianeli darlledu heb eu mesur, rhywfaint o bori ar yr EPG/dewislen, gwylio pan fydd y sain yn dawel, lladrad, setiau bocs heb eu mesur/cynnwys talu-i-wylio, a gweithgarwch rhyngrwyd heb fod yn fideo drwy gyfrifiadur personol neu ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r teledu. Nid yw fideo ar-alw drwy danysgrifio / fideo ar-alw wedi'i gefnogi gan hysbysebion yn cynnwys gwylio ar NOW, sy'n gynwysedig o fewn fideo ar-alw gan ddarlledwyr ynghyd â Sky Go/Sky TV On Demand.

[10] Cyfeirir yn aml at bobl mewn grwpiau D ac E fel pobl sy'n dod o grŵp economaidd-gymdeithasol 'is', sydd â statws economaidd-gymdeithasol 'is' neu sydd o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Maen nhw'n fwy tebygol o fod yn hŷn, yn ddi-waith, gydag anabledd, neu wedi ymddeol â phensiwn y wladwriaeth yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli bron i chwarter poblogaeth y DU.

[11] Data 28 diwrnod cyfunol Barb, setiau teledu yn unig.

[12] Er enghraifft, mae Enders yn rhagweld y bydd lefelau gwylio fideo ar-alw drwy danysgrifio yn dechrau sefydlogi yn 2025.

[13] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2024 (sampl ar-lein).

[14] Arolwg Sefydliad BARB Ch3 2024.

[15] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.

[16] Er enghraifft, *Derry Girls, Peaky Blinders* a *Victoria*.

[17] Barb, a welwyd drwy setiau teledu yn unig, gwylio o fewn 28 diwrnod i'w ryddhau, unigolion 4 oed â hŷn. Y teitlau hyn oedd *Chicken Run: Dawn of the Nugget*; *Beckham* Cyfres 1 Pennod 1; *Clarkson's Farm* Cyfres 2 Penod 1; *Luther: The Fallen Sun*; *Bodies* Cyfres 1 Pennod 1; a *Roald Dahl's Matilda the Musical*. Pennod a berfformiodd orau ar gyfer pob teitl yn unig.

Mae llwyfannau rhannu fideos fel YouTube, TikTok a Twitch yn dod yn fwyfwy poblogaidd – yn 2023, roedd 60% o unigolion yn y DU yn gwylio fideos YouTube dros eu cysylltiad band eang cartref bob wythnos.[18] Mae llwyfannau rhannu fideos yn boblogaidd iawn ymysg pobl ifanc, ond y prif ffactorau a sbardunodd y twf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd y gwylio gan gynulleidfaoedd hŷn, yn ogystal â'r gwylio ar setiau teledu wedi'u cysylltu. Yn 2023, bu cynnydd o bum pwynt canran yn y gyfran sy'n gwylio YouTube ar setiau teledu yn y cartref i 34%.[19] Mae portffolio helaeth ac amrywiol o gynnwys ar lwyfannau rhannu fideos, gan gynnwys rhaglenni o wahanol hyd a gyda gwahanol werthoedd cynhyrchu a chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a chynnwys a gynhyrchir yn broffesiynol. Erbyn 2030, mae Enders yn rhagweld y bydd y nifer cyfartalog sy'n gwylio YouTube a gwasanaethau fideo ar-lein eraill bob dydd bron yn hafal i'r nifer sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw ar oddeutu awr a hanner (cynnydd o dros 20%).[20]

Prin yw'r data sydd ar gael am yr hyn mae cynulleidfaoedd yn ei wylio ar YouTube a llwyfannau rhannu fideos eraill. Mewn ymchwil a wnaed eleni, adroddwyd mai fideos hyd at 15 munud o hyd (ac eithrio fideos YouTube Shorts) oedd y math mwyaf poblogaidd o gynnwys ar YouTube (a welwyd gan 62% o bobl ar-lein yn ystod y tri mis diwethaf), ac yna YouTube Short (47%), sydd wedi dod yn fwy poblogaidd ers 2023 (36%). Roedd 18% o bobl yn nodi eu bod wedi gwylio rhaglenni neu ffilmiau (hyd llawn, nid clipiau nac uchafbwyntiau).[21] Mae'r sgyrsiau rydyn ni wedi'u cael gyda rhanddeiliaid yn awgrymu bod rhai cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r teimlad nad yw fideos cymdeithasol wedi'u 'cynhyrchu' i'r un graddau a'u bod yn fwy 'dilys' a'u gallu i ddarparu ar gyfer nifer helaeth o ddiddordebau penodol iawn. Rydyn ni'n edrych ar y mathau o gynnwys mae defnyddwyr yn ei wylio ar lwyfannau rhannu fideos a byddwn ni'n trafod y canfyddiadau yn ein hadroddiad haf.

## Mae cynulleidfaoedd hefyd yn gwrando mwy a mwy ar-lein

Y BBC yw'r unig ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau radio ond mae rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn darparu podlediadau, fel *The Political Fourcast* gan Channel 4 News, *The ITV Racing Podcast* gan ITV Sport a *Talking Politics* gan ITV News. Mae gan y BBC orsafoedd ar draws y DU, rhai penodol i'r gwledydd a radio lleol yn ogystal â phodlediadau a chynnwys sain ar-alw sydd ar gael ar ei lwyfan ar-lein ei hun, BBC Sounds.

Mae radio masnachol hefyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cerddoriaeth a llafar, ac mae Bauer a Global, y darlledwyr radio masnachol mwyaf, hefyd yn annog pobl i wrando drwy eu chwaraewyr sain ar-lein eu hunain (Rayo a Global Player).

Mae'r llwyfannau hyn yn cynnig mynediad i gynulleidfaoedd at wasanaethau radio byw a chynnwys sain ar-alw arall, fel rhestrau chwarae a phodlediadau, ac maen nhw'n cystadlu fwyfwy am wrandawyr ochr yn ochr â gwasanaethau ffrydio sain byd-eang sy'n darparu ystod cynyddol eang o gynnwys sain. Mae cyfran y bobl sy'n gwrando ar radio ar-lein, cerddoriaeth wedi'i ffrydio a phodlediadau i gyd wedi cynyddu ers 2019. Mae'n well gan gynulleidfaoedd iau yn benodol (rhwng 15 a 34 oed) wrando ar-lein – dim ond 25% o'u hamser gwrando maen nhw'n ei dreulio ar radio byw

---

[18] Dangosodd Traciwr Gwylio Tu Allan i'r Cartref o fis Gorffennaf 2024 Barb mai dim ond 6% o'r rheini sy'n defnyddio YouTube yn ystod eu hamser gartref ddywedodd nad oedden nhw byth yn cysylltu â WiFi'r cartref i wylio YouTube.

[19] Barb fel y'i gwyliwyd ar bob dyfas yn y cartref sydd wedi'u cysylltu â bandeang y cartref. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud.

[20] Enders, 2024. Video viewing forecasts: A slowdown in change, t.1. Dyma ddiffiniad Enders o "fideo ar-lein arall": "pob fideo ar-lein heb law am y rheini ar lwyfannau'r darlledwyr neu'r rheini sydd wedi eu cynnwys o dan fideo ar-alw drwy danysgrifio / fideo ar-alw a gefnogir gan hysbysebion. Mae'r rhain yn cael eu hariannu'n bennaf gan hysbysebion. Nid yw'n cynnwys fideos cymdeithasol heb werth ariannol, fel clipiau sy'n cael eu rhannu ar WhatsApp neu ymysg ffrindiau ar Instagram."

[21] Arolwg Fideo Ar-alw Ofcom 2024 (sampl ar-lein).

ar set radio, o'i gymharu â 47% ar gyfer pob oedolyn.[22] Mae mwy nag un oedolyn o bob pump yn y DU (22%) nawr yn gwrando ar o leiaf un podlediad yr wythnos ar bynciau fel adloniant, newyddion a materion cyfoes a chomedi.[23]

## Gyda mwy o ddewis, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd torri drwodd

Mae'r cynnydd yn y dewis a'r amrywiaeth o gynnwys ar-lein yn gadarnhaol i gynulleidfaoedd ond mae wedi'i gwneud yn anoddach i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gysylltu â nhw. Cyn fideo ar-alw a llwyfannau rhannu fideos, roedd cynulleidfaoedd yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gwylio yn gwylio sianeli teledu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gyda mwy o opsiynau ar gael, mae'r darlun bellach yn wahanol iawn: ar gyfartaledd yn 2023, roedd llai na hanner (41%) o amser gwylio cynulleidfaoedd yn y cartref yn cael ei dreulio'n gwylio cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau llinol a chynnwys fideo ar-alw gan ddarlledwyr).[24] Ers 2019, bu gostyngiad o 20% yn yr amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio'n gwylio gwasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – tuedd a oedd yn gyson ar draws y gwledydd, ar wahân i Ogledd Iwerddon, a welodd ostyngiad o 9% yn unig.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn cyrraedd llai o bobl mewn wythnos gyfartalog - 71% ar setiau teledu yn 2023, sef gostyngiad o 13 pwynt canran ers 2019. Roedd yr un yn wir ar draws y gwledydd ond llwyddodd S4C i gynnal ei chyrhaeddiad yn fras, sef 11% o wylwyr yng Nghymru bob wythnos.[25] Mae hefyd wedi bod yn anoddach i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddod â chynulleidfaoedd at ei gilydd (gyda rhai eithriadau): yn 2019 denodd bron i 2000 o ddarllediadau dros bedair miliwn o wylwyr, ond yn 2023 roedd llai na 900 (gostyngiad o 56%).[26]

Nid oedd cyfran fach o gynulleidfaoedd (4%) wedi gwylio unrhyw gynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn Ch1 2023. Roedden nhw'n tueddu i fod yn iau ac yn defnyddio llwyfannau fideo ar-lein. Roedden nhw hefyd yn gwylio llawer llai o fideos yn y cartref, gan wylio YouTube a llwyfannau rhannu fideos eraill yn bennaf a rhywfaint o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio.[27] Yn 2023, roedd y rheini oedd yn gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn lleiaf aml (y traean o'r gwylwyr a oedd yn gwylio'r lleiaf o gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar sianeli llinol neu wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr) yn gwylio dim ond 5 munud y diwrnod o gynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfartaledd. Ychydig iawn o gynnwys gan ddarlledwyr llinol roedd y grŵp hwn o bobl yn ei wylio (llai na 19 munud y dydd o deledu llinol neu fideo ar-alw gan ddarlledwyr) gan ddewis YouTube (55 munud) a Netflix (24 munud) yn bennaf.[28] Mae cynulleidfaoedd wedi dweud wrthym mai'r prif resymau dros beidio â gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw nad yw'r rhaglenni sydd ar gael o ddiddordeb iddyn nhw neu nad ydyn


[22] IPA TouchPoints 2023/24.
[23] RAJAR, 2024. Ch3.
[24] Barb fel y'i gwelwyd, pob dyfais.
[25] Barb, 28 diwrnod wedi'i gyfuno (gan gynnwys gwasanaeth fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn fyw, wedi'i chwarae'n ôl a dal-i-fyny), setiau teledu yn unig. Yn 2023, roedd yn 75% yng Ngogledd Iwerddon, 72% yng Nghymru, 70% yn Lloegr, 70% yn yr Alban. Data 28 diwrnod cyfunol BARB, setiau teledu yn unig. Meini prawf cyrhaeddiad S4C: 3 munud a mwy yn olynol yng Nghymru. Pob maen prawf cyrhaeddiad arall: 15+ munud yn olynol.
[26] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, mesuriad pedair sgrin.
[27] Barb, fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill yn y cartref. Ar gyfartaledd, roedd y cynulleidfaoedd hyn yn gwylio llai na dwy awr o gynnwys fideo bob dydd o'i gymharu â phedair awr ar gyfartaledd.
[28] Barb fel y gwyliwyd, Ch1 2023.

nhw'n gwylio teledu byw, neu nad ydyn nhw'n gwneud hynny'n aml, er enghraifft mae'n well ganddyn nhw wylio gwasanaethau ffrydio.[29]

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i drawsnewid i ddigidol yn gyntaf

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi buddsoddi'n helaeth yn eu gwasanaethau digidol, gan fireinio'r profiad defnyddwyr a chynyddu maint eu catalogau. Mae'r strategaeth hon wedi llwyddo i gynyddu nifer y defnyddwyr a nifer y gwylwyr ar eu llwyfannau ffrydio – rhwng 2022 a 2023, bu cynnydd o 27% yn lefelau gwylio gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, fel y dangosir gan Ffigur 2, nid yw hyn yn gwneud yn iawn yn llwyr am y gostyngiad mewn gwylio llinol.

**Ffigur 2: Nifer y munudau o deledu llinol a gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr a welwyd ar gyfartaledd, fesul darlledwr: 2022-2023**




| | 2022 | 2023 |
|---|---|---|
| BBC: | 14% | 18% |
| ITV/STV: | 7% | 11% |
| Channel 4: | 12% | 16% |
| Channel 5: | 4% | 5% |
| S4C: | 5% | 7% |

*Ffynhonnell: Barb fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill, unigolion 4 oed a hŷn.*[30]

Ym mis Ebrill 2024 fe wnaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus lansio gwasanaeth ffrydio newydd, Freely, ar y cyd. Mae'n galluogi defnyddwyr sydd â theledu clyfar cydnaws i ffrydio teledu llinol byw a llyfrgelloedd fideo ar-alw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ddi-dor.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn rhoi mwy a mwy o gynnwys ar lwyfannau rhannu fideos, fel YouTube a TikTok, i gysylltu â gwylwyr. Mae rhywfaint o hyn yn gynnwys hyrwyddo i ddenu cynulleidfaoedd at eu chwaraewyr fideo ar-alw – er enghraifft mae'r BBC yn ceisio denu

---

[29] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Gofynnwyd cwestiynau ar wahân i'r rheini nad oedden nhw wedi gwylio sianel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unigol (BBC One, BBC Two, ITV/STV/UTV/ ITV Cymru Wales, Channel 4 a Channel 5) yn ystod y 6 mis diwethaf. Dyma'r prif resymau a nodwyd ar draws pob un ohonyn nhw.

[30] Mae "sianeli darlledu" yn cyfeirio at nifer gwylwyr ar draws yr holl sianeli darlledu sy'n eiddo i bob darlledwr (boed nhw'n cael eu gwylio'n fyw neu wedi'u recordio). Mae gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn cyfeirio at gynnwys gan bob darlledwr sy'n cael ei wylio drwy wasanaeth ar-alw, gan gynnwys rhaglenni heb fod yn llinol a ffrydio byw. Mae'r munudau cyfartalog ar gyfer S4C ar gyfer unigolion 4 oed a hŷn yng Nghymru yn unig.

cynulleidfaoedd yn ôl i’w wasanaethau digidol ei hun.[31] Ond mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn arbrofi gyda rhoi rhaglenni llawn ar YouTube a chreu cynnwys yn benodol ar gyfer y llwyfan. Er enghraifft, mae gan Channel 4 nifer o sianeli YouTube pwrpasol i ddangos cynnwys ffurf fer gwreiddiol a chynnwys ffurf hir a ddarlledwyd yn flaenorol, a lansiodd y BBC gyfres ffurf fer ar gyfer iPlayer ac YouTube o’r enw *Ranked*. Mae’r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi newyddion a rhywfaint o gynnwys adloniant ar TikTok ac Instagram sy’n gallu cynyddu ymwybyddiaeth o’u brandiau ymysg oedolion ifanc.

Yn 2023, roedd 31% o wylwyr YouTube 16 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi gwylio sianel YouTube y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis blaenorol.[32] Fodd bynnag, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am gyfran gymharol fach o gyfanswm y gwylio ar YouTube.[33] Gallai fod nifer o resymau am hyn, gan gynnwys yr amrywiaeth enfawr o gynnwys amgen sydd ar gael ar YouTube, anhawster dod o hyd i gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y llwyfannau hyn neu’r posibilrwydd nad ydyn nhw’n chwilio am y math o gynnwys sy’n cael ei gynnig ar hyn o bryd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau rhannu fideos.

## Mae’n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cysylltu â phob cynulleidfa.

Fel rydyn ni’n ei drafod uchod, mae cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dod â chynulleidfaoedd y DU at ei gilydd drwy wasanaethau sydd ar gael i bawb ac yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn dibynnu ar allu pob cynulleidfa i gael gafael ar gynnwys o ansawdd uchel y maen nhw’n ei fwynhau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel y rheini sy’n dal i ddibynnu ar deledu traddodiadol a fydd yn bwysig wrth i’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i weithredu eu strategaethau digidol yn gyntaf. Mae hyn hefyd yn dibynnu ar allu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gysylltu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys y rheini a allai fod yn llai bodlon, fel grwpiau C2DE a gwylwyr anabl.

Mae nodweddion hygyrchedd (gan gynnwys isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion) hefyd yn cynnig cymorth hanfodol i rai cynulleidfaoedd, fel y rheini sydd ag anawsterau clyw a golwg, ac yn cael eu gwerthfawrogi’n ehangach. Canfu ein Traciwr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fod tua dau oedolyn o bob pump (42%) yn y DU yn defnyddio isdeitlau wrth wylio’r teledu (gan gynnwys ffrydio ac ar-alw), ac mae un o bob deg (12%) yn defnyddio disgrifiadau sain – yn y ddau achos mae hyn yn uwch ymysg cynulleidfaoedd iau.[34]

### Mae ystyriaethau hygyrchedd a defnyddioldeb yn hanfodol i rai grwpiau cynulleidfa

[31] BBC, 2024. Cynllun Blynyddol y BBC 2024/25.
[32] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023.
[33] Mae gan rai o sianeli YouTube y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sawl miliwn o danysgrifwyr. Er enghraifft, mae gan brif sianel YouTube y BBC 14.5 miliwn o danysgrifwyr ac mae gan BBC News 16.9 miliwn (ym mis Tachwedd 2024). Fodd bynnag, mae miliynau o sianeli ar YouTube, llawer ohonyn nhw gyda nifer llawer mwy o danysgrifwyr a fideos sydd wedi’u gwylio llawer mwy o weithiau. Er enghraifft, mae gan y Sidemen sydd wedi’i lleoli yn y DU 22 miliwn o danysgrifwyr, ac mae gan Mr Beast o’r UDA 329 miliwn o danysgrifwyr. Ar sail tystiolaeth anecdotaidd fel hyn, mae’n rhesymol dod i’r casgliad mai dim ond cyfran cymharol fach o gyfanswm yr amser gwylio ar YouTube sy’n cael ei dreulio’n gwylio cynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
[34] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Roedd pobl ifanc 16-24 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio isdeitlau (63%) a disgrifiadau sain (23%) na phobl 55 oed a hŷn (36% a 6% yn y drefn honno).

Mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ar eu sianeli teledu, ac maen nhw'n mynd ymhell y tu hwnt i hynny mewn llawer o achosion.[35] Cynyddodd cyfran y rhaglenni ag isdeitlau ar draws sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sianeli yn eu portffolios[36] o 94% yn 2019 i 96% yn 2023, gyda'r BBC, ITV a Channel 4 yn isdeitlo dros 99% o'u rhaglenni yn 2023. Mae llawer o sianeli eraill hefyd yn cynnig lefelau uchel iawn o isdeitlau; er enghraifft, mae Sky bellach yn isdeitlo 100% o'u rhaglenni ar eu sianeli ffilm ac adloniant.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi ehangu argaeledd disgrifiadau sain ar 29% o raglenni yn 2019 i 32% yn 2023, gyda Channel 4 yn arwain y ffordd, gan ddarparu disgrifiadau sain ar 54% o raglenni yn 2023. Hefyd, cynyddodd cyfran y rhaglenni gyda dehongliadau iaith arwyddion o 6% yn 2019 i 7% yn 2023.[37] Wrth edrych ar eu gwasanaethau ar-alw, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynyddu argaeledd gwasanaethau mynediad ar y gwahanol lwyfannau y mae cynnwys yn cael ei wylio arnyn nhw (fel apiau symudol, setiau teledu clyfar, blychau pen-set). Er enghraifft, cynyddodd cyfran y llwyfannau lle'r oedd un neu fwy o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig disgrifiadau sain o 46% yn 2019 i 82% yn 2023.[38]

Er bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwerthfawrogi am ddod â'r genedl at ei gilydd drwy gynnwys byw, mae heriau technegol ychwanegol o ran darparu gwasanaethau mynediad o ansawdd uchel yn fyw. Fodd bynnag, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i arloesi o ran sut maen nhw'n gwneud cynnwys byw yn fwy hygyrch. Er enghraifft, drwy ddarparu disgrifiadau sain yn fyw ar y Gemau Paralympaidd (Channel 4) ac wrth roi sylw i seremoni Goroni'r Brenin ac ar *Strictly Come Dancing* (BBC).

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr cynnwys eraill wedi datblygu dulliau soffistigedig i sicrhau bod eu cynnwys hygyrch yn rhoi profiad pleserus i gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae safonau hygyrchedd a defnyddioldeb y BBC yn uchel eu parch yn y DU ac yn rhyngwladol.[39] Mae datblygiadau eraill yn cynnwys defnydd ITV o gyflwyniadau sain[40] ar gyfer rhai o'i raglenni poblogaidd ac mae Netflix wedi arloesi'r defnydd o ddisgrifiadau sain drwy dechnoleg ymgolli yn ei isdeitlau.[41]

Mae rhai pobl, gan gynnwys pobl hŷn, anabl a/neu sydd â llythrennedd digidol is,[42] wedi dechrau dibynnu ar set gyfarwydd o swyddogaethau ar wahanol setiau teledu, yn seiliedig ar Ganllawiau

---

[35] Edrychwch ar ein Cod Gwasanaethau Mynediad – Teledu i gael rhagor o fanylion. Fel rhan o roi'r Ddeddf Cyfryngau ar waith, byddwn ni hefyd yn rhoi gofynion hygyrchedd newydd ar waith ar gyfer rhai gwasanaethau ar-alw.

[36] Ar sianeli yn amodol ar ofynion.

[37] Mae rhai darlledwyr yn bodloni eu gofynion o ran iaith arwyddion drwy ddarparu nifer penodol o raglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion bob mis neu drwy ddarparu cyfraniadau ariannol i BSLBT. Nid yw'r sianeli sy'n gwneud hyn wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

[38] Mae hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rydyn ni'n casglu data ar eu cyfer (ITVX, Channel 4, My 5 ac S4C Clic) ar y llwyfannau maen nhw wedi cyflwyno data ar eu cyfer. I gael rhagor o fanylion am ddarparu gwasanaethau mynediad ar wasanaethau teledu ac ar-alw, trowch at ein hadroddiad Gwasanaethau Mynediad 2023.

[39] I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Ymchwil a Datblygu'r BBC. Mae'r BBC hefyd yn cyhoeddi canllawiau arfer gorau, gan gynnwys mewn perthynas ag isdeitlo a hygyrchedd llwyfannau gwe a dyfeisiau symudol.

[40] Mae cyflwyniadau sain yn drac disgrifiadau sain ychwanegol y gall cynulleidfaoedd wrando arno ar-lein cyn y brif raglen.

[41] Er enghraifft, edrych ar erthygl Vulture 2022.

[42] Mae ymchwil ansoddol 2024 gan Projects by IF i lywio adolygiad cynnar Ofcom o'r farchnad ar ddosbarthu teledu yn awgrymu bod y cynulleidfaoedd hyn yn cynnwys pobl hŷn, pobl sydd â namau synhwyraidd, gwybyddol a/neu gorfforol a/neu lefelau is o sgiliau darllen Saesneg neu lythrennedd a sgiliau digidol isel.

Rhaglenni Electronig hygyrch. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dechrau manteisio ar lwyddiant rhyngwynebau teledu daearol digidol cyfarwydd, gan fanteisio ar y cyfleoedd i ddarparu ar-lein ar yr un pryd. Er enghraifft, mae Freely'n cynnig canllaw sianeli cyfarwydd ac yn integreiddio cynnwys wedi'i amserlennu dros nodweddion band eang (fel opsiynau 'rhewi' ac 'ar-alw' integredig).

Mae angen gwneud rhagor i sicrhau y gall pob cynulleidfa fanteisio'n llawn ar drawsnewidiadau digidol yn gyntaf y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft, er bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi mwy o gynnwys ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym nad ydyn nhw bob amser yn eu gwneud yn gwbl hygyrch.[43] Rydyn ni hefyd wedi clywed pryderon nad yw apiau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob amser yn caniatáu llywio gan ddarllenwyr sgrin neu ganllawiau llais ar draws gwahanol lwyfannau.


## Mae plant a phobl ifanc yn gwylio cynnwys ar-lein yn bennaf

Cynulleidfaoedd ifanc sydd ar flaen y gad yn y newidiadau gwylio a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adran hon. Rhwng 2019 a 2023, cwympodd cyfartaledd yr amser roedd plant 4-15 oed yn ei dreulio'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu bob dydd o 68 i 38 munud (gostyngiad o 44%). Ymysg pobl ifanc 16-24 oed, fe wnaeth fwy na haneru (o 73 i 33 munud).[44] Er bod gostyngiad yn yr amser mae cynulleidfaoedd ifanc yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu, nid yw'r un yn wir am gyfanswm yr amser maen nhw'n ei dreulio'n gwylio cynnwys fideo yn y cartref: yn ystod y flwyddyn hyd at 2023 cynyddodd o 8% ar gyfer plant (i 3 awr 7 munud) a 4% ar gyfer y rheini rhwng 16 a 24 oed (i 3 awr a 23 munud) oherwydd cynnydd yn yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio gwasanaethau fideo ar-alw a llwyfannau rhannu fideos.

Fel y mae Ffigur 3 yn dangos, nid yw plant bellach yn cael eu magu gyda theledu llinol fel eu prif ffynhonnell wylio. Ar gyfartaledd, roedd gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos yn cyfrif am 29% a 27% o lefelau gwylio dyddiol plant 4-7 oed yn y cartref. Roedden nhw hefyd yn treulio 27% o'u hamser yn gwylio cynnwys darlledwyr, pan ystyrir gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr a chwarae recordiadau.

[43] Er enghraifft, drwy ddarparu testun amgen i bobl sydd wedi colli eu golwg a gwneud testun mewn clipiau newyddion yn hygyrch.
[44] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig.

**Ffigur 3: Cyfanswm y munudau o fideos a wyliwyd yn y cartref ymhlith plant a phobl ifanc, 2023**





*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â band eang y cartref.*

Ymysg plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, llwyfannau rhannu fideos oedd y brif gyrchfan: yn cyfrif am fwy na hanner (52%) y gwylio yn y cartref ymysg pobl ifanc 12-15 oed, er enghraifft. Ac fel y nodwyd gennym isod, o ran pob plentyn rhwng 4 a 15 oed, nid oedd yr un darlledwr unigol yn gallu denu eu sylw am fwy nag 8% o'u hamser gwylio yn 2023.

## Nid yw cynulleidfaoedd ifanc yn ymgysylltu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Mae Ffigur 4 yn gwahanu gwylio yn y cartref yn ôl gwasanaeth ac yn dangos i ba raddau mae cynulleidfaoedd iau yn gwylio llwyfannau rhannu fideos a gwasanaethau fideo ar-alw. Yn achos plant 4-15 oed, YouTube, Netflix a TikTok yw eu tri phrif wasanaeth. Ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed, eu prif wasanaethau yw YouTube, TikTok a Netflix.

**Ffigur 4: Cyfran y gwylio yn y cartref yn ôl grŵp oedran a darparwr, 2023**




*Ffynhonnell: Barb, fel y'i gwyliwyd ar setiau teledu a dyfeisiau eraill sydd wedi'u cysylltu â band eang y cartref.*

Efallai mai'r peth mwyaf trawiadol yw i ba raddau mae patrymau gwylio cynulleidfaoedd ifanc yn wahanol i'w cyfoedion hŷn: er mai'r BBC yw'r gwasanaeth sy'n cael ei wylio fwyaf ymysg pobl 35 oed a hŷn (gan gyfrif am 23% o'u gwylio yn y cartref), dyma'r pedwerydd gwasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg plant 4-15 oed a'r pumed gwasanaeth sy'n cael ei wylio fwyaf ymysg pobl ifanc 16-24 oed (8% o'r gwylio yn y cartref ymysg pobl ifanc 4-15 oed a 5% ymysg pobl 16-24 oed).[45]

Bydd darlledwyr yn holi a yw cynulleidfaoedd ifanc yn cael gafael ar eu gwasanaethau, a hefyd a ydyn nhw'n ymgysylltu â'u cynnwys o gwbl – gan gynnwys y cynnwys maen nhw'n ei roi ar lwyfannau trydydd parti fel YouTube a TikTok. Mae ein hymchwil yn dangos fod 40% o rieni gyda phlant 0-15 oed yn honni bod eu plant wedi gwylio cynnwys ar sianel YouTube darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y chwe mis blaenorol. Mae tua thraean (31%) o rieni plant 3-4 oed yn dweud bod eu plentyn wedi gwylio sianel YouTube CBeebies. Mae tua hanner (51%) y gwylwyr YouTube 16-24 oed yn dweud eu bod wedi gwylio sianel YouTube darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a'r BBC yw'r un fwyaf cyffredin ar 34%.[46]

Er bod y ffigurau hyn yn awgrymu bod rhai gwylwyr ifanc yn cael gafael ar gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau rhannu fideos, nid oes tystiolaeth glir ynghylch pa mor rheolaidd na faint o amser maen nhw'n treulio'n gwneud hynny. Er bod llawer o sianeli sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ar lwyfannau rhannu fideos, mae darlledwyr gwasanaeth

[45] Barb, ar adeg gwylio.
[46] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023.

cyhoeddus yn wynebu llawer mwy o gystadleuaeth ar y gwasanaethau hyn nag ar deledu sy'n cael ei ddarlledu.[47]

Un her benodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw canfod – a chreu – y math o raglenni a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd iau wrth i'w chwaeth newid. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod yn well gan lawer o blant hŷn a phobl iau gynnwys byr a chyflym: wrth ddefnyddio llwyfannau rhannu fideos, roedd plant yn gwylio "pytiau byr o gynnwys sy'n cael eu hail-bostio o gynnwys fideo hirach, fel ffilmiau neu raglenni teledu." Dywedodd plant hefyd eu bod yn gwylio fideos ar gyflymder dwbl. Roedd y cyfranogwyr yn tueddu tuag at fideos "wedi'u golygu gydag arddulliau cyflym, cryno, effeithiau gweledol ac effeithiau sain" ac a oedd "yn tueddu i ganolbwyntio ar heriau eithafol, symiau mawr o arian, drama a chynnwys sy'n peri sioc."[48] Gyda'r cynnwys diddiwedd a swm cynyddol o gynnwys ar gael iddyn nhw, gall chwaeth cynulleidfaoedd iau newid yn gyflym. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym ei bod yn anodd rhoi eich bys ar yr hyn a fydd – ac na fydd – yn llwyddo.

### Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu cynnwys i blant ond mae'r nifer ohonyn nhw a nifer y gwylwyr wedi gostwng

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod rhieni'n dal i werthfawrogi rhaglenni plant o safon uchel a wneir yn y DU gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[49] Ystyrir bod sianeli teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u chwaraewyr fideo ar-alw hefyd yn cyflawni'n dda ar amrywiaeth o fetrigau, gan gynnwys darparu rhaglenni o ansawdd uchel i blant a'r rheini sy'n eu helpu i ddeall y byd o'u cwmpas.[50]

Er bod cynulleidfaoedd ifanc yn gwylio llai o'u cynnwys, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gomisiynu rhaglenni plant. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC, y prif gomisiynydd cynnwys plant yn y DU, wedi cynyddu nifer y rhaglenni plant wedi'u hanimeiddio y mae'n eu comisiynu.[51] Nododd ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC fod animeiddio wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ymysg plant 6-12 oed a'i fod yn gwneud yn arbennig o dda ar iPlayer.

S4C yw ail ddarparwr mwyaf cynnwys sydd ar gael am ddim i blant, ac mae'n cynnig rhaglenni sy'n helpu plant i ddysgu Cymraeg, yn amrywio o raglenni wedi'u hanimeiddio i raglenni dogfen ar fyd natur. Mae'r BBC, S4C, Sky a Channel 5 i gyd wedi cyhoeddi rhaglenni plant newydd yn ddiweddar. Mae plant hefyd yn elwa o raglenni sy'n apelio at y teulu ehangach, o Gladiators i Planet Earth a The Voice.

Fodd bynnag, mae'r gynulleidfa ar gyfer teledu llinol i blant wedi bod yn crebachu, ac nid yw'r lefel uwch o wylio ar-alw wedi gwrthbwyso hynny. Mae'r gostyngiad hwn wedi ychwanegu pwysau at genre sydd wedi bod yn anodd gwneud arian ohono ers tro byd. Er bod ymyriadau polisi wedi ceisio

---

[47] Ymhlith y cynnwys hwn, mae cynnwys i blant sydd wedi'i greu'n benodol ar gyfer llwyfannau rhannu fideos. Er enghraifft, mae Little Dot Studios wedi cyhoeddi eu bod yn ail-greu'r gyfres i blant, the Wombles, ar YouTube. Broadcast, 2023. The Wombles to be reborn on social media.

[48] Adroddiad y Cyfryngau ym Mywyd Plant 2024 Ofcom.

[49] Mae 78% o rieni plant 0-15 oed yn dweud ei bod yn bwysig bod sianeli a gwasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn darparu amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel sy'n cael eu gwneud yn y DU i blant.


[50] Er enghraifft, dywedodd rhieni plant a oedd wedi gwylio Milkshake, CBeebies neu CBBC yn ystod y chwe mis blaenorol eu bod yn gwneud yn dda am ddarparu *'rhaglenni o ansawdd uchel i blant'* (80%, 78% a 73% yn y drefn honno) a *'rhaglenni sy'n helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas'* (77%, 78%, 78%). Yn yr un modd, dywedodd rhieni plant sydd wedi gwylio sianeli teledu ITV neu ITVX neu sianeli teledu'r BBC neu iPlayer eu bod yn darparu '*rhaglenni o ansawdd uchel i blant hŷn (10 oed a hŷn)'* (71% a 67%).

[51] Ofcom, 2024. Adroddiad Blynyddol ar y BBC 2023-24.

rhoi cymhellion i greu cynnwys sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc,[52] mae darlledwyr masnachol yn dweud wrthym fod yr elw ariannol yn gyfyngedig ac yn gostwng ar draws pob genre plant, a bod y risg o fuddsoddi mewn rhaglenni plant wedi mynd yn uwch dros amser.[53]

Mewn ymateb i hynny, mae darlledwyr wedi lleihau eu gwariant ar gynnwys i blant, a'r oriau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer hynny. Mae Ffigur 5 yn dangos fod nifer y rhaglenni i blant ar sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cwympo i'w lefel isaf yn 2023. Mae lefelau buddsoddi yn y genre hefyd wedi bod yn gostwng dros y tymor hir, gan ostwng i £74m yn 2023, i lawr o £104m a addaswyd ar sail y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2019.

**Ffigur 5: Oriau o raglenni plant o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf / sydd newydd gael eu rhyddhau, yn ôl math o ddarparwr: 2019-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. (Data darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac amlsianel). Ampere Analysis (data fideo ar -alw drwy danysgrifio).[54]*

Yn unol â'u hagwedd at gynulleidfaoedd yn gyffredinol, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ail-werthuso faint o gynnwys sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc maen nhw'n ei roi ar deledu llinol o'i gymharu â'u chwaraewyr ar-alw.[55] Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod catalogau mwy o gynnwys plant a phobl ifanc ar gael neu ar gael ar wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn unig. Er enghraifft, yn 2023, caeodd ITV eu sianel ddarlledu i blant, CITV, a chanolbwyntio yn lle

---

[52] Dyfarnodd y Gronfa Cynnwys i Gynulleidfaoedd Ieuenctid werth £44 miliwn o gyllid cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o greu cynnwys o safon i bobl dan 18 oed. Daeth y rhaglen, a sefydlwyd yn 2019, ac a ariannodd 61 o brosiectau cynhyrchu, i ben yn 2022. Bigger Picture Research, 2022. [Peilot Cronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc: Gwerthusiad diwedd tymor](), t. 2. Yng ngwanwyn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gredydau treth wedi'u hailwampio i gefnogi teledu cymwys o safon uchel, animeiddio a theledu i blant. BFI, 2023. [Budget 2023: UK tax reliefs to be remodelled as expenditure credits]().

[53] Mae rhanddeiliaid wedi nodi bod ffactorau'n cynnwys cyfyngiadau ar hysbysebu cynnyrch llawn braster, halen neu siwgr uchel ar y teledu i blant a ddaeth i rym o 2007 ymlaen.

[54] Nid yw ffigurau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys BBC ALBA a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r gwasanaethau amlsianel yn cynnwys Bloomberg, CBS AMC Networks, GB News, Hearst Networks EMEA (AETN gynt), Moochi TV, Narrative Entertainment, Paramount Global, Sky, Talk TV, Talk Pictures, UKTV a Warner Bros. Discovery (gan gynnwys CNN, Turner Broadcasting, a TNT Sports). Rhai o'r gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yw Netflix, Amazon Prime Video, Disney+, Apple TV+, Discovery+, a Paramount+ – mae'r data'n cynrychioli rhaglenni gwreiddiol newydd sbon sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU sy'n cael eu hychwanegu at eu catalogau yn y DU bob blwyddyn.

[55] Er enghraifft: Deadline, 2024. [BBC Moves 'Newsround' To News Unit & Beefs Up CBeebies Under Kids Content Changes]().

hynny ar ITVX Kids.[56] Fodd bynnag, mae Sky wedi lansio sianel linol newydd, Sky Kids, sydd wedi'i thargedu at blant iau.[57]

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn aml yn mireinio strategaethau i gysylltu â chynulleidfaoedd ifanc.

Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae darlledwyr wedi gosod eu cynnwys eu hunain ar lwyfannau trydydd parti fel YouTube a TikTok fel elfen ganolog o'u hymdrechion i gysylltu â chynulleidfaoedd iau. Er enghraifft, mae S4C wedi buddsoddi £7.5m yn ei strategaeth dosbarthu digidol aml-lwyfan. Mae hyn yn cynnwys ei frand Hansh, sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, sy'n creu cynnwys pwrpasol ar gyfer llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'i ddylunio i ddod â gwylwyr iau o Gymru at ei gilydd, ac mae S4C hefyd yn darparu rhaglenni llawn ar y gwasanaethau hyn. Mae Channel 4 yn darparu cynnwys gwreiddiol sy'n targedu pobl ifanc yn eu harddegau a phobl iau ar lwyfannau rhannu fideos. Mae gan sianeli plant y BBC, CBeebies a CBBC, sianeli YouTube sy'n cynnig amrywiaeth o gynnwys, gan gynnwys rhaglenni llawn. Mae hefyd yn ceisio cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc drwy raglenni gemau: er enghraifft, mae wedi creu cyfres o gemau ar Roblox sy'n cynnwys personoliaethau'r BBC.[58]

Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd yna ynghylch faint o gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y mae pobl ifanc yn cael gafael arno drwy lwyfannau rhannu fideos, nac ynghylch a yw'r clipiau a'r rhagflasau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu rhoi ar lwyfannau rhannu fideos yn llwyddo i gymell gwylwyr ifanc i wylio eu gwasanaethau ar-alw eu hunain. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym dro ar ôl tro, wrth i gynulleidfaoedd ifanc symud tuag at wasanaethau ar-lein, fod gallu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu rhaglenni ar eu cyfer wedi dod o dan bwysau. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gomisiynu a darparu cynnwys sy'n adlewyrchu plant a'u bywydau yn y DU, ac nid oes unrhyw sicrwydd y byddai darparwyr eraill yn llenwi'r bwlch hwn yn y pen draw pe bai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn symud i ffwrdd o gynnwys i blant.

Nid yw'r DU yn unigryw o ran gweld gostyngiad yn lefelau gwylio cynulleidfaoedd ifanc o gynnwys darlledwyr, yn ogystal â faint o gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu i blant.[59] Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dramor yn cymryd camau tebyg i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn yn well ac apelio atyn nhw. Er enghraifft, addasodd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Belgaidd ar gyfer y gymuned Ffrangeg ei hiaith (RSBF) ei ddarpariaeth newyddion i wahanol gyfryngau, gan gwmpasu cynnwys ar deledu a fideo ar-alw ar gyfer pobl ifanc rhwng 8 a 12 oed, cynnwys TikTok ac Instagram ar gyfer pobl ifanc 13-17 oed, a chynnwys cyfweliadau radio ar gyfer cynulleidfaoedd iau (yn benodol, pobl ifanc 16-18 oed).[60] Creodd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Norwy (NRK) sianel YouTube o'r enw 4ETG gyda chynnwys fideo penodol a chyfresi'n targedu pobl ifanc 14–20 oed. Mae hefyd wedi buddsoddi mewn gwasanaeth ar-alw sydd wedi'i anelu'n benodol at blant.[61]

---

[56] BBC, 2023. CITV channel closes as ITVX Kids streaming service launches.
[57] The Drum, 2023. Inside the launch of Sky Kids, the linear ad-free TV channel.
[58] Broadcast, 2024. BBC launches Wonder Chase experience on Roblox.
[59] Er enghraifft, gwelodd y gwledydd canlynol ostyngiad yn nifer y comisiynau teledu i blant rhwng 2022 a 2023: Gostyngiad o 13% yn Ffrainc, 21% yng Nghanada, 46% yn yr Eidal, 35% yn yr Almaen, 10% ym Mrasil, 22% yn yr Iseldiroedd, 50% yn Awstralia, 21% yn Nenmarc a 38% yn Sweden. Ampere Analysis, 2024, fel y dyfynnwyd gan C21 Media. US kids' commissions decline, acquisitions on the up.
[60] Public Media Alliance, 2024. PSM Unpacked; Covering elections for young audience.
[61] Nordicom, 2023. Audiovisual Content for Children and Adolescents in Scandinavia: Production, Distribution, and Reception in a Multiplatform Era, t. 79-98.

**Crynodeb o'r prif heriau ar gyfer cynulleidfaoedd:**

- Mae'r dewis cynyddol o ran beth i'w wylio a gwrando arno ar-lein yn gadarnhaol i gynulleidfaoedd. Ond, mae hyn yn golygu eu bod yn debygol o fod yn gwylio a gwrando ar lai o raglenni o'r DU sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddod â'r wlad ynghyd gyda digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon ac adloniant mawr. Yn benodol, mae arferion gwylio a gwrando pobl ifanc yn peri risg tymor hwy i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus os na fydd y bobl ifanc yn dewis gwylio a gwrando ar gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddyn nhw fynd yn hŷn.
- Efallai y bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cyrraedd mwy o gynulleidfaoedd drwy roi cynnwys ar lwyfannau trydydd parti, ond efallai na fydd eu cynnwys yr hyn mae cynulleidfaoedd yn chwilio amdano ar lwyfannau o'r fath, ac nid oes gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unrhyw reolaeth dros yr hyn sy'n cael ei argymell a'i hysbysebu i wylwyr a gwrandawyr. Ar ben hynny, efallai na fydd y priodoli na'r telerau ariannol yn ddigon i gynnal y gwaith o gynhyrchu cynnwys o'r un ansawdd yn y dyfodol.
- Yn y pen draw, mae perygl y bydd llai o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael i gynulleidfaoedd yn y dyfodol, a gallai hyn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau cynulleidfaoedd gan na fydd rhywfaint o gynnwys ar-lein ar gael yn gyffredinol.

# 4. Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a sector newyddion y DU

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Ystyried sut mae'r ffordd y caiff newyddion ei gynhyrchu, ei ddosbarthu a'r ffordd mae defnyddwyr yn cael gafael arno yn parhau i newid;
- Disgrifio'r heriau y mae hyn yn eu cyflwyno o ran sicrhau bod newyddion cywir sy'n glynu wrth safonau newyddiadurol uchel yn dal ar gael yn rhwydd i ddinasyddion y DU ac yn y mannau lle maen nhw'n dymuno cael gafael arno; a
- Trafod sut mewn darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn addasu i ateb yr heriau hyn.


## Mae gan y DU sector newyddion cyfoethog, amrywiol a deinamig

Mae sylw newyddion a materion cyfoes yn chwarae rhan hanfodol wrth hwyluso dealltwriaeth sifig a chynnig trafodaeth deg a gwybodus i'r cyhoedd. Mae sector newyddion lluosog y gellir ymddiried ynddi yn gonglfaen democratiaeth sy'n gweithio'n dda. Mae gan y DU gyfoeth o sefydliadau newyddion a chyfryngau sy'n darparu newyddion o ansawdd uchel ar y teledu, y radio, ar-lein, ar bodlediadau ac mewn print.

Mae Ffigur 6 yn dangos y darparwyr newyddion mwyaf yn y DU yn 2024 gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, Sky, a'r brandiau radio a phapur newydd traddodiadol, a chyfran poblogaeth y DU y mae eu newyddion yn ei chyrraedd. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld darparwyr newydd yn dod i'r amlwg yn y farchnad, fel GB News, ac mae llawer o'r sefydliadau newyddion traddodiadol wedi bod yn esblygu eu modelau busnes i lansio brandiau newydd, fel News UK (rhan o News Corp) a lansiodd Times Radio yn 2020 a TalkTV (Talk bellach)[62] yn 2022. Lansiwyd nifer o bodlediadau poblogaidd, uchel eu proffil sy'n canolbwyntio ar faterion cyfoes neu newyddion, fel *The News Agents* a *The Rest is Politics*, gyda phobl yn defnyddio'r rhain i ddysgu mwy am ddigwyddiadau yn y DU neu ledled y byd. Mae deuddeg y cant o oedolion yn y DU nawr yn nodi eu bod yn defnyddio podlediadau fel ffynhonnell newyddion (gan godi i 19% o bobl 16-34 oed). Mae cyfryngwyr fel YouTube wedi darparu llwyfan ar gyfer amrywiaeth eang o sylwebwyr newyddion llai ac wedi caniatáu i gynulleidfaoedd y DU gael gafael yn haws ar newyddion a materion cyfoes o bob cwr o'r byd.

[62] Caeodd Talk TV ei sianel linol a symudodd i fod yn wasanaeth ffrydio newyddion ar-lein yn unig ym mis Mai 2024.

**Ffigur 6: Cyrhaeddiad darparwyr newyddion manwerthu traws-lwyfan 2024**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn yn 2024=5466 ITV* ac ITV yn cynnwys UTV/STV/ITV Cymru. Meta** = Facebook + Instagram + Threads + WhatsApp. Google*** = Google News + Google + YouTube.*

Canfu ein hadolygiad o gyfryngau lleol yn y DU fod cyfryngau lleol yn gallu cynnig manteision pwysig i gymdeithas drwy gefnogi democratiaeth leol a dal cynghorau a sefydliadau lleol eraill i gyfrif. Rydyn ni'n rhoi crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Mae rheoliadau ar draws holl ddyletswyddau Ofcom i gefnogi sector newyddion y DU

Mae gennym ni ddyletswyddau ar draws darlledu, cystadleuaeth a diogelwch ar-lein, i sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu cael gafael ar newyddion amrywiol o ansawdd uchel, ar yr un pryd â chael eu diogelu'n briodol rhag cynnwys niweidiol ac anghyfreithlon.

Mae'r newyddion sy'n cael ei ddarparu ar deledu a radio gan ddarlledwyr sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom,[63] gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn rhwym wrth God Darlledu Ofcom.[64] Mae hyn yn cynnwys safonau i sicrhau y caiff y newyddion ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy. Rydyn ni hefyd yn gosod rhwymedigaethau trwydded ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran ansawdd, maint ac amlder y rhaglenni newyddion y mae'n rhaid iddyn nhw eu darparu. Mae'r Ddeddf Cyfryngau'n mynnu bod y darparwyr radio masnachol lleol a chenedlaethol yn parhau i ddarparu bwletinau newyddion lleol fel rhan o'u gwasanaethau. Mae gennym ni ddyletswyddau hefyd i sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ddarparwyr cyfryngau a safbwyntiau golygyddol gwahanol.

---

[63] Yn y DU, mae angen trwydded ddarlledu ar wasanaethau teledu sy'n cael eu darlledu drwy IP, lloeren, cebl neu deledu daearol digidol sy'n hygyrch o'r Amserlen Rhaglenni Electronig sy'n cael ei reoleiddio yn y DU. Mae angen trwydded hefyd ar wasanaethau darlledu radio (nad ydyn nhw'n cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar-lein).

[64] Mae'r Cod Darlledu yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alw'r BBC yn y DU a ariennir gan ffi'r drwydded. Ar hyn o bryd mae gan Ofcom gyfrifoldeb hefyd i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunydd ar-lein. Fodd bynnag, **ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r BBC, bydd Ofcom yn cael pwerau newydd i reoleiddio deunydd ar-lein y BBC.**

Mae ein gwaith mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a gweithredu Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 ("OSA") hefyd yn chwarae rhan bwysig. Ers 2003, mae gennym gyfrifoldebau i hyrwyddo ac ymchwilio i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, er mwyn sicrhau bod gan gynulleidfaoedd y sgiliau i lywio a deall cynnwys gan gynnwys newyddion ac ymgysylltu'n feirniadol â chywirdeb a didueddrwydd ffynonellau newyddion a chynnwys, er enghraifft. Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n hanfodol i'n bywydau bob dydd, yn enwedig gan fod mwy a mwy o berygl fod cynulleidfaoedd ddod i gysylltiad â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth (rydyn ni'n trafod hyn yn fanylach isod). Nid yw'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn nodi camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn benodol fel niwed y mae angen i wasanaethau ar-lein fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, mae'n gosod rhai gofynion cyfreithiol newydd ar ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n berthnasol i fynd i'r afael â mathau o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.[65] Mae'n rhaid i bob darparwr gynnal asesiad risg mewn perthynas â chynnwys anghyfreithlon, a chael systemau a phrosesau cymesur ar waith i sicrhau bod cynnwys anghyfreithlon yn cael ei ddileu'n gyflym pan fydd y darparwr yn dod yn ymwybodol ohono. Mae hyn yn cyfeirio at gynnwys sy'n gyfystyr â 'trosedd ymyriant tramor' neu 'drosedd cyfathrebu ffug' a chynnwys sy'n sbarduno trais neu gasineb. Mae gan rai darparwyr gyfrifoldebau ychwanegol hefyd a allai ymwneud â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau tryloywder, defnyddio eu telerau gwasanaeth yn gyson, diogelu cynnwys darparwyr newyddion, a rhoi sylw i bwysigrwydd diogelu cynnwys newyddiadurol a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd.


## Mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ganolog i sector newyddion y DU

O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf Cyfathrebiadau"), a ddiwygiwyd gan Ddeddf y Cyfryngau, mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, ddarparu sylw cynhwysfawr ac awdurdodol i newyddion a materion cyfoes yn y DU ac o bob cwr o'r byd.[66] Mae gan y BBC hefyd Ddiben Cyhoeddus, i ddarparu newyddion a gwybodaeth diduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas.[67]

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu newyddion ar amrediad o lwyfannau. Ar y teledu, mae gan bob un ohonyn nhw gwotâu i ddarparu nifer penodol o oriau o newyddion, gan gynnwys ar adegau prysur. Bob blwyddyn, rydyn ni'n adrodd ar gydymffurfiad â'r cwotâu hyn ac mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu bodloni neu'n rhagori arnyn nhw ar y cyfan. Gyda'i gilydd, cyfanswm allbwn newyddion a materion cyfoes rhwydwaith teledu a ddarlledwyd am y tro cyntaf y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus oedd 19,374 awr yn 2023 (i fyny 1.4% o un flwyddyn i'r llall) – o hyn, darlledwyd 7,730 awr ar bum prif sianel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac roedd yr 11,64 awr arall ar sianeli portffolio'r BBC (BBC News a BBC Parliament yn bennaf). Mae'r BBC hefyd yn darparu bwletinau newyddion ar draws ei gorsafoedd radio rhwydwaith a lleol, ochr yn ochr â rhaglenni newyddion a materion cyfoes penodol ar rai gorsafoedd ac ar BBC Sounds. BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 4 yw'r gorsafoedd radio sy'n cael eu defnyddio fwyaf ar gyfer newyddion o hyd.[68]

[65] Edrychwch ar gyflwyniad Ofcom i Ymchwiliad Dyfodol Newyddion Tŷ'r Arglwyddi, t. 17-19 i gael rhagor o wybodaeth am y gofynion cyfreithiol hyn.
[66] Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 264(6).
[67] Erthygl 6 o Siarter Frenhinol y BBC.
[68] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

**Ffigur 7: Oriau rhwydwaith ar gyfer newyddion a rhaglenni materion cyfoes o'r DU a ddangoswyd am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fesul sianel: 2019-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys BBC ALBA a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.*

Mae'n rhaid i Ofcom osod cwotâu ar gyfer rhaglenni newyddion ar wasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[69] Mae'r cwotâu newyddion hyn yn berthnasol i wasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus llinol yn unig, ac nid i'w gwasanaethau fideo ar-lein. Fodd bynnag, o ystyried y tueddiadau o ran defnydd cynulleidfaoedd, mae nifer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhoi eu cynnwys llinol ar y llwyfannau hyn i wahanol raddau. Mae'r BBC, ITV, STV, S4C a Channel 4 i gyd yn darparu erthyglau newyddion ysgrifenedig ar-lein, ochr yn ochr â chynnwys fideo a'r gallu i ddal i fyny â bwletinau newyddion a ddarlledwyd yn flaenorol. Fel y gwelir yn Ffigur 24 yn adran 7, ac eithrio BBC iPlayer, mae newyddion a materion cyfoes yn cyfrif am gyfran fach iawn o'r oriau sy'n cael eu gwylio ar wasanaethau fideo ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Mae gan bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol hefyd ac maen nhw'n rhoi cynnwys newyddion ar YouTube, gyda rhai'n postio clipiau a rhai'n darparu cynnwys ffurf hir neu fyw. Er enghraifft, mae *Channel 4 News* yn postio dros 100 o fideos pwrpasol bob wythnos ar Facebook, Snapchat, Instagram a YouTube.[70] Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r BBC, ITV, Channel 4, Sky a darledwyr eraill hefyd wedi darparu podlediadau newyddion a materion cyfoes, gyda chynnydd nodedig yn y delweddau sain o'r podlediadau hyn ar YouTube. Mae'r duedd gynyddol hon yn cynnig ffordd arall i gynulleidfaoedd ddarganfod ac ymgysylltu â chynnwys newyddion, ac i'r rheini y mae'n well ganddyn nhw gael dadansoddiad a barn fanwl, a chynnwys ffurf hir, yn hytrach na bwletinau newyddion byrrach, mae'r fformat hwn yn apelio fwyfwy.

Mae allbwn newyddion gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar draws pob llwyfan (teledu, radio, gwefannau newyddion a fideo ar-alw gan ddarlledwyr) yn cyrraedd 71% o holl oedolion y DU bob wythnos, ac mae'n amlwg bod pobl yn dychwelyd atyn nhw yn ystod digwyddiadau arwyddocaol, ac

[69] Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 279. Ar gyfer y BBC, mae'r gofyniad hwn wedi'i gynnwys yn Atodlen 2, paragraff 4 Cytundeb y BBC.

[70] Ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion: Didueddrwydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg, 2024. Tystiolaeth ysgrifenedig Channel 4, t. 1.

yn eu hystyried yn ffynonellau newyddion pwysig ar yr adegau hynny.[71] Mae data gwylio Barb o'r pum mlynedd diwethaf yn dangos uchafbwyntiau yn lefelau gwylio newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a oedd yn cyd-fynd â digwyddiadau fel cyhoeddi cyfyngiadau symud pandemig Covid-19 a marwolaeth y Frenhines Elizabeth II.

Mae cynhyrchu newyddion yn ffactor wahaniaethol glir ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'i gymharu â gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio nad ydyn nhw'n darparu newyddion. Yn ôl cynulleidfaoedd, ystyrir mai '*newyddion dibynadwy a chywir am y DU*' yw'r elfen bwysicaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus[72] ac mae 63% o wylwyr yn ystod y chwe mis blaenorol yn teimlo fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn perfformio'n dda wrth gyflawni hyn.[73] Mae dadansoddiad newydd rydyn ni wedi'i gynnal ar gyfer yr adolygiad hwn yn awgrymu bod y bobl sy'n cael gafael ar newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fwy tebygol o adnabod gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, bod â lefelau uwch o ymddiriedaeth mewn sefydliadau, a bod llai o hollti barn yn eu plith nag ymatebwyr nad oedden nhw'n defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gael gafael ar newyddion. Mae dadansoddiad pellach hefyd yn awgrymu bod cysylltiad cadarnhaol rhwng cael gafael ar newyddion ar-lein a ddarperir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a dod i wybod am fwy o bynciau newyddion. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau llawn y dadansoddiad hwn cyn bo hir.[74]

## Ochr yn ochr â sylw cenedlaethol, mae'r darparwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn darparu newyddion rhanbarthol a rhyngwladol o ansawdd uchel

Mae'r BBC, S4C a'r rheini sy'n dal trwyddedau Channel 3 yn darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes rhanbarthol.[75] Mae hyn yn cynnwys bwletinau newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau ar ITV ac STV am 18:00 a bwletinau newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau ar y BBC am 18:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, sy'n dal yn arbennig o boblogaidd, ac sy'n parhau i ddenu mwy o wylwyr ar gyfartaledd drwy gydol y rhaglenni na rhaglenni newyddion rhwydwaith genedlaethol yn gynnar fin nos ar y BBC ac ITV.[76] Mae'r BBC, ITV, STV a S4C hefyd yn darparu erthyglau newyddion helaeth am y gwledydd a'r rhanbarthau ar-lein, ac yn sicrhau bod eu bwletinau rhanbarthol ar gael ar eu gwasanaethau fideo ar-lein.

Mae'r darparwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn darparu sylw manwl i ddigwyddiadau rhyngwladol. Mae data gwylio Barb o'r pum mlynedd diwethaf yn dangos uchafbwyntiau yn lefelau gwylio newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a oedd yn cyd-fynd â digwyddiadau rhyngwladol, fel etholiad arlywyddol y DU 2024 ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022. Mae ITV wedi nodi o'r blaen bod rhai heriau penodol o ran costau wrth roi sylw i newyddion rhyngwladol, yn

---

[71] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Gall cyrhaeddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn uwch gan ei bod yn anodd mesur cyrhaeddiad cynnwys newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol.
[72] Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2023. Ymhlith ymatebwyr ar-lein, roedd 49% yn nodi hyn fel un o'r tair nodwedd bwysicaf ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
[73] Ofcom, Traciwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus 2023.
[74] Nid yw'r dadansoddiad hwn yn sefydlu cysylltiad achosol rhwng defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer newyddion a chanlyniadau gwell ar y mesurau hyn, ond mae'n dangos bod cydberthynas ystadegol rhyngddyn nhw.
[75] Gweler canfyddiadau cychwynnol Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU 2024 Ofcom ar gyfer disgrifiad mwy cynhwysol o arlwy newyddion lleol a rhanbarthol y BBC, S4C and ITV.
[76] Barb, data 28 diwrnod wedi'u cyfuno, setiau teledu yn unig. Ofcom 2024 Adolygiad or cyfryngau lleolyn y DU - canfyddiadau cychwynnol, t. 23.


enwedig gwrthdaro. Yn y cyd-destun hwn, gall penderfyniadau golygyddol ynghylch pa straeon i'w cynnwys ddod yn fwy anodd, yn enwedig os yw cynulleidfaoedd yn osgoi newyddion negyddol fwyfwy.[77]

## Mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar fwy o newyddion o ffynonellau ar-lein yn enwedig drwy gyfryngwyr

Yn debyg i'r tueddiadau cynulleidfaoedd ehangach o gael gafael ar gynnwys a amlinellir yn Adran 3, mae cyrhaeddiad newyddion ar-lein yn dal i dyfu, ac mae pobl yn cael gafael ar gynnwys o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Ymysg holl oedolion y DU yn 2024, mae cyrhaeddiad newyddion ar-lein (71%) ar yr un lefel â chyrhaeddiad newyddion teledu (70%) pan fydd gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr yn cael ei gynnwys, ond mae wedi symud ar y blaen i deledu llinol pan nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnwys (66%).[78] Mae cyrhaeddiad newyddion teledu wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2019, ac mae cyrhaeddiad newyddion ar-lein wedi cynyddu'n raddol. Rydyn ni'n amcangyfrif bod oedolion yn y DU yn treulio ychydig mwy nag awr y dydd ar gyfartaledd yn cael gafael ar newyddion, a bod dros hanner yr amser hwn yn cael ei dreulio ar ffynonellau ar-lein, ac mae'r amser sy'n cael ei dreulio yn cael gafael ar newyddion drwy gyfryngwyr, gan gynnwys YouTube, yn cyfrif am 39%. Amcangyfrifir bod teledu'n cyfrif am 26% o'r amser a dreulir yn cael gafael ar newyddion, gyda radio ar 15% a ffynonellau print yn ddim ond 5%.

[77] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2022. Digital News report, t. 13
[78] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

**Ffigur 8: Munudau cyfartalog o gael gafael ar newyddion yn y cartref y dydd ar bob llwyfan, pob oedolyn, 2024**[79]




*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Ofcom gan ddefnyddio Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 Ofcom/Barb/RAJAR/Ipsos Iris.*

Cyfryngwyr ar-lein yw'r gwasanaethau sy'n gweithredu yn y gofod rhwng crewyr newyddion (sy'n ysgrifennu ac yn cynhyrchu cynnwys newyddion ac yn sicrhau ei fod ar gael yn gyffredinol) a'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys peiriannau chwilio, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a chyd-gasglwyr newyddion. Mae ein hymchwil yn dangos bod 40% o oedolion y Deyrnas Unedig yn cael gafael ar newyddion ar lwyfannau Meta (Facebook, WhatsApp, Instagram a Threads), a 32% drwy Google (Google Search, Google News and YouTube). Yn y naill achos a'r llall, mae hyn yn cynnwys cael gafael ar newyddion ar y llwyfannau hyn, yn ogystal â llywio traffig i wefannau newyddion traddodiadol. Mae'r defnydd o YouTube yn benodol wedi cynyddu, gyda 19% o oedolion y DU bellach yn honni eu bod yn ei ddefnyddio ar gyfer newyddion.

---

[79] Mae'r gyfran newydd hon o ddadansoddiad sylw wedi'i llunio o sawl ffynhonnell ddata: Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom, Barb, RAJAR ac Ipsos Iris. Mae newyddion ar y teledu, y radio a newyddion ar-lein yn uniongyrchol gan gyhoeddwyr yn cael eu cyfrifo'n uniongyrchol o'r ffynhonnell briodol yn y diwydiant ac ar gyfer y diwydiannau eraill, maen nhw'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cymhareb cyfran o'u sylw gan yr NCS. Dylid ystyried bod ffigurau'n dod o'r ffynhonnell briodol neu'n cael eu modelu gan ystyried faint o sylw sy'n cael ei roi i gategorïau cyfryngau newyddion eraill. Y diffiniad o newyddion yw bwletinau newyddion neu erthyglau newyddion ac maen nhw'n wahanol i farn neu faterion cyfoes, ond yn ymarferol mae'n anodd diffinio'r rhaniad hwn yn fanwl gan ddibynnu ar y categori o gyfryngau newyddion. Gellir ystyried yr allbwn cyffredinol fel munudau effeithiol a dreulir yn rhoi sylw i newyddion fesul person bob dydd ar draws poblogaeth y DU yn 2024, fel ciplun ar draws cyfnodau yn ystod y flwyddyn.

## Mae gan gyfryngwyr ar-lein ddylanwad sylweddol dros y newyddion mae pobl yn ei weld

Mae ein hymchwil a'n dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cyfryngwyr ar-lein yn cael effaith sylweddol ar ddiet newyddion pobl, ac eleni mae ein dadansoddiad yn dangos eu bod yn denu cyfran o 32% o sylw gyda'i gilydd.[80] Mae gan gyfryngwyr ar-lein reolaeth dros y rhyngwynebau y mae defnyddwyr yn eu defnyddio i ddod o hyd i gynnwys, a gall hyn roi dylanwad iddyn nhw dros ddewisiadau defnyddwyr, drwy'r erthyglau newyddion a gyflwynir, sut mae'r rhain yn cael eu rhestru, a sut maen nhw'n cael eu dangos yn weledol. Gall hyn oll effeithio ar lefelau ymgysylltu. Rydyn ni wedi cynnal ymchwil gan ddefnyddio technoleg tracio llygad sy'n dangos fod safle erthygl newyddion mewn ffrwd cyfryngau cymdeithasol yn effeithio'n fawr ar y sylw y bydd yn ei gael ac a fydd yn cael ei gofio.

Rhai o'r manteision i gynulleidfaoedd o gynnwys newyddion sydd ar gael ar-lein a drwy gyfryngwyr yw pa mor gyflym y mae'r straeon yn torri, a bod modd i systemau argymell bersonoli'r cynnwys. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi tynnu sylw at rai risgiau sylweddol. Yn 2022, fe wnaethom ni gyhoeddi canlyniadau arolwg a wnaeth ganfod bod cyfranogwyr sy'n cael gafael ar newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol o adnabod gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, bod mwy o hollti barn yn eu plith, a'u bod yn ymddiried llai mewn sefydliadau democrataidd, na'r rheini a oedd yn cael newyddion drwy gyfryngau traddodiadol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol hyd yn oed ar ôl ystyried nodweddion cymdeithasol-ddemograffig cyfranogwyr.

Mae ein hymchwil hefyd wedi edrych ar ffyrdd y gallai cael gafael ar newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol arwain at y canlyniadau niweidiol hyn. Er enghraifft, canfu ein dadansoddiad o benawdau erthyglau newyddion, er y gallai pobl gael ystod ehangach o newyddion ar gyfryngau cymdeithasol, eu bod yn dod i gysylltiad ag ystod llai eang o bynciau o'u cymharu â chael gafael ar newyddion yn uniongyrchol ar wefannau cyhoeddwyr newyddion.[81] Mae hyn yn cyd-fynd â phryderon am effaith bosibl y siambrau adlais a allai gael eu creu gan gyfryngau cymdeithasol, lle mae eu defnyddwyr yn dod i gysylltiad ag ystod fwy cyfyng o safbwyntiau a phynciau. Efallai y bydd cymhellion ariannol i'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hyrwyddo cynnwys sy'n ysgogi ymgysylltiad, yn hytrach na darparu amrywiaeth eang o newyddion o ansawdd uchel, ac mae ymchwil wedi dangos y gall defnyddwyr ymgysylltu mwy â chynnwys negyddol neu niweidiol.[82] Roedd ymchwil flaenorol hefyd yn cadarnhau'r ddealltwriaeth gyfyngedig sydd gan bobl o sut mae cyfryngwyr ar-lein, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol, yn curadu'r newyddion sy'n ymddangos ar eu ffrydiau.[83] Yn ein hadroddiad 2022 ar blwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, fe wnaethom

[80] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Data Cyfran o'r Sylw. I gael esboniad am Gyfran o'r Sylw, ewch i Newyddion ar-lein - diweddariad ymchwil mis Mawrth 2024 Ofcom, t. 8. Bydd y gyfran hon yn cwmpasu cynnwys o amrywiaeth o gyfryngau traddodiadol a ffynonellau ar-lein eraill oherwydd bod cyfryngwyr ar-lein yn cyfuno newyddion gan amrywiaeth eang o ddarparwyr.

[81] Edrychodd ein hymchwil ar ddeiet newyddion pobl wrth ddefnyddio cyfryngwyr ar-lein i gael gafael ar newyddion a sut mae hyn yn cymharu â phobl sy'n mynd yn uniongyrchol i wefannau newyddion. Mae'r ymchwil hwn yn canfod bod y newyddion mae pobl sy'n dibynnu mwy ar gyfryngwyr ar-lein yn cael gafael arno yn fwy amrywiol o ran nifer y darparwyr newyddion mae pobl yn eu gweld. Fodd bynnag, mae pobl sy'n dibynnu mwy ar gyfryngau cymdeithasol ac yn chwilio am eu newyddion yn cael deiet newyddion sy'n llai amrywiol o ran yr amrywiaeth o bynciau maen nhw'n dod i gysylltiad â nhw. Ofcom, 2024. Newyddion ar-lein:Diweddariad ymchwil, t. 17-18.

[82] Ofcom, 2024. Newyddion Ar-lein:Diweddariad ymchwil, t. 14-18. Robertson et al, 2023. Nature Human Behaviour, 2023. Negativity drives online news consumption.

[83] Ofcom, 2022. Dogfen drafod:Pliwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, t. 21-22.

ni amlinellu meysydd polisi a allai fod yn berthnasol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan gyfryngwyr ar-lein.[84] Byddwn yn ystyried y rhain yng ngham nesaf ein gwaith.

Gallai deallusrwydd artiffisial a ddefnyddir gan gyfryngwyr ar-lein waethygu'r risgiau rydyn ni wedi'u nodi ac mae hyn eisoes yn effeithio ar sut mae newyddion yn cael ei ddosbarthu a sut mae pobl yn cael gafael arno. Gall arwain at ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn gweld mwy o gynnwys newyddion sy'n bersonol iawn iddyn nhw, a allai waethygu'r problemau sy'n gysylltiedig â phobl ddim yn gweld amrywiaeth eang o safbwyntiau, a chyfyngu ar ba mor aml maen nhw'n dod i gysylltiad â safbwyntiau amrywiol ac amrywiaeth o bynciau. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch y posibilrwydd fod offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol sy'n crynhoi newyddion yn cynhyrchu crynodebau anghywir neu rith-weledigaethau (ymatebion neu gynnwys sy'n deillio o ddeallusrwydd artiffisial sy'n anghywir neu'n ddisynnwyr).

## Mae mwy o berygl i gynulleidfaoedd ddod i gysylltiad â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth

Mae trafodaeth sylweddol ymysg arbenigwyr ynghylch diffinio beth yw camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn ogystal â sut mae'r niwed hwn yr un fath a sut mae'n wahanol. Er enghraifft, diffiniad Llywodraeth y DU o dwyllwybodaeth fel mynd ati'n fwriadol i greu a lledaenu gwybodaeth ffug a/neu wedi'i ystumio gyda'r bwriad o dwyllo a chamarwain pobl, naill ai er mwyn achosi niwed, neu er budd gwleidyddol, personol neu ariannol, a'r diffiniad o gamwybodaeth yw lledaenu gwybodaeth ffug yn anfwriadol. Yn ein hymchwil ddiweddar, dywedodd 43% o oedolion eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth a thwyllwybodaeth, ac roedd 71% o'r grŵp hwnnw wedi dweud eu bod wedi'i gweld ar-lein, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, yn fwy nag ar unrhyw lwyfan arall.[85] Mae ymchwil arall a gynhaliwyd drwy Astudiaeth Etholiad Facebook ac Instagram yr UDA 2020, wedi dangos bod camwybodaeth yn yr UDA, fel y'i diffinnir gan Raglen Gwirio Ffeithiau Trydydd Parti Meta, yn digwydd ar Meta a bod hynny wedi'i grynhoi ymhlith grwpiau penodol.[86] Mae astudiaeth arall wedi dangos bod atgyfeiriadau cyfryngau cymdeithasol, yn 2016, yn cyfrif am gyfran o 42% o ymweliadau â gwefannau sy'n cynnwys newyddion ffug, ond dim ond cyfran o 10% o'r ymweliadau â phrif wefannau newyddion yr Unol Daleithiau.[87]

Roedd naw deg y cant o oedolion y DU a oedd yn honni eu bod wedi dod ar draws camwybodaeth yn dweud eu bod yn poeni am ei effaith ar gymdeithas. Canfu ein Harolwg ar yr Etholiad Cyffredinol a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod mwyafrif o oedolion yn y DU (60%) yn honni eu bod, yn ystod yr wythnos cyn iddyn nhw gwblhau'r arolwg, wedi dod ar draws gwybodaeth am Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024 a allai fod wedi bod yn ffug neu'n gamarweiniol ar o leiaf un achlysur. Gall lledaeniad twyllwybodaeth a chamwybodaeth hefyd gael effeithiau personol, fel y rheini a oedd yn amlwg yn ystod pandemig Covid-19, lle'r oedd astudiaethau'n dangos bod pobl a oedd yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn ymwneud â phandemig Covid-19 yn llai tebygol o gael eu

[84] Ofcom, 2022. Dogfen drafod:Pliwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, t. 47-56.
[85] Ofcom, 2024. Understanding misinformation: an exploration of UK adults' behaviour and attitudes, t. 9-10. Wrth edrych ar ddata ar y pwnc hwn, mae'n bwysig cofio mai term goddrychol yw camwybodaeth sy'n gallu golygu bod gwybodaeth wir yn cael ei hadrodd fel gwybodaeth ffug, ac i'r gwrthwyneb.
[86] González-Bailón, S et al, 2023. Asymmetric ideological segregation in exposure to political news on Facebook. Roedd yr astudiaeth hon yn gydweithrediad rhwng Meta a thîm o ymchwilwyr allanol.
[87] Allcott, H & Gentzkow, M, 2017. Social Media and Fake News in the 2016 Election, t 222-223.

brechu, o argymell brechu i ffrindiau a theulu, neu gydymffurfio â chanllawiau iechyd y cyhoeddus gan y llywodraeth.[88]

Roedd y trais a ffrwydrodd yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon yn ystod yr haf hwn, yn dilyn yr ymosodiad yn Southport, yn tynnu sylw at beryglon lledaenu camwybodaeth, twyllwybodaeth, honiadau di-sail ac annog trais a chasineb, a sut y gall hyn ledaenu hyd yn oed pan fo amrywiaeth eang o ffynonellau dibynadwy'n bodoli. Yn dilyn yr anhrefn, ysgrifennodd Ofcom at yr Ysgrifennydd Gwladol, a daeth i'r casgliad bod cysylltiad clir rhwng gweithgarwch ar-lein a'r anhrefn treisgar a ddigwyddodd a bod cynnwys anghyfreithlon a thwyllwybodaeth wedi lledaenu'n eang ac yn gyflym ar-lein.

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos y gallai datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol waethygu'r heriau presennol mewn perthynas â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth ymhellach. Er enghraifft, efallai y byddan nhw'n chwalu rhwystrau rhag dosbarthu'r math hwn o gynnwys, yn lleihau costau creu cynnwys perswadiol, ffug neu gamarweiniol, a gallan nhw ganiatáu i gynnwys ffugiad dwfn a thwyllodrus mwy argyhoeddiadol[89] gael ei gynhyrchu. Ceir enghreifftiau o ddefnyddio'r olaf o'r rhain mewn perthynas â materion cyfoes neu ffigyrau gwleidyddol. Er enghraifft, cafwyd adroddiadau o am recordiadau sain ffug dwfn cyn etholiad seneddol Slofacia 2023.[90] Mae gallu deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i efelychu cynnwys sy'n bodoli eisoes a'r risg gysylltiedig o greu cynnwys sy'n dynwared arddull a thôn erthyglau newyddion dilys yn codi nifer o bryderon i gwmnïau newyddion am dorri rheolau hawlfraint, priodoli brand ac ymgysylltu â'r gynulleidfa. Tynnodd ITN a'r BBC sylw at bryderon ynghylch hyn yn eu hymatebion i Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i ddyfodol newyddion.[91] Mae tystiolaeth hefyd bod pobl yn cael trafferth adnabod cynnwys sydd wedi cael ei gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial, sy'n awgrymu y bydd angen mwy o gymorth ar gynulleidfaoedd i benderfynu ar ddilysrwydd newyddion.[92]

Wrth iddi fynd yn anoddach i gynulleidfaoedd wahaniaethu rhwng newyddiaduraeth go iawn a chynnwys wedi'i gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial, efallai y bydd angen i gwmnïau newyddion ddatblygu gwell mesurau dilysu i ddiogelu eu cynnwys newyddion.[93] Fodd bynnag, ceir hefyd enghreifftiau o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i atal camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae Canolfan Deallusrwydd Artiffisial yr Undeb Darlledu Ewropeaidd yn cynnwys 'dadansoddwr newyddion ffug', sy'n defnyddio prosesu iaith naturiol a dysgu peirianyddol i ganfod gwybodaeth a allai fod yn gamarweiniol.

O ystyried y gormodedd o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth ar lwyfannau ar-lein, mae'n bwysig bod pobl yn gallu cael gafael ar newyddion cywir o ansawdd newyddiadurol uchel. Mae ITV wedi dweud ei fod yn ystyried newyddion o ansawdd uchel, cywir, diduedd a dibynadwy fel "amddiffyniad allweddol yn erbyn diffyg ymddiriedaeth a chamwybodaeth" yn enwedig yn sgil cynnwys arall nad

[88] Freeman D. et al, 2020. Coronavirus conspiracy beliefs, mistrust, and compliance with government guidelines in England.
[89] Mae ffugiadau dwfn yn fathau o gynnwys clyweledol sydd wedi cael eu cynhyrchu neu eu hystumio gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, sy'n camliwio rhywun neu rywbeth.
[90] Cyngor Gwasanaethau Cyfryngau, 2024Monitoring of platform functionalities in relation to the 2023 Elections, t. 37.
[91] Ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion: Didueddrwydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg, 2024. Tystiolaeth Ysgrifenedig y BBC, t. 7-9. a Thystiolaeth Ysgrifenedig ITN, t. 5-6.
[92] Ofcom, Adroddiad ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau 2024., t. 22.
[93] Ofcom, 2024. Technoleg ac Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau yn y Dyfodol: Deall AI cynhyrchiol, t. 8.

yw'n cael ei reoleiddio ar-lein.[94] Fodd bynnag, dim ond os oes modd ei weld ar y llwyfan y gall pobl ddefnyddio newyddion o'r fath. Fel y soniwyd uchod, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyd yn rhoi eu cynnwys newyddion ar amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar YouTube. Mae YouTube wedi datgan ei fod yn hyrwyddo rhai ffynonellau 'o le da' sy'n cynnwys rhai darparwyr yn y wasg pan fydd cynulleidfaoedd yn chwilio am bynciau sy'n ymwneud â newyddion a phynciau sy'n debygol o arwain at gamwybodaeth. Fodd bynnag, gall polisïau llwyfannau weithiau arwain at gatiau oedran ar gynnwys newyddion a allai rwystro cynulleidfaoedd penodol rhag cael mynediad at straeon pwysig.

Mae rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi lansio rhagor o gynlluniau hefyd i helpu i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Er enghraifft, mae 'esboniadau' newyddion yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd. Mae BBC Verify a'r nodwedd 'Underover Voters' ar ei bodlediad Newscast yn enghreifftiau o'r BBC yn dangos i gynulleidfaoedd ei waith dilysu sy'n digwydd ar draws ei holl allbwn newyddion a'i waith i edrych ar y deunydd mae pobl yn dod i gysylltiad ag ef ar-lein. Mae newyddiaduraeth draddodiadol yn parhau i dorri drwodd hefyd. Mae Channel 5 wedi siarad am sut, pan oedd damcaniaethau cynllwyn yn ymwneud â diflaniad Nicola Bulley yn cael eu dosbarthu ar-lein, roedd cyfweliad gydag aelod o'r teulu'n gallu darparu ffeithiau yn hytrach na chamwybodaeth.[95] Yn ddiweddar, edrychodd un o raglenni dogfen y BBC ar yr heriau o adrodd ar y stori hon wrth iddi ddenu sylw a diddordeb sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Bu gostyngiad yn y lefelau ymddiriedaeth mewn newyddion a'r lefelau ymgysylltu â nhw mewn rhai rhannau o gymdeithas

Fel y nodwyd uchod, mae mwy o bobl nag erioed yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gafael ar newyddion. Fodd bynnag, canfu Arolwg Cael Gafael ar Newyddion 2024 Ofcom bod defnyddwyr rheolaidd y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi sgôr is o lawer iddo na defnyddwyr rheolaidd darparwyr newyddion traddodiadol o ran cywirdeb (44%), dibynadwyedd (43%) a didueddrwydd (42%). I'r gwrthwyneb, roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyson yn cyflawni'n dda o ran ymddiriedaeth a chywirdeb. Roedd dwy ran o dair o ddefnyddwyr rheolaidd teledu'r BBC (68%) yn canmol ei ddarpariaeth newyddion yn fawr o ran ymddiriedaeth. Roedd hyn yn debyg ar gyfer defnyddwyr rheolaidd y prif ddarparwyr newyddion teledu eraill; ITV[96] (68%), Sky News (71%), Channel 4 (72%) a Channel 5 (67%).

Er gwaethaf hyn, mae heriau o ran cynnal ymddiriedaeth ymysg rhai cynulleidfaoedd. Roedd llai o bobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol (a oedd yn defnyddio'r ffynonellau'n rheolaidd) yn rhoi sgoriau uchel i deledu'r BBC, newyddion ar-lein y BBC ac ITV[97] o ran ymddiriedaeth yn 2024 o'i gymharu â 2019.[98] Yn yr un modd, roedd llai o ddefnyddwyr o'r grŵp economaidd-gymdeithasol DE yn rhoi sgôr uchel i deledu'r BBC a newyddion ar-lein y BBC o ran ymddiriedaeth yn 2024 o'i gymharu â 2019, ac roedd llai o ddefnyddwyr rhwng 16 a 24 oed hefyd yn rhoi sgôr uchel i deledu'r BBC ar y metrig hwn.

[94] Ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion: Didueddrwydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg, 2024. TystiolaethYsgrifenedig ITV, t. 1.
[95] Ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion: Didueddrwydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg, 2024. Tystiolaeth lafar ITV, Channel 4 a Channel 5, t. 8.
[96] Mae ITV yn cynnwys UTV/STV/ITV Cymru.
[97] Mae ITV yn cynnwys UTV/STV/ITV Cymru.
[98] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

Gwyddom o ymchwil flaenorol fod defnyddwyr newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol eisoes yn ei chael hi'n anodd cofio'n union pa ffynonellau newyddion maen nhw wedi gweld straeon ganddyn nhw ar gyfryngau cymdeithasol.[99] Os yw defnyddwyr hefyd yn dibynnu ar grynodebau newyddion a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial, mae perygl y bydd gwybodaeth o ansawdd uchel o ffynonellau dibynadwy'n cael ei chyfuno â gwybodaeth o ansawdd isel o ffynonellau annibynadwy. Mae ymchwil diweddar hefyd wedi dangos nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn y DU yn gyfforddus â newyddion sydd wedi cael ei gynhyrchu'n bennaf gan ddeallusrwydd artiffisial.[100] Mae ymchwil ddiweddar arall, gan gynnwys astudiaeth gan Ofcom, wedi dangos sut y gall dod ar draws camwybodaeth ar unrhyw lwyfan erydu ymddiriedaeth mewn ffynonellau newyddion traddodiadol, gyda chyfran sylweddol o bobl a oedd wedi dod ar draws camwybodaeth yn dweud eu bod, o ganlyniad, yn llai tebygol o ymddiried mewn newyddion o ffynonellau traddodiadol gan gynnwys newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[101]

Ar ben hynny, mae Ipsos' Global Trustworthiness Index 2024 yn dangos bod pobl yn y DU yn fwy tebygol o feddwl bod newyddiadurwyr yn annibynadwy (39%) yn hytrach nag yn ddibynadwy (23%) ac mae ymchwil diweddar Ofcom i gamwybodaeth hefyd yn dangos mai dim ond 32% o oedolion y DU oedd yn cytuno bod newyddiadurwyr yn dilyn codau ymarfer. Mae cyfryngau cymdeithasol hefyd yn galluogi mwy o bobl i weld delweddau crai neu i ddarllen sylwebaeth gan bobl nad ydyn nhw'n newyddiadurwyr, ac mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd cynulleidfaoedd yn sylwi ar straeon nad ydyn nhw'n cael sylw gan gyfryngau sefydledig yn eu barn nhw.[102] Mae hyn i gyd yn rhoi mwy o her i gynhyrchwyr newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddyn nhw geisio cyrraedd cynulleidfaoedd. Mae cyhoeddwyr newyddion a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn datblygu eu canllawiau mewnol i ymateb i dechnolegau newydd mewn ffordd foesegol a chyfrifol. Mae ITN wedi llofnodi Siarter Paris ar Ddeallusrwydd Artiffisial a Newyddiaduraeth ac mae'r BBC wedi cyhoeddi ei ddull gweithredu ar gyfer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, ac mae'n nodi ei fod yn bwriadu defnyddio galluoedd deallusrwydd artiffisial a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i wella'r broses ddilysu (*BBC Verify*), ymchwilio (*BBC investigation*) a dadansoddi manwl a'i nod yw bod yn ganllaw dibynadwy i'r rheini sy'n defnyddio'r adnoddau. Mae wedi cyhoeddi 12 cynllun peilot deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewnol yn unig sy'n cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i gyfieithu a labelu cynnwys. Mae hefyd yn defnyddio isdeitlau a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial ar BBC Sounds erbyn hyn. Mae'n bwriadu lansio ymgyrch llythrennedd deallusrwydd artiffisial i helpu cynulleidfaoedd i ddeall posibiliadau a risgiau deallusrwydd artiffisial.[103]

Rydym hefyd yn gweld newidiadau mewn lefelau cael gafael ar newyddion. Er bod newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar draws llwyfannau yn dal yn cyrraedd lefel gymharol uchel (71% o holl oedolion yn y DU yn cael gafael ar newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob wythnos), mae hyn wedi gostwng 9 pwynt canran (o 80%) yn ystod y pum mlynedd diwethaf.[104] Ar y llaw arall, nid yw chwarter (26%) yr holl oedolion yn y DU yn cael gafael o gwbl ar unrhyw newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn sylweddol uwch ymysg oedolion ifanc 16-34

---

[99] Ofcom, 2022. Dogfen drafod:Pliwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, t. 18.
[100] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2024.Digital News Report, t. 40.
[101] Adolygiad Camwybodaeth Ysgol Harvard Kennedy, 2020. Misinformation in action: Fake news exposure is linked to lower trust in media, higher trust in government when your side is in power. Ofcom, Arolwg Camwybodaeth a Thwyllwybodaeth 2024, oedran: 16+, y DU.
[102] Ofcom, 2022. Drivers of perceptions of due impartiality: The BBC and the wider news landscape.
[103] BBC, 2024. A BBC for the Future a Using Gen AI to add subtitles on BBC Sounds.
[104] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024.

oed (40%), pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig (39%) a’r rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE (32%).

Hefyd, mae mwy a mwy yn osgoi’r newyddion, yn y DU ac mewn mannau eraill; mae hyn yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y farn bod y newyddion yn “ailadroddus a diflas”, a natur “digalon, llethol” llawer o’r newyddion.[105] Mae Reuters Digital News Report 2024 yn dangos bod canran y bobl yn y DU a oedd â llawer iawn neu lawer o ddiddordeb yn y newyddion wedi haneru bron, o 70% yn 2015, i 38% yn 2024. Yn yr un modd, mae’r adroddiad yn datgelu bod cyfran yr unigolion yn y DU sy’n dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan y newyddion wedi codi rhwng 2019 a 2024, ac mae 46% o oedolion y DU yn dweud eu bod yn osgoi’r newyddion weithiau neu’n aml, sy’n ganran uwch na’r cyfartaledd (39%) ar gyfer y gwledydd a arolygwyd.[106]

Ymysg pobl ifanc 12-15 oed, er bod chwech o’r 10 prif ffynhonnell unigol maen nhw’n eu defnyddio ar gyfer newyddion yn gyfryngwyr ar-lein, mae 36% yn defnyddio’r BBC ar gyfer newyddion, mae 20% yn defnyddio ITV a 12% yn defnyddio Channel 4, gyda’r BBC ac ITV yn gweld gostyngiad dros amser.[107] Er bod llawer yn cael gafael ar newyddion ar gyfryngau cymdeithasol, nid ydynt ar y cyfan yn ymddiried cymaint yn y ffynonellau hyn o’u cymharu â’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, hyn yn debyg i gynulleidfaoedd hŷn. Fodd bynnag, roedd dros hanner y rheini a oedd yn defnyddio YouTube ac X (Twitter yn flaenorol) yn teimlo bod y ffynonellau hynny’n darparu straeon newyddion dibynadwy.

Gall y datblygiadau hyn mewn ymddiriedaeth ac ymgysylltiad â newyddion effeithio ar ddealltwriaeth ddinesig a lefelau ymgysylltu yn sefydliadau democrataidd y DU yn y dyfodol. Maen nhw hefyd yn cyflwyno heriau o ran cynaliadwyedd newyddion dibynadwy, sy’n ddigon cywir a digon diduedd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio i ddod â straeon perthnasol i gynulleidfaoedd drwy gysylltu â chymunedau a’u cynrychioli, er enghraifft drwy fodel newyddiaduraeth “dan arweiniad stori, sy’n canolbwyntio ar y gynulleidfa” sy’n gallu “adlewyrchu Prydain iddi hi ei hun”. Mae Channel 5 wedi disgrifio sut mae’n mynd ati i dargedu pobl nad ydynt wedi ymrwymo i wylio newyddion bob dydd, ond sydd eisiau cael gwybod. Yn unol â hynny, maen nhw’n rhoi pwyslais ar straeon maen nhw’n eu hystyried yn rhai ar gyfer ‘Prydain bob dydd’ ac ‘nad ydynt yn fetropolitan’ o ran y pwnc a’r naws.[108] Mae Channel 4 wedi buddsoddi yn ei waith yn Leeds News, ac wedi dweud yn y gorffennol bod hyn wedi golygu mwy o amrywiaeth o bobl yn gweithio yno, a mwy o safbwyntiau ar y straeon mae’n eu hadrodd. Mae gan ITV, y BBC a Channel 4 hefyd reiliau newyddion yn eu gwasanaethau fideo ar-alw eu hunain fel ffordd o hyrwyddo eu hallbwn newyddion i gynulleidfaoedd. Fel y soniwyd uchod, mae pob un yn arbrofi gyda chyhoeddi eu cynnwys newyddion ar lwyfannau trydydd parti fel rhan o’u strategaethau i ddal cynulleidfaoedd sy’n anoddach eu cyrraedd ac sy’n llai tebygol o gael gafael ar eu newyddion llinol.

## Mae cynaliadwyedd ariannol newyddion dan fygythiad

Wrth i batrymau cael gafael ar newyddion newid, mae hyn wedi amharu ar y modelau busnes ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu newyddion. Mae’r diwydiant papurau newydd wedi gweld gostyngiad

[105] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2024. Digital News Report, t. 27.
[106] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2024.Digital News Report, t. 26-27. Daw ffigur y DU o dablau data’r DU.
[107] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2024. Arolwg pobl ifanc yn eu harddegau.
[108] Ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ’r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion: Didueddrwydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg, 2024. Tystiolaeth Lafar ITV, Channel 4 a Channel 5, t. 3-4.

mawr yn refeniw'r diwydiant gan fod cylchrediad papurau wedi gostwng yn sylweddol.[109] Mae cyhoeddwyr newyddion wedi arloesi ac wedi mabwysiadu amrywiaeth o strategaethau gwahanol ar gyfer cynyddu eu refeniw ar-lein, gan gynnwys modelau sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion a modelau darllenwyr yn talu, ond nid yw refeniw digidol wedi gwrthbwyso'r gwerthiant print a gollwyd.[110] Wrth i gynulleidfaoedd symud oddi wrth wylio teledu llinol, mae hyn wedi amharu ar newyddion teledu hefyd.[111]

O ganlyniad, mae llawer o gyhoeddwyr newyddion bellach yn dibynnu ar gyfryngwyr ar-lein i bobl ddarganfod a darllen eu cynnwys newyddion.[112] Er bod hyn wedi dod â chynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd at gyhoeddwyr, mae wedi cynyddu dibyniaeth ariannol sefydliadau newyddion ar gwmnïau technoleg mawr. Mae darparwyr newyddion wedi mynegi pryderon eu bod mewn sefyllfa bargeinio arbennig o wan o ran trafod trefniadau cyflenwi gyda Google a Meta,[113] a bod "lefel y refeniw... yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol lwyfannau".[114] Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd wedi nodi pryderon ynghylch cystadleuaeth mewn marchnadoedd hysbysebu digidol sy'n tanseilio gallu darparwyr newyddion i gael elw teg ar eu cynnwys drwy refeniw hysbysebion. Amcangyfrifwyd bod cyfryngwyr hysbysebu digidol yn cipio, ar gyfartaledd, o leiaf 35% o werth hysbysebion digidol a brynir gan bapurau newydd a darparwyr cynnwys eraill yn y DU.[115].

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi nifer o bryderon eraill ynghylch cyfryngu. Mae defnyddio cyfryngwyr yn gwanhau'r berthynas sydd gan gyhoeddwyr â'u cynulleidfa, gan ei gwneud yn anoddach i gyhoeddwyr ddysgu am eu darllenwyr, bwndelu cynnwys gyda'i gilydd, a chynnal brand cryf. Er mwyn darparu cynnwys ar amrywiaeth o gyfryngwyr ar-lein, mae'n rhaid i ddarparwyr newyddion gynhyrchu a phecynnu cynnwys mewn nifer cynyddol o ffyrdd, fel fideo fertigol ar TikTok, sy'n cynyddu costau. Mae darparwyr newyddion hefyd yn dweud bod diffyg sicrwydd a thryloywder ynghylch yr algorithmau ar y llwyfannau hyn sy'n gyrru traffig newyddion at gynnwys cyhoeddwyr, ac mae newidiadau yn gallu arwain at symudiadau mawr ac annisgwyl yn y traffig ac felly yn y refeniw.[116] Mae dadansoddiad diweddar yn dangos bod nifer y bobl sy'n cael eu cyfeirio at newyddion gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook ac X, wedi bod yn gostwng[117] wrth i'r cwmnïau hyn wneud newidiadau algorithmig neu newidiadau eraill.[118]

Mae'r BBC wedi'i warchod mwy oddi wrth effeithiau cyfryngu, gan nad yw'n dibynnu ar refeniw hysbysebion, ac mae pobl yn mynd yn uniongyrchol at wefan neu ap newyddion y BBC heb gael eu

---

[109] Ofcom, 2022. Pliwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, dogfen drafod.
[110] Ofcom, 2022, Pliwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, dogfen drafod. Adroddiad ar y cyd gan Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2021, Platforms and content providers, including news publishers: Advice to DCMS on the application of a code of conduct.
[111] Barb.
[112] Ofcom, 2022. Pliwraliaeth y cyfryngau a newyddion ar-lein, dogfen drafod.
[113] Adroddiad ar y cyd gan Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2021.Platforms and content providers, including news publishers. Advice to DCMS on the application of a code of conduct.
[114] Ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i Ddyfodol Newyddion: Didueddrwydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg, 2024. Tystiolaeth Ysgrifenedig Channel 4, t. 5.
[115] CMA, 2019. Online platforms and digital advertising market study, t. 211.
[116] Adroddiad ar y cyd gan Ofcom a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2021.Platforms and content providers, including news publishers. Advice to DCMS on the application of a code of conduct, t. 28.
[117] Press Gazette, 2024. Facebook referral traffic for publishers down 50% in 12 months; Reuters Institute, 2024. Journalism, Media, and Technology Trends and Predictions 2024; ac Enders Analysis, 2024. Life after Facebook: Quo vadis for news distribution.
[118] AP, 2023. X removes article headlines in latest platform update, widening a rift with news media. Meta, 2023. An Update on Facebook News in Europe.

cyfeirio gan gyfryngwr ar-lein.[119] Nid oes gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yr un lefelau o draffig uniongyrchol i'w gwefannau â'r BBC. Hefyd, ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn mynd at wasanaethau fideo ar-alw gan darlledwyr i wylio rhaglenni newyddion i'r un graddau ag y maen nhw'n ei wneud ar gyfer genres fel drama ac adloniant.[120] Wrth i gynulleidfaoedd teledu llinol leihau, efallai y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus felly'n parhau i roi mwy o gynnwys newyddion ar gyfryngwyr ar-lein, a byddan nhw'n wynebu mwy a mwy o heriau ariannol a heriau priodoli cynnwys sy'n gysylltiedig â chyfryngu a newidiadau eraill yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion.

Mae pwysau ariannol yn effeithio ar gyllidebau newyddion yn y DU ac ar draws y byd. Yn 2023, cafodd £572m ei wario ar newyddion a materion cyfoes sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (gan gynnwys ar raglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau) gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynrychioli gostyngiad o 16% mewn termau real o'i gymharu â 2018.[121] Mae'r BBC wedi cyhoeddi hefyd nifer o arbedion ar draws ei arlwy newyddion a ddarlledir, fel uno ei sianel newyddion y DU 24 awr â'i sianel BBC World News fyd-eang,[122] a chanslo gwasanaeth newyddion pwrpasol BBC Asian Network, gyda'r bwriad o fuddsoddi mewn cynnyrch newyddion digidol mewn mannau eraill.[123] Mae toriadau i gyllidebau newyddion yn rhan o duedd fyd-eang, gyda darlledwyr cyhoeddus mewn gwledydd fel Canada, yr Almaen, Japan a Sweden i gyd yn tynhau eu cyllidebau gyda goblygiadau o ran swyddi a chynnwys.[124] Yn Seland Newydd, cyhoeddodd y darlledwr teledu sy'n eiddo i'r wladwriaeth y byddai rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn dod i ben a bod llawer o swyddi'n cael eu colli, a daeth ail wasanaeth newyddion teledu i ben yn gyfan gwbl ym mis Gorffennaf 2024.[125]

Yn ogystal â deall cyfanswm y gwariant ar newyddion a materion cyfoes, mae'n bosib bod mathau penodol o gynnwys newyddion sydd dan fwy o fygythiad. Mae rhanddeiliaid yn arbennig o bryderus am y toriadau i newyddion lleol, 'gohebu democratiaeth', a newyddiaduraeth ymchwiliol, oherwydd pe byddai llai o'r mathau hyn o newyddiaduraeth neu pe bydden nhw'n diflannu, gallai hyn arwain at ganlyniadau i gymdeithas ac i ddemocratiaeth.[126]Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnal llawer o ymchwiliadau proffil uchel i feysydd fel gofal iechyd a gwleidyddiaeth dros y pum mlynedd diwethaf.[127]

Mae llawer o randdeiliaid yn gobeithio y bydd offer deallusrwydd artiffisial a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn lleddfu pwysau ariannol drwy gynnal tasgau'n rhatach ac yn gyflymach na phobl, ond nid yw maint yr arbedion cost yn hysbys i raddau helaeth.[128] Ar yr un pryd, mae rhanddeiliaid yn poeni y gallai rhaglenni deallusrwydd artiffisial a ddefnyddir gan gyfryngwyr ar-lein greu rhagor o

---

[119] BBC, 2022. Strategaeth Ddigidol. Ofcom, 2024. Newyddion Ar-lein: Diweddariad ymchwil, t. 10.
[120] Barb fel y'i gwyliwyd. Cyfryngau'r Genedl, Ofcom 2024, t. 12.
[121] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Mae'r ffigurau yn cynnwys rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, ond nid S4C, BBC Alba, a BBC HD.
[122] BBC, 2022. BBC sets out plans for TV news channel merger in 2023.
[123] BBC, 2023. BBC's Newsnight to be cut back as part of savings plan. BBC, 2024. BBC News job losses aim to save £24m.
[124] Public Media Alliance, 2023. Funding cuts, freezes and reviews faced by many public broadcasters.
[125] 1news, 2024. TVNZ, Newshub media cuts wrap: What you need to know.
[126] Ofcom, 2024. Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU. Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2023. House of Commons' Digital, Culture, Media and Sport Committee inquiry into the sustainability of local journalism report.
[127] Rhwydwaith Newyddiaduraeth Ymchwiliol Byd-eang, 2024. How BBC Newsnight exposed British healthcare scandals. BBC News, 2021. The crisis at the Tavistock's child gender clinic. ITV News, 2023. Partygate: The inside story – new revelations and our whistleblowers in their own words.
[128] Eurovision News, 2024. Trusted Journalism in the Age of Generative AI.

broblemau sy’n gysylltiedig â chyfryngu os nad yw cyhoeddwyr newyddion yn cael eu talu’n deg neu eu priodoli am ddefnyddio eu cynnwys pan fydd systemau o’r fath yn cael eu hyfforddi neu eu defnyddio i grynhoi straeon newyddion, neu os yw eu cynnwys newyddion yn cael ei gopïo o wefan yn anghyfreithlon.

Mae llawer o’r materion ariannol hyn sy’n gysylltiedig â newyddion yn arwydd o broblemau strwythurol dyfnach sy’n bygwth cynaliadwyedd y sector cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, fel rydym yn ei drafod yn Adran 6.

## Mae adroddiadau eraill wedi tynnu sylw at yr amodau anodd y mae’r diwydiant yn eu hwynebu

Roedd y canfyddiadau cychwynnol o’n hadolygiad o gyfryngau lleol yn amlinellu’r heriau sy’n wynebu’r sector newyddion lleol. Roedd hyn yn cynnwys cynulleidfaoedd sy’n symud o ffynonellau newyddion print a theledu i ffynonellau ar-lein; llai o refeniw hysbysebion; ehangu rôl cyfryngwyr ar-lein yn y gadwyn gwerth newyddion; cystadleuaeth ffyrnig ar-lein am sylw cynulleidfaoedd sydd, i raddau helaeth, yn anfodlon talu am newyddion; yn ogystal â nifer gynyddol o bobl sy’n ymddieithrio oddi wrth newyddion neu’n mynd ati i osgoi newyddion yn ehangach.

Mae cyfuno a thoriadau mewn ymateb i’r heriau hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth newyddion lleol ar draws teledu, radio a phrint, ac mae gan y newidiadau hyn y potensial i wanhau perthnasedd lleol y cynnwys, a pheri risg o leihau pliwraliaeth newyddion ac ansawdd yr allbwn. Erbyn hyn, mae amrywiaeth sylweddol o ran ystod a maint y newyddion lleol sydd ar gael mewn gwahanol rannau o’r DU. Fe wnaethom hefyd nodi rhai ardaloedd lle’r oedd darpariaeth fwy cyfyngedig o newyddion lleol, fel ardaloedd yng Nghymru a rhannau o Loegr. Yn yr ardaloedd hyn, byddai colli rhagor o ddarpariaeth newyddion yn arbennig o anodd.

Gwelsom hefyd, yn ein canfyddiadau cychwynnol, fod darparwyr newyddion yn gweithio i: arloesi i ddenu cynulleidfaoedd a chynhyrchu ffrydiau refeniw; defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, ac archwilio gwahanol fathau o gynnwys i ddenu cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae’r amodau’n parhau’n anodd, mae’r cymorth yn gyfyngedig ac mae llawer yn y sector yn ei chael hi’n anodd ffynnu. Yn ein hadroddiad terfynol fe wnaethon ni nodi bod lle i ddiwydiant wneud mwy. Fe wnaethom dynnu sylw at rai o’r ffactorau allweddol y mae angen eu hystyried wrth gynnal cyfryngau lleol, gan gynnwys: sicrhau bod newyddion lleol dibynadwy a chywir ar gael yn eang, yn ogystal â mynediad hawdd at y newyddion; gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o werth newyddion lleol; a sicrhau ymgysylltiad cynulleidfaoedd â ffynonellau newyddion lleol dibynadwy. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, fe wnaethom nodi rhai opsiynau posibl y gallai’r diwydiant, y trydydd sector neu’r Llywodraeth eu hystyried i fynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu’r diwydiant. Wrth i ni barhau â’n gwaith gyda’r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, byddwn yn ystyried yr heriau penodol i newyddion lleol sydd wedi cael eu nodi drwy’r adolygiad hwn, a byddwn yn ystyried yr opsiynau sy’n cael sylw yn yr adroddiad.

Nodwn fod Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol yn ddiweddar ar ei ymchwiliad i ddyfodol newyddion. Roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at nifer o heriau mewn perthynas â’r sector newyddion, gan gynnwys y gostyngiad yn ffrydiau refeniw darparwyr newyddion, y risgiau y gall deallusrwydd artiffisial eu hachosi i’r cysyniad o wybodaeth o le da, a dylanwad cwmnïau technoleg byd-eang ar ba newyddion mae pobl yn ei weld. Roedd yn amlinellu pryderon, mai dim ond ychydig o frandiau cyfryngau mawr a gwasanaethau arbenigol bach a allai fod â dyfodol ariannol hyfyw ac, o ganlyniad, gallai cyfran gynyddol o’r boblogaeth gael gwasanaeth gwael. Nododd yr adroddiad yr effaith niweidiol y gallai hyn ei chael ar gymdeithas ac ar ddemocratiaeth, a gwnaeth

nifer o argymhellion i'r Llywodraeth, y diwydiant, a rheoleiddwyr gan gynnwys Ofcom. Byddwn yn ystyried y canfyddiadau hyn hefyd yng ngham nesaf ein gwaith.

**Crynodeb o'r prif heriau ar gyfer newyddion cywir o ansawdd uchel:**

- Mae bygythiad i gynaliadwyedd ariannol newyddion, a newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a lefelau ymddiriedaeth mewn darlledwyr gwasanaeth cyhoedd ymysg rhai grwpiau cynulleidfaoedd, yn cyflwyno heriau o ran cynaliadwyedd newyddion dibynadwy, sy'n ddigon cywir a digon diduedd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.
- Er bod y cynnydd o ran cael gafael ar newyddion ar-lein wedi arwain at amrywiaeth o fanteision i ddefnyddwyr, gan gynnwys mwy o ddewis a dewis personol, mae hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o heriau mewn perthynas â pha mor rhwydd yw canfod, cael gafael a phriodoli newyddion cywir o ansawdd uchel, yn ogystal â'i gynaliadwyedd ariannol.
- Mae mwy o berygl hefyd i gynulleidfaoedd ddod i gysylltiad â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth wrth gael gafael ar newyddion ar-lein, a gall hyn arwain at ganlyniadau sylweddol i unigolion ac i gymdeithas. Ar ben hynny, mae cynulleidfaoedd wedi dweud wrthym eu bod yn ymddiried llai yng nghywirdeb a didueddrwydd newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rôl bwysig o ran mynd i'r afael ag effeithiau camwybodaeth a thwyllwybodaeth drwy hwyluso dealltwriaeth sifig a thrafodaeth deg a gwybodus. Fodd bynnag, mae llawer o ddarparwyr newyddion cywir ac o ansawdd uchel, fel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ei chael hi'n anoddach cysylltu â chynulleidfaoedd ar-lein.

# 5. Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r sector cynhyrchu yn y DU

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Ystyried y berthynas rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu yn y DU o ran cynnal darpariaeth cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus;
- Trafod sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi ac yn dibynnu ar y sector i wneud cynnwys sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd, gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu ar draws y DU, sgiliau a thalent, ac amrywiaeth y gweithlu; a
- Nodi'r heriau i'r sector cynhyrchu yn y dyfodol o ran addasu i'r pwysau ar gyllidebau comisiynu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Mae'r sector cynhyrchu yn y DU yn amrywiol, yn gystadleuol ac yn llwyddiannus ar lefel fyd-eang

Mae'r sector cynhyrchu yn y DU yn enwog yn rhyngwladol am ei dalent, ei sgiliau a'i adnoddau ac mae'n creu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darlledwyr masnachol a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio ar lefel fyd-eang. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi ac yn dibynnu ar y sector cynhyrchu yn y DU i gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd ac sy'n cynrychioli amrywiaeth y DU gyfan.

Mae gan Ofcom adnoddau rheoleiddio penodol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi amrywiaeth eang o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n cynrychioli amrywiaeth y DU gyfan ac sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhwymedigaethau cwota i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gomisiynu cynnwys gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys,[129][130] i ddarlledu cynyrchiadau gwreiddiol, i gynhyrchu cynnwys ar draws y DU ac i wneud rhaglenni rhanbarthol.[131] Mae gofynion ar y BBC hefyd i dendro ei gomisiynau'n gystadleuol.[132]

Mae'r sector cynhyrchu yn y DU yn cynnwys cymysgedd amrywiol o ddarparwyr, gan gynnwys stiwdios mewnol darlledwyr (fel BBC Studios ac ITV Studios),[133] grwpiau cynhyrchu mawr sy'n

---

[129] Mae'r diffiniad 'cynhyrchwyr annibynnol' yn golygu cynhyrchwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi gan ddarlledwr; heb gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr; ac nad ydynt yn gorff corfforaethol lle mae gan unrhyw ddarlledwr gyfranddaliad sy'n fwy na 25% (neu lle mae gan ddau neu ragor o ddarlledwyr gyfranddaliad cyfun sy'n fwy na 50%).

[130] Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghyswllt llunio Codau Ymarfer ar gyfer gwaith comisiynu gan gyfarwyddwyr annibynnol.

[131] Mae hyn yn cynnwys newyddion rhanbarthol a rhaglenni eraill sydd o ddiddordeb penodol i bobl sy'n byw yn yr ardal berthnasol. Mae rhaglenni rhanbarthol yn cael eu darparu ar amrywiadau cenedlaethol neu ranbarthol o wasanaethau'r BBC a Channel 3.

[132] Gweler Atodiad 1 i gael rhagor o wybodaeth.

[133] Mae'n bosib bod y stiwdios hyn yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer eu darlledwr cysylltiedig ac ar gyfer trydydd partïon.

cynnwys nifer o labeli fel arfer (“cwmnïau annibynnol mawr”), is-gwmnïau stiwdios byd-eang yn y DU a chwmnïau cynhyrchu annibynnol llai. Yn y sector y mae nifer fach o stiwdios darlledwyr mawr a chwmnïau annibynnol mawr, gyda rhes hir o gwmnïau cynhyrchu annibynnol llai.[134]

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi’r diwydiannau creadigol fel un o’r wyth sector sy’n cynnig y cyfle o dwf uchaf ac maen nhw’n ganolbwynt i’w strategaeth ddiwydiannol 10 mlynedd Invest 2035.[135]

## Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw conglfaen sector cyfryngau llwyddiannus yn y DU

Mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar sector cynhyrchu cynaliadwy i greu cynnwys sy’n diwallu anghenion cynulleidfaoedd. Er mai’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n cyfrannu mwyaf o hyd at refeniw comisiynu sylfaenol, mae’r gyfran hon wedi gostwng dros amser oherwydd mwy o fewnfuddsoddi yn y sector cynhyrchu yn y DU. Roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am 51% o’r refeniw comisiynu yn 2023 (wedi gostwng o 65% yn 2013), tra bod darparwyr rhyngwladol yn cyfrif am 39% (i fyny o 15% yn 2013). Yn gyffredinol, mae refeniw comisiynu sylfaenol cynhyrchwyr annibynnol wedi cynyddu 12% mewn termau real rhwng 2013 a 2023, wedi’i sbarduno gan fuddsoddiad gan gomisiynwyr rhyngwladol (gan gynnwys gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio). Mae cyfanswm refeniw cynhyrchwyr annibynnol (gan gynnwys ffynonellau eraill fel gwerthiannau rhyngwladol rhaglenni gorffenedig) hefyd wedi cynyddu 9% yn yr un cyfnod, o £3.1 biliwn yn 2013 i £3.4 biliwn yn 2023.[136] Fodd bynnag, roedd y sector yn wynebu blwyddyn heriol yn 2023 yn dilyn gostyngiad graddol mewn comisiynu (a drafodir ymhellach isod), gyda gostyngiad gwirioneddol o 18% mewn refeniw comisiynu sylfaenol annibynnol o 2022 ymlaen. Cafodd hyn ei sbarduno gan ostyngiadau mewn refeniw gan gomisiynwyr yn y DU ac yn rhyngwladol.[137]

[134] Oliver & Ohlbaum, 2023. Understanding the UK’S TV Production Sector.
[135] Yr Adran Busnes a Masnach, 2023. Invest 2035: the UK’s modern industrial strategy.
[136] Mae cyfanswm refeniw cynyrchiadau annibynnol yn cynnwys cyfanswm y refeniw sy’n gysylltiedig â theledu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol.
[137] Pact, 2024. UK Television Production Census. dadansoddiad Oliver & Ohlbaum. Mae refeniw wedi’i addasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar brisiau 2023. Mae data Pact yn cynrychioli refeniw i gynhyrchwyr nad ydynt yn eiddo llwyr i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae Cyfrifiad Pact yn casglu gwybodaeth ariannol gan gynhyrchwyr sy’n cymryd rhan drwy arolwg, a dywedir bod hyn yn cynrychioli tua 80%-90% o gyfanswm refeniw’r diwydiant.

**Ffigur 9: Cyfanswm refeniw comisiynu sylfaenol annibynnol yn ôl ffynhonnell, 2013 a 2023 (mewn miliwn £, pob ffigur wedi'i addasu i brisiau 2023)**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2024 Pact.*[138]

Er bod gwariant uniongyrchol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi gostwng, mae hyn wedi cael ei wrthbwyso gan gyfraniadau cynyddol drwy gyllid trydydd parti, rhai ohonynt yn dod o gwmnïau cynhyrchu (gweler Ffigur 14 yn Adran 6). Mae cyllid trydydd parti hefyd yn cyfrannu at rai comisiynau gan ddarlledwyr amlsianel, er enghraifft, comisiynodd Atlantic Sky *Sweetpea* a *Gangs of London* gan ddefnyddio cwmnïau cynhyrchu yn y DU mewn partneriaeth â darlledwyr yn yr Unol Daleithiau.

Mae sawl ffynhonnell o gyllid trydydd parti, ac mae rhai ohonyn nhw wedi esblygu dros y deng mlynedd diwethaf, gan gynnwys:

- Cydgynyrchiadau: gall y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio mewn partneriaeth â darlledwr rhyngwladol neu wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio i ariannu rhaglen yn gyfnewid am gyfran o'r hawliau dosbarthu. Fel arfer, mae darlledwyr y DU yn cael trwydded i'r hawliau sylfaenol yn y DU a gall y partner gaffael hawliau i wledydd eraill neu i fanteisio ar y cynnwys yn ddiweddarach.
- Credydau treth: Mae'r rhain yn lleihau costau teledu cymwys o safon uchel a chynyrchiadau plant ac animeiddio, drwy gyfuniad o ostyngiad mewn treth gorfforaeth a thaliadau arian parod gan y Llywodraeth. Cyflwynwyd credydau teledu cymwys o safon uchel am y tro cyntaf yn 2013/2014 a chawsant eu diweddaru'n ddiweddar gyda system credyd gwariant clyweledol newydd. I fod yn gymwys, mae angen isafswm gwariant ar gynyrchiadau a rhaid iddyn nhw basio prawf diwylliannol Prydeinig.[139]

---

[138] Cafodd y ffigurau eu trosi i dermau real (prisiau 2023) gan ddefnyddio cyfres amser Mynegai Prisiau Defnyddwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol (MM23). Mae comisiynau sylfaenol yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni newydd sydd wedi cael eu comisiynu gan ddarlledwyr sy'n golygu gwerthu hawliau sylfaenol sydd, fel arfer, yn cynnwys telerau fel hawliau unigryw i ddarlledu'r rhaglen yn y DU am bum mlynedd, opsiwn ailddarlledu a thrwydded unigryw i gyd-ddarlledu neu ddarparu'r rhaglen ar-alw dros y rhyngrwyd.
[139] Edrych ar bapur polisi Reform of audio-visual creative tax reliefs, gan Lywodraeth y DU yn 2023 i gael rhagor o fanylion.

Mae modelau cyllido hefyd wedi esblygu i gynnwys defnydd ehangach o gyllido diffyg, lle nad yw'r comisiynydd yn talu cost lawn y cynhyrchiad. Mae hyn yn caniatáu i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael gafael ar raglenni cost uwch nag y bydden nhw'n gallu eu hariannu'n llawn, lle mae gan y rhaglenni hynny werth yn y farchnad hawliau eilaidd (yn enwedig mewn rhaglenni drama a rhaglenni ffeithiol premiwm). Mae'r rhain yn aml yn gytundebau cymhleth sy'n cynnwys nifer o bartïon ar draws gwahanol diriogaethau. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystyried gwerth gwerthiant eilaidd tebygol y rhaglen ac yn ystyried hyn wrth benderfynu faint o gyllid maen nhw'n ei ddarparu, yn aml mewn trafodaeth â dosbarthwyr. Mae gan ITV a'r BBC eu canghennau dosbarthu eu hunain hefyd, ymysg y mwyaf yn y DU. O'i gymharu â rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n llawn gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (ac a fydd yn sicrhau elw), mae'n bosibl y bydd cyllido diffyg yn golygu y bydd yn rhaid i'r cynhyrchydd ysgwyddo mwy o risg, er mewn rhai achosion gall hyn gynnig cyfleoedd i gymryd mwy o'r wobr ariannol.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn termau real mewn gwariant uniongyrchol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynyddu cyfran eu gwariant uniongyrchol ar gomisiynau a ddaw gan gynhyrchwyr allanol. Gostyngodd y gwariant ar gomisiynau mewnol 20% o £2.0bn yn 2013 i £1.6bn yn 2023, a gostyngodd y gwariant ar gomisiynau allanol 7% o £1.5bn yn 2013 i £1.4bn yn 2023 (mewn termau real).[140] Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar gymysgedd amrywiol o gynhyrchwyr i greu amrywiaeth eang o gynnwys, ac mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn canolbwyntio'n gyffredinol ar lai o gomisiynau sydd â chyllideb uwch.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai o'r prif wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, gan gynnwys Netflix ac Amazon, wedi dangos ymrwymiad hirdymor i sector creadigol y DU drwy brynu neu gymryd prydlesi ychwanegol ar ofod stiwdio.[141] Mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn comisiynu cymysgedd o gwmnïau cynhyrchu yn y DU ac yn yr Unol Daleithiau i wneud cynnwys yn eu canolfannau cynhyrchu yn y DU, er bod pob comisiwn yn defnyddio criwiau lleol. Rydyn ni'n cydnabod y gall cyllid a chomisiynau gan ffynonellau heb fod yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyfrannu at alw yn y diwydiant, a chefnogi maint a chapasiti yn y sector y gall cynyrchiadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fanteisio arnyn nhw'n ddiweddarach.

Er bod y sector cynhyrchu wedi gweld twf parhaus yn gyffredinol, mae hefyd wedi wynebu heriau dros y blynyddoedd diwethaf o ran lefelau amrywiol o alw. Er bod y sector wedi llwyddo i ddenu mwy o fuddsoddiad ar ôl pandemig Covid-19 (yn 2021-2022), mae rhanddeiliaid wedi dweud bod y cyfnod hwn hefyd wedi arwain at brinder mewn sgiliau penodol, chwyddiant costau penodol i'r sector (wedi'i sbarduno gan fwy o alw am dalent ac adnoddau) a phwysau ar argaeledd stiwdio. Yn dilyn y cynnydd mewn cynyrchiadau, gwelwyd bod y gwaith comisiynu yn arafu (yn sgil effaith streiciau'r awduron a'r actorion yn Hollywood, pwysau chwyddiant, a'r farchnad hysbysebu ar y teledu yn crebachu), rhai cwmnïau cynhyrchu'n dod i ben, a chynnydd[142] yn nifer y gweithwyr llawrydd sy'n ddi-waith.[143] Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi dweud wrthym fod y pwysau o ran argaeledd stiwdios wedi lleihau erbyn hyn, ac y disgwylir i'r costau cynhyrchu dros y blynyddoedd nesaf ddilyn tueddiadau ar draws yr economi yn gyffredinol.

---

[140] Ofcom/darlledwyr. Mae'r ffigurau'n cael eu mynegi mewn termau real ac maen nhw'n cynnwys gwariant ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos ar y rhwydwaith a rhaglenni gwreiddiol ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.

[141] Er enghraifft, mae Amazon MGM Studios a Netflix wedi cymryd prydlesi ychwanegol o ofod stiwdio yn Shepperton Studios yn Surrey. Prynodd Amazon MGM Studios Stiwdios Ffilm Bray eleni hefyd.

[142] Mae'r enghreifftiau'n cynnwys RDF Television, Endor Productions a ZigZag Productions.

[143] Canfu arolwg gan Bectu ym mis Medi 2023 fod 75% o'r ymatebwyr o weithlu Teledu a Ffilm y DU yn ddi-waith. Dywedodd 52% eu bod yn ddi-waith mewn arolwg a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, yn comisiynu – ym mhob genre bron – mwy o gynyrchiadau yn y DU na'r gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio mwyaf gyda'i gilydd (gweler Adran 7). Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio rhyngwladol yn tueddu i gomisiynu gan gynhyrchwyr mwy sydd wedi hen ennill eu plwyf, ac y gall fod yn heriol i gynhyrchwyr nad ydynt eisoes wedi gweithio gyda gwasanaethau byd-eang i sicrhau comisiynau. Yn gyffredinol, er bod gan rai cynhyrchwyr annibynnol mwy sy'n gweithio mewn genres penodol (fel rhaglenni ffeithiol a drama uchel eu gwerth) fwy o opsiynau comisiynu nag o'r blaen a'u bod yn llai dibynnol ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn gwybod bod rhai cynhyrchwyr llai a'r rheini sy'n arbenigo mewn rhai genres eraill (fel rhaglenni rhanbarthol a rhaglenni ieithoedd lleiafrifol) yn fwy tebygol o ddibynnu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus am gomisiynau.

## Mae hawliau cynnwys wedi esblygu i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ar-lein

Mae'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn cynnwys set o ofynion ynghylch darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, disgwyliad y bydd trefniadau comisiynu yn glir ynghylch yr hawliau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu prynu ac am ba gyfnod y maen nhw'n gwneud hynny. Mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael Cod Ymarfer sy'n esbonio sut y byddan nhw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn, yn seiliedig ar ganllawiau cyffredinol a gynhyrchir gan Ofcom.[144]

Yn ymarferol, mae gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hefyd gyfres o delerau comisiynu safonol a elwir yn Delerau Masnach y mae wedi'u negodi gyda chyrff cynhyrchu Pact a TAC (yn achos S4C). Mae'r Telerau Masnach hyn yn cael eu negodi yn unol â Chodau Ymarfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r Ddeddf Cyfryngau yn ymestyn cwmpas canllawiau comisiynu Ofcom i fod yn berthnasol i gynnwys sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer gwasanaethau ar-alw dynodedig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac sy'n cael ei ddefnyddio gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gyfrif tuag at ei gwotâu mewn perthynas â chomisiynau annibynnol. Rydyn ni'n bwriadu ymgynghori ar ddiweddariadau i'r canllawiau comisiynu yn gynnar flwyddyn nesaf.

Mae gwahanol fathau o hawliau wedi dod yn bwysicach i sicrhau bod cynnwys ar gael lle mae'r cynulleidfaoedd, yn enwedig wrth i gynulleidfaoedd symud fwyfwy ar-lein. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ail-negodi eu Telerau Masnach gyda Pact sawl gwaith. Yn gyffredinol, maen nhw wedi cael hawliau sylfaenol mwy helaeth sydd wedi esblygu i gwmpasu hawliau hirach ar gyfer cynnwys ar eu gwasanaethau ar-alw, yn gyfnewid am hawliau eraill, fel cyfran lai o refeniw wrth fanteisio ar werthiant eilaidd. Er enghraifft, mae Channel 4 wedi ymestyn ei hawliau cynnwys ar-alw i 3 blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn, ond nid yw bellach yn cael unrhyw refeniw o fanteisio rhyngwladol ar hawliau eilaidd. O'i gymharu, mae'r BBC wedi ymestyn ei hawliau cynnwys ar-alw i 12 mis,[145] gyda'r opsiwn i ymestyn, ond mae'n dal i gael cyfran leiafrif (10%) o refeniw o fanteisio rhyngwladol ar hawliau eilaidd.

[144] Ofcom, 2007. Guidance for PSBs in drawing up Codes of Practice for commissioning from independent producers.
[145] Ac eithrio rhaglenni a gomisiynir ar gyfer BBC Three y mae gan y BBC hawliau ar-alw ar eu cyfer o 24 mis.

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi symud mwy o'u cynyrchiadau ledled y DU

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gomisiynu cynnwys sy'n cynrychioli ac yn portreadu cynulleidfaoedd ar draws y DU ac sy'n cefnogi'r economïau creadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rwymedigaethau i wneud cyfran benodol o raglenni rhwydwaith y tu allan i'r M25 bob blwyddyn[146] ac yn y gwledydd.[147] Mae gan wasanaethau'r BBC a Channel 3 hefyd rwymedigaethau i wneud rhaglenni rhanbarthol,[148] gan gynnwys newyddion rhanbarthol a rhaglenni eraill sydd o ddiddordeb penodol i bobl sy'n byw yn yr ardal berthnasol.


Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhagori ar eu rhwymedigaethau cwota ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ddarpariaeth gyfun y tu allan i Lundain wedi cynyddu o 51% o oriau rhwydwaith cymwys yn 2019 i 55% yn 2023 ac o 48% o wariant rhwydwaith cymwys yn 2019 i 56% yn 2023. Ar gyfer Channel 3 a Channel 5, roedd cyfran y gwariant y tu allan i Lundain yn uwch na chyfran yr oriau yn 2023, gan adlewyrchu cost uwch fesul awr genres fel drama, ac ar gyfer y BBC a Channel 4 roedd cyfran yr oriau'n fwy na chyfran y gwariant.

Bu rhywfaint o amrywiadau o un flwyddyn i'r llall mewn oriau a gwariant cynhyrchu ar draws gwahanol rannau o'r DU, gan adlewyrchu'r rhaglenni penodol sy'n cael eu darlledu mewn blynyddoedd penodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, Gogledd Lloegr welodd y cynnydd mwyaf mewn gwariant rhwydwaith cymwys a ddyrannwyd y tu allan i Lundain, o 21% yn 2019 i 27% yn 2023. Er bod y gwariant rhwydwaith cymwys a briodolir i bob un o'r gwledydd hefyd yn amrywio rhwng blynyddoedd penodol, rhwng 2019 a 2023 roedd y gwariant a briodolir i'r Alban wedi cynyddu o 5% i 7%, ac roedd y gwariant a briodolir i Gymru a Gogledd Iwerddon wedi aros yn fwy sefydlog ar 4% a 2% yn y drefn honno (ychydig yn uwch na'r cyfnod blaenorol).[149]

---

[146] BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5.
[147] BBC a Channel 4.
[148] Mae rhaglenni rhanbarthol yn cael eu darparu ar amrywiadau cenedlaethol neu ranbarthol o wasanaethau'r BBC a Channel 3.
[149] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwr.

**Ffigur 10: Canran y gwariant ar gynyrchiadau rhwydwaith cymwys (BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 gyda'i gilydd)**[150]




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*[151]

Yn gyffredinol, mae'r ffordd mae gwasanaethau'r BBC a Channel 3 yn darparu oriau o raglenni rhanbarthol heb fod ar y rhwydwaith[152] wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, yn nes at lefelau eu cwota. Roedd oriau ITV Cymru Wales ac UTV o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon hefyd wedi gostwng ychydig dros gyfnod yr adolygiad, ac roedd oriau STV o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer yr Alban wedi cynyddu'n sylweddol, wedi'u sbarduno gan flwyddyn lawn o'r rhaglen wybodaeth dros nos newydd *Night Vision* yn 2023.[153]

Roedd oriau'r BBC o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gostwng yn gyffredinol, er bod oriau newyddion a materion cyfoes rhanbarthol yn yr Alban yn gyson â'r hyn a fu yn 2019. Mae'r BBC hefyd wedi darparu llawer mwy o raglenni sydd o ddiddordeb penodol i gynulleidfaoedd yn yr Alban yn ystod cyfnod yr adolygiad ar ôl lansio BBC Scotland yn 2019. Er bod gan y BBC lai o oriau o raglenni rhanbarthol heb fod yn newyddion ar ei sianeli optio allan yn gyffredinol, mae hyn yn cyd-fynd â'i strategaeth i ariannu'r gwaith o gomisiynu nifer llai o raglenni sy'n fwy o ran maint ac effaith ac yn fwy uchelgeisiol. Mae'r rhain yn rhaglenni sy'n cael eu comisiynu ar y cyd rhwng ei wledydd a'i gomisiynwyr rhwydwaith ac sydd, yn ei farn ef, ag ymdeimlad cryf o ardal leol ond sydd hefyd â mwy o apêl at gynulleidfaoedd ar draws y DU.[154]

---

[150] Edrychwch ar ein hadroddiad cydymffurfio Blynyddol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2024 i gael rhagor o fanylion.

[151] Mae'r data'n dangos sut roedd pob darlledwr wedi perfformio yn erbyn ei gwota cynhyrchu rhanbarthol yn ôl isranbarth. Ac eithrio cwotâu sy'n benodol i wledydd ar gyfer y BBC a Channel 4, nid oes gan y darlledwyr gwotâu i'w bodloni ar gyfer pob isranbarth. Gall teitlau sydd wedi'u neilltuo i'r categori heb fod yn rhanbarthol fod y rhai a gynhyrchir yn Llundain yn ogystal â'r rhai sy'n cynnwys elfennau o gynhyrchu neu gyllid o'r tu allan i'r DU ochr yn ochr â'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae "Arall" yn dynodi cynyrchiadau nad oeddent yn cyrraedd 70% o'r gwariant a 50% o'r dalent mewn un wlad neu isranbarth penodol.

[152] Edrychwch ar ein hadroddiad cydymffurfio Blynyddol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2024 i gael rhagor o fanylion.

[153] I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar ein hadroddiadau Cyfryngau'r Genedl 2024 ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[154] Mae enghreifftiau o gyd-gomisiynau'r BBC eleni yn cynnwys *Highland Cops*, *Paranormal* a *Once Upon a Time in Northern Ireland*. Edrychwch ar adroddiad cyflenwi comisiynau'r BBC 2023-24 i gael rhagor o fanylion.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod y newidiadau hyn mewn gwariant comisiynu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ynghyd â buddsoddiad gan ddarlledwyr masnachol a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, yn chwarae rhan bwysig o ran cryfhau canolfannau cynhyrchu ledled y DU. Mae buddsoddiad ychwanegol ar draws y DU wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan strategaethau'r BBC a Channel 4[155] i ledaenu eu pŵer comisiynu a datblygu capasiti cynhyrchu ar draws y DU, gan wella cynrychiolaeth a phortreadu cynulleidfaoedd yn yr ardaloedd hynny. Mae gan y BBC a Channel 4 ymrwymiadau pellach i gynyddu eu gwariant comisiynu ar draws y DU. O dan ei Gytundeb Fframwaith, mae'n rhaid i'r BBC wario 60% o'i wariant ar deledu rhwydwaith a 50% o'i wariant ar radio rhwydwaith a cherddoriaeth y tu allan i Lundain erbyn diwedd 2027. Mae wedi dweud ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei darged o "dros 60% yn gynaliadwy erbyn 2026" ar gyfer gwariant teledu rhwydwaith.[156] Yn ddiweddar, fe wnaeth Ofcom hefyd gynyddu cwota Channel 4 ar wariant ac oriau rhaglenni y tu allan i Loegr o 9% i 12% i ddod i rym o 2030 ymlaen, ac mae Channel 4 wedi dweud y bydd yn ceisio cyflawni hyn cyn hynny (erbyn 2028).[157]

Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn buddsoddi y tu allan i Lundain, gan gwestiynu a yw canolfannau cynhyrchu a gweithluoedd wedi'u gwreiddio'n ddigonol mewn economïau lleol i sicrhau effaith economaidd barhaol. Yn 2019, fe wnaethom gynnal adolygiad pwysig o'r canllawiau 'Gwnaed y tu allan i Lundain', a mynd ati wedyn i gryfhau'r meini prawf sy'n diffinio cynyrchiadau rhanbarthol, gan gynnwys y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol.[158] Hefyd, fe wnaethom gyflwyno archwiliadau dirybudd i fonitro cydymffurfiad â'r meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, ac rydyn ni'n asesu unrhyw gwynion a gawn. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y gwledydd a'r rhanbarthau ynghylch unrhyw bryderon ynghylch cymhwyso ein canllawiau a'u heffaith.

Er bod y ffrydwyr byd-eang a chomisiynwyr eraill hefyd yn buddsoddi'n sylweddol yn y sector cynhyrchu yn y DU, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd hyn yn parhau yn y tymor hwy. Nid oes gofyn i ffrydwyr fuddsoddi ar draws y DU ac mae rhanddeiliaid wedi awgrymu i ni y gall buddsoddiad gan y ffrydwyr mewn gwahanol ardaloedd ddibynnu mwy ar berthynas bresennol cynhyrchwyr â chomisiynwyr. Roedd gwariant gan gomisiynwyr rhyngwladol a darlledwyr eraill yn y DU yn cyfrif am 32% ac 11%, yn y drefn honno, o'r gwariant ar raglenni newydd yn y DU gan gynhyrchwyr annibynnol y tu allan i Lundain yn 2023.[159] Mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn parhau i fuddsoddi yn y sector cynhyrchu ar draws y DU yn 2024. Er enghraifft, mae Netflix wedi cyhoeddi bod tair cyfres ddrama newydd wedi bod yn cael eu saethu mewn gwahanol leoliadau yn yr Alban (*The Undertow*, *Department Q* a *Lockerbie*).[160]

---

[155] Edrychwch ar ddogfen BBC 2021 Across the UK strategy a dogfen Channel 4 4 All the UK.
[156] Edrychwch ar ddogfen Cytundeb Fframwaith y BBC 2022 ac Adroddiad Cyflenwi Comisiynu 2023/24, t.22.
[157] Ofcom, 2024. Penderfyniadau ynghylch trwydded ddarlledu Channel 4 a diweddariad 4 All the UK gan Channel 4.
[158] Darllenwch ein Datganiad 2019 i gael rhagor o wybodaeth.
[159] Pact, 2024. Pact Census 2024: nations and regions annex. dadansoddiad Oliver & Ohlbaum. Mae ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar brisiau 2023.
[160] The Herald, 2024. Scotland to become the backdrop for three brand new Netflix dramas.

# Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparwyr cynnwys eraill a'r sector creadigol ehangach yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau a thalentau

Mae creu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel yn y tymor hwy yn dibynnu ar ddatblygu talent a sgiliau mewn modd cynaliadwy. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector creadigol ehangach yn buddsoddi mewn nifer o fentrau i gefnogi sgiliau a thalent, gan gynnwys ymysg pobl o wahanol gefndiroedd ledled y DU. Ar ben hynny, mae asiantaethau sgrin a chyrff eraill fel cynghorau ffilmiau yn cefnogi'r sector creadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU drwy ddarparu cyllid a chefnogi prosesau datblygu sgiliau a hyfforddiant. Mae gan y BBC a Channel 4 rwymedigaethau penodol i gefnogi datblygiad y sector creadigol[161], ac maen nhw wedi gwneud ymrwymiadau sylweddol i gefnogi talent a sgiliau yn eu sefydliadau eu hunain a'r cwmnïau cynhyrchu maen nhw'n gweithio gyda nhw.[162] Er enghraifft, cyhoeddodd Channel 4 yn ddiweddar ei fod yn dyblu ei fuddsoddiad yn 4Skills i £10 miliwn y flwyddyn gan ganolbwyntio ar greu cyfleoedd y tu allan i Lundain.[163] Mae'r ffrydwyr byd-eang hefyd yn buddsoddi mewn rhaglenni sgiliau a hyfforddiant, gan gynnwys ar gyfer y cynyrchiadau a gomisiynwyd ganddyn nhw. Er enghraifft, cyhoeddodd Amazon Prime Video fuddsoddiad o £10m dros dair blynedd i ehangu mynediad i'r sector drwy ei "Prime Video Pathway".[164]

Hefyd, mae ystod o fentrau ar draws y diwydiant, sy'n harneisio pŵer gweithredu ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys y Prosiect Mynediad Teledu, lle mae deg o ddarlledwyr a ffrydwyr mwyaf y DU[165] wedi addo gweithio gyda'i gilydd i sicrhau mynediad ar gyfer talentau anabl. Yn ddiweddar, ffurfiodd TV Foundation Uned Effaith newydd,[166] sy'n ceisio cryfhau ymagwedd y diwydiant teledu at symudedd cymdeithasol a dosbarth, gan adeiladu ar raglen bresennol TV Foundation i ddatblygu gyrfaoedd. Canfu adroddiad gan y Tasglu Sgiliau Sectorau Sgrin fod dros £100m wedi cael ei fuddsoddi mewn sgiliau yn 2022 gan ei aelodau, sy'n cynnwys darlledwyr mawr (gan gynnwys y BBC, ITV a Channel 4), stiwdios a ffrydwyr (gan gynnwys Netflix ac Amazon) yn ogystal â sefydliadau allweddol fel ScreenSkills, Pact ac asiantaethau sgrin cenedlaethol.[167]

Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod y sector creadigol yn wynebu heriau strwythurol tymor hwy o ran datblygu sgiliau a thalent yn gynaliadwy, gan gynnwys mewn perthynas â'r gyfran fawr o'r gweithlu sy'n weithwyr llawrydd, natur y gwaith sy'n seiliedig ar brosiectau (yn aml gydag amseroedd paratoi byr a recriwtio heb strwythur) a lefelau amrywiol o alw. Gall yr heriau hyn gael mwy o effaith ar bobl o gefndiroedd penodol, er enghraifft mae rhanddeiliaid wedi sôn am yr effaith ar y rheini sydd â llai o gymorth ariannol i ymdopi â sioc mewn incwm neu'r rheini sy'n llai abl i dderbyn rolau ar fyr rybudd oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi cyfleu'r heriau sy'n ymwneud â strategaethau cynnwys sy'n esblygu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan ddweud bod rhai ohonynt yn comisiynu llai o gomisiynau gwerth canolig sy'n gallu

---

[161] Mae gan C4C rwymedigaeth i gefnogi datblygiad pobl sydd â thalent greadigol o dan adran 198A(4)(a) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac mae gan y BBC rwymedigaeth i fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad o dan Erthygl 6(4) o Siarter y BBC.
[162] Gweler Adroddiad Cyflenwi Comisiynau diweddar y BBC ac AdroddiadBlynyddol a dogfen Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Channel 4 i gael rhagor o fanylion.
[163] Channel 4, 2024. Diweddariad 4 All the UK .
[164] Amazon, 2023. Prime Video's investment in the UK.
[165] Amazon Prime Video, BBC, Britbox, Channel 4, Disney+, ITV, Paramount Global, Sky, STV ac UKTV.
[166] Ffurfiwyd yr Uned Effaith gan TV Foundation, cangen elusennol Gŵyl Deledu Caeredin.
[167] Sefydliad Ffilm Prydain, 2023. A Sustainable Future for Skills: the Report of the Screen Sectors Skills Task Force.

bod yn sylfaen hyfforddi bwysig i dalentau a busnesau. Er enghraifft, yn sgil canslo drama feddygol hirsefydlog y BBC, *Doctors*, cafwyd trafodaeth ynghylch rôl y sioe o ran hyfforddi talent ar y sgrin ac oddi ar y sgrin.[168]

Roedd adroddiad y Tasglu Sgiliau Sectorau Sgrin yn galw am ddull gweithredu mwy cydlynol ar draws y diwydiant o ran datblygu sgiliau i gynyddu effaith buddsoddiad, gan nodi er enghraifft mai dim ond 27% o'r buddsoddiad a oedd yn targedu datblygu ar lefel ganolig ac uwch, er bod hwn yn faes blaenoriaeth uchel i aelodau. Yn ddiweddar, cyhoeddodd ScreenSkills ei strategaeth 5 mlynedd Powering Skills[169] sy'n canolbwyntio ar ganfod anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol a sicrhau bod hyfforddiant cynhwysol o ansawdd uchel ar gael ledled y DU.

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yn eu gweithluoedd a'u timau cynhyrchu eu hunain

Rydyn ni bob amser wedi bod yn glir bod gweithlu amrywiol yn cynnig cynrychiolaeth a phortreadu gwell ar y sgrin ac yn helpu i greu cynnwys sy'n apelio go iawn i bob cynulleidfa. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwella amrywiaeth eu gweithluoedd dros y pum mlynedd diwethaf, er enghraifft gyda chyfran y bobl o grŵp lleiafrifoedd ethnig yn cynyddu o 13% o weithwyr yn 2019 i 18% yn 2024, a menywod yn parhau i gael eu cynrychioli'n dda ar 50% o weithwyr yn 2024. Er bod cyfran y bobl anabl wedi cynyddu (o 10% i 12%), mae'n dal i fod yn is o lawer na chyfartaledd y boblogaeth, sef 18%.[170] Mae lle i wella hefyd ar y lefelau uwch, lle mae cyfran lai o bobl yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig (13%) neu'n anabl (10%). I'r rheini sy'n gweithio mewn rolau golygyddol a gwneud penderfyniadau, yn wahanol i'r diwydiant teledu yn gyffredinol, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud yn well o ran cyflogi pobl o gefndiroedd amrywiol (er enghraifft, mewn rolau comisiynu a rhaglennu, mae 58% yn fenywod, mae 18% yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig ac mae 17% yn anabl).[171]

Fel gyda'r diwydiant teledu yn gyffredinol, mae dal angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud cynnydd o ran cynrychioli pobl o gefndir dosbarth gweithiol,[172] gan fod hyn wedi aros yn weddol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf, ar 27% yn 2024, ymhell o dan y 39% ar draws poblogaeth y DU.[173] Mae'n galonogol bod lefelau'r data a ddarperir wedi gwella felly mae gennym ddarlun cliriach nag erioed o bwy sy'n gweithio i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a lle mae angen cynnydd o hyd.

Mae gan bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bolisïau comisiynu sy'n ymwneud ag amrywiaeth er mwyn ceisio cynyddu amrywiaeth timau cynhyrchu, ac maen nhw'n defnyddio system Diamond i gael data cyson am amrywiaeth ar y rhaglenni maen nhw'n eu comisiynu. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu gwelliannau mewn cynrychiolaeth amrywiol, ond fel sydd

---

[168] BBC, 2023. 'TV Doctors a training ground for crew and actors'.
[169] ScreenSkills, 2024. Five-Year Strategy.
[170] Dyma'r ffigur ar gyfer poblogaeth y DU rhwng 16 a 64 oed sy'n weithgar yn economaidd.
[171] Gweler ein hadroddiad diweddaraf Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Darlledu i gael rhagor o wybodaeth am y cynnydd a'r heriau yn y diwydiant drwyddo draw.
[172] Mae ein ffigurau yma yn seiliedig ar alwedigaeth y sawl a oedd yn ennill y cyflog uchaf ar yr aelwyd pan oedd y cyflogai'n 14 oed, gyda galwedigaethau wedi'u rhannu'n gategorïau 'proffesiynol', 'canolradd' a 'dosbarth gweithiol'.
[173] Gweithlu'r DU 16+ oed.

i’w weld yng ngweithluoedd y darlledwyr eu hunain, mae pobl anabl yn dal i gael eu tangynrychioli’n sylweddol mewn cyfraniadau oddi ar y sgrin i raglenni.[174]

**Crynodeb o'r prif heriau ar gyfer cynhyrchu cynnwys yn y DU o ansawdd uchel:**

- Mae’n bwysig bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gomisiynu amrywiaeth eang o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a bod ganddyn nhw ddigon o hawliau i roi’r cynnwys yn y mannau lle mae’r cynulleidfaoedd, am bris maen nhw’n gallu ei fforddio. Fodd bynnag, maen nhw hefyd yn dibynnu ar sector cynhyrchu cynaliadwy i barhau i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus o safon uchel sy’n cynrychioli pob rhan o’r DU.
- Bydd angen i’r sector cynhyrchu barhau i addasu i’r heriau ariannol sy’n wynebu’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a’r newidiadau yn eu patrymau comisiynu, gan gynnwys mwy a mwy o gomisiynu ar gyfer llwyfannau ar-lein.

[174] Nid yw system Diamond yn casglu data am gefndiroedd economaidd-gymdeithasol.

# 6. Cynaliadwyedd ariannol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Ystyried cynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran eu gallu i ddarparu'r cynnwys sydd ei angen ar gynulleidfaoedd nawr ac yn y dyfodol agos.

## Mae cynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod o dan bwysau yn ystod y degawd diwethaf

Mae darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn gymhleth, gydag amrywiaeth o sefydliadau a strwythurau rheoleiddio gwahanol sy'n cefnogi'r gwaith cyffredinol o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

### Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hariannu mewn sawl ffordd wahanol, ac mae gan hyn oblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol

Mae'r BBC wedi'i ymgorffori yn y Siarter Frenhinol, ac mae C4C a S4C yn gorfforaethau statudol. Er bod prif sianel Channel 4 wedi'i thrwyddedu, dim ond C4C sy'n gallu dal y drwydded honno. Mae'r corfforaethau hyn yn cael eu sefydlu i gyflawni eu cylchoedd gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae ITV, STV a Paramount Global (Channel 5) yn endidau masnachol a'u prif amcan yw sicrhau enillion i'w cyfranddalwyr. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hyn yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy drwyddedau Channel 3 a Channel 5 sydd ganddyn nhw. Mae trwyddedau Channel 3 a Channel 5 yn cynnwys rhwymedigaethau penodol sy'n ymwneud â chwotâu cynhyrchu a rhaglennu. Mae'n ofynnol hefyd bod y trwyddedeion hyn yn cydymffurfio â rheolau llymach ar niferoedd hysbysebion teledu a sut maen nhw'n cael eu hamserlennu. Yn gyfnewid, bydd y sawl sy'n dal y drwydded yn cael manteision gan gynnwys amlygrwydd mewn Amserlenni Rhaglenni Electronig a mynediad breintiedig at deledu daearol digidol. Mewn egwyddor, gallai ITV, STV a Paramount Global ddewis peidio â dal trwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus a pharhau i ddarparu teledu masnachol.

Mae'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn elwa o safle amlwg ar yr Amserlenni Rhaglenni Electronig ar gyfer eu sianeli perthnasol ac mae ganddyn nhw fynediad at gyfleusterau pwrpasol i drosglwyddo eu sianeli dros deledu daearol digidol. Mae'r BBC ac S4C[175] yn cael eu hariannu i raddau

[175] Ers 2013 mae'r BBC wedi bod yn gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus ar gyfer S4C o ffi'r drwydded. Bydd y trefniant hwn yn parhau tan ddiwedd y Siarter Frenhinol bresennol ym mis Rhagfyr 2027.

helaeth drwy refeniw o drwyddedau teledu. Mae Channel 4, ITV, STV a Channel 5 yn ennill llawer o'u refeniw drwy hysbysebion. Mae gan y BBC, ITV ac STV fusnesau cynhyrchu hefyd.

**Ffigur 11: Perchnogaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r prif ffynonellau cyllid**

| Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus | Perchnogaeth | Prif ffynonellau cyllid ar gyfer rhwymedigaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus |
|---|---|---|
| **BBC** | Corfforaeth Statudol | • Refeniw o drwyddedau teledu.<br>• Difidend o weithgareddau masnachol.<br>• Refeniw arall (er enghraifft, grantiau, rhenti). |
| **S4C** | Corfforaeth Statudol | • Refeniw o drwyddedau teledu<br>• Difidend o weithgareddau masnachol |
| **Channel 4** | Corfforaeth Statudol | • Hysbysebu ar Channel 4 (gan gynnwys mantais amlygrwydd ar yr Amserlen Rhaglenni Electronig a chapasiti teledu daearol digidol), sianeli i deuluoedd a 4 Streaming.<br>• Refeniw heb fod drwy hysbysebion (er enghraifft, tanysgrifiadau 4Streaming+). |
| **Channel 3** | ITV (14 drwydded)<br><br>STV (2 drwydded) | • Refeniw cynyddol drwy hysbysebion sy'n gysylltiedig ag i) amlygrwydd ar yr Amserlen Rhaglenni Electronig ar sianel linol a ii) capasiti teledu daearol digidol. |
| **Channel 5** | Paramount Global | • Refeniw cynyddol drwy hysbysebion sy'n gysylltiedig ag i) amlygrwydd ar yr Amserlen Rhaglenni Electronig ar sianel linol a ii) capasiti teledu daearol digidol. |

Ar ben hynny, mae MG ALBA yn cydweithio gyda'r BBC i ddarparu cynnwys Gaeleg drwy sianel BBC ALBA. Mae MG ALBA yn cael y rhan fwyaf o'i gyllid drwy grant craidd gan Lywodraeth yr Alban.

Ac ystyried pa mor gymhleth yw'r ffordd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu sefydlu a sut mae eu rhwymedigaethau'n cael eu hariannu, mae nifer o ffyrdd gwahanol i ni allu ystyried cynaliadwyedd ariannol. Ar gyfer pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae eu cynaliadwyedd fel sefydliadau yn dibynnu ar eu gallu i barhau i gyflawni eu rhwymedigaethau yn y tymor hir heb fynd i ddiffyg ariannol sylweddol. Ar gyfer deiliaid trwyddedau Channel 3 a Channel 5, gallwn ystyried a yw'n broffidiol, fesul cam, i ddal trwyddedau Channel 3 a Channel 5, ac fe wnaethon ni asesu hyn fel rhan o'r broses aildrwyddedu ddiweddar.[176] Yn y pen draw, yr hyn sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd yn y DU yw eu bod yn parhau i gael y cynnwys sydd ei angen arnyn nhw. Felly, mae gennym ddiddordeb yng ngallu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a chyfranwyr eraill, i barhau i ddarparu digon o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y tymor hir.


## Bu gostyngiad sylweddol mewn termau real yn refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd diwethaf

### Mae refeniw ffi'r Drwydded Deledu wedi gostwng

[176] Rydyn ni wedi adolygu cynaliadwyedd trwyddedau Channel 3 a Channel 5 yn 2022. Fe ddywedon ni fod trwyddedeion Channel 3 a Channel 5 yn debygol o barhau i wneud cyfraniadau pwysig i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod nesaf y drwydded. Fe ddywedon ni hefyd y gallai'r cyfraniadau i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a wneir gan Channel 3 a Channel 5 fod yn gynaliadwy'n fasnachol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, ond mae hyn mewn mwy a mwy o berygl wrth i werth manteision trwyddedau ostwng. Dechreuodd ITV, STV a Channel 5 ar drwyddedau newydd eleni ar gyfer cyfnod 10 mlynedd nesaf y drwydded sy'n rhedeg o 2025 i 2034. Edrychwch ar adroddiad adran 229 Ofcom.

Refeniw o drwyddedau teledu yw'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer y BBC ac S4C. Ac ystyried maint a phwysigrwydd y BBC, mae ffi'r drwydded hefyd yn cynrychioli cyfran fawr o'r cyllid y mae'r sector darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn ei gael. Mewn termau real, mae gwerth y ffrwd refeniw hon wedi gostwng £1.3bn dros y 10 mlynedd diwethaf.

**Ffigur 12: Cyfanswm incwm ffi'r drwydded, wedi'i addasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr (£bn), 2012/13 i 2023/24**




*Ffynhonnell: Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol y BBC, blynyddoedd amrywiol. Y ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr i gyflwyno gwerth ym mhrisiau 2024.*

Mae sawl ffactor yn gyfrifol am y gostyngiad yn refeniw'r drwydded deledu. Yn gyntaf, nid yw pris y Drwydded Deledu wedi cyd-fynd â chwyddiant gan fod pris y drwydded wedi'i rewi am nifer o flynyddoedd dros y degawd diwethaf.[177] Bu gostyngiad hefyd yn nifer y trwyddedau teledu mewn grym.[178]

Rhwng 2018 a 2020 cafodd grant ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a oedd yn werth hyd at £660m y flwyddyn, ei ddiddymu'n raddol. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y BBC y byddai trwyddedau am ddim i bawb dros 75 oed yn dod i ben ac mai dim ond i bobl sy'n cael credyd pensiwn y byddai trwydded am ddim ar gael o 1 Mehefin 2020 ymlaen.

Mae pwysau chwyddiant hefyd wedi effeithio ar y cyllid sydd ar gael i BBC ALBA drwy grant craidd MG ALBA (£13m yn 2023/24), sydd wedi aros yn weddol wastad mewn termau nominal ers 2019.


## Mae refeniw o hysbysebion wedi gostwng hefyd

Mae'r siart isod yn dangos faint o refeniw mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi'i gynhyrchu dros y blynyddoedd diwethaf ac o ble daw'r refeniw hwn – yn bennaf drwy hysbysebion teledu a fideo ar-alw sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am tua 90% o'r cyfanswm dros y cyfnod.

---

[177] Cynyddodd pris Trwydded Deledu i £169.50 ym mis Ebrill 2024; fodd bynnag, pe bai'r pris wedi cyd-fynd â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros y degawd diwethaf, byddai'r pris 14.6% yn uwch na hyn heddiw.
[178] Dywedodd y BBC fod 26 miliwn o drwyddedau teledu mewn grym ar ddiwedd cyfnod adrodd 2017/18; erbyn 2023/24 roedd hyn wedi gostwng i 23.9 miliwn, gostyngiad o fwy nag 8%. BBC, 2018. BBC Television Fee Trust Statement 2017/18, t. 5. BBC, 2024. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2023/4, t. 53.

**Ffigur 13: Refeniw teledu a fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, yn ôl ffynhonnell: 2019-2023**[179]




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant).*

Ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, gostyngodd refeniw o hysbysebion ar Channel 3, Channel 4 a Channel 5 rhwng 2019 a 2023 o tua £2.3bn i £1.6bn yn 2023. Roedd refeniw hysbysebion ar sianeli eraill y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol hefyd wedi gostwng o tua £900m ar ddechrau cyfnod yr adolygiad i ychydig o dan £600m yn 2023. Cynyddodd refeniw gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y cyfnod o ychydig dros £500m i fwy nag £800m, ond nid oedd hyn yn ddigon i atal gostyngiad cyffredinol mewn refeniw o'r ffynonellau hyn, sef tua £630m (tua 17%).

Mae'r gostyngiad mewn gwylio llinol a thwf gwylio drwy wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn debygol o fod wedi dylanwadu ar refeniw hysbysebion dros y cyfnod hwn. Yn hanesyddol, mae cysylltiad rhwng refeniw hysbysebion a pherfformiad yr economi ehangach. Dim ond 0.3% oedd twf gwirioneddol cynnyrch domestig gros yn 2023, ac mae cyfraddau chwyddiant uchel iawn rhwng 2021 a 2023 (gyda Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cyrraedd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022) hefyd wedi cael effaith ar refeniw go iawn hysbysebion.[180] Disgwylir i dwf economaidd wella yn 2024 ac mae'r Advertising Association / WARC yn rhagweld cynnydd nominal o 0.9% yng nghyfanswm gwariant ar hysbysebion teledu yn 2024, wedi'i sbarduno'n bennaf gan gynnydd rhagamcanol o 12.1% mewn gwariant ar wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr.[181]

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi arallgyfeirio ffrydiau refeniw mewn ymateb i ostyngiad mewn refeniw llinol

[179] Refeniw hysbysebion yw refeniw fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys rhai elfennau eraill, fel refeniw tanysgrifiadau. Mae refeniw arall yn cynnwys nawdd, gosod cynnyrch, incwm tanysgrifwyr, siopa ar y teledu, gwasanaethau rhyngweithiol, gwerthu rhaglenni, talu-i-wylio, a ffynonellau eraill. Mae 'sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol' yn cynnwys y canlynol: ITV, STV, ITV Breakfast, Channel 4, Channel 5 ac S4C.
[180] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 2024. Economic and Fiscal Outlook Hydref 2024, t. 10, siart 1.4.
[181] AA/WARC, 2024. Expenditure report Q2.

## ond mae sefyllfa ariannol gyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwaethygu

Ac ystyried y pwysau ar eu refeniw, mae llawer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ceisio arallgyfeirio ffrydiau refeniw a lleihau costau gweithredu er mwyn ariannu gweithgareddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac, yn achos y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, parhau i adrodd bod elw wrth weithredu. Isod, rydym yn nodi pa gamau mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'u cymryd i arallgyfeirio refeniw a pha mor llwyddiannus maen nhw wedi bod. Ar y cyfan, mae sefyllfa ariannol darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gwaethygu ond mae refeniw o fusnesau digidol (Channel 4, ITV) a stiwdios (BBC Studios, ITV Studios ac STV Studios) wedi lliniaru rhywfaint ar effaith colli refeniw llinol.

Mae'r BBC wedi buddsoddi yn ei weithgareddau masnachol. Mae gan BBC Studios (is-gwmni masnachol mwyaf y BBC) fandad i sicrhau enillion cynaliadwy hirdymor i'r BBC i ategu ffi'r drwydded. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae BBC Studios wedi tyfu ei refeniw 32% o £1.4bn yn 2019/20 i £1.8bn yn 2023/24.[182] Mae'r BBC wedi dweud ei fod yn ceisio dyblu refeniw BBC Studios mewn pum mlynedd i ddarparu dros £3.2bn o refeniw erbyn 2027/28. Mae difidendau, yn hytrach na refeniw, o weithgareddau masnachol y BBC yn helpu i gefnogi gwariant rhaglenni Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC, ac ar hyn o bryd mae hyn tua £200m y flwyddyn (tua 5% o refeniw ffi'r drwydded). Er gwaethaf hyn, mae'r BBC wedi datgan bod diffyg gweithredol net o £160m dros y pum mlynedd diwethaf.[183] Ni all y BBC barhau i ariannu diffygion gweithredol am byth ac felly mae'n debygol y bydd yn gorfod cynyddu refeniw neu leihau costau i fynd i'r afael â'i ddiffygion.

Daw bron y cyfan (98%) o gyllid S4C o refeniw ffi'r drwydded ac wrth ystyried y pwysau ar hyn, mae hefyd wedi nodi diffyg gweithredol net o £4m dros y pum mlynedd diwethaf.[184]

Mae Channel 4 wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei wasanaethau digidol. O'r herwydd, mae wedi tyfu refeniw hysbysebion digidol 93% dros y pum mlynedd diwethaf o £145m i £280m.[185] Mae hefyd wedi cynyddu ei refeniw heb fod drwy hysbysebion[186] 38% i £101m.[187] Mae'r ddwy ffrwd refeniw hyn yn gwrthbwyso'r gostyngiad mewn hysbysebion llinol. Ar yr un pryd, mae costau gweithredu wedi cynyddu 6.5% dros yr un cyfnod. Ac ystyried y twf mewn refeniw dros y pum mlynedd diwethaf, mae Channel 4 wedi nodi gwarged gweithredu net o £110m dros y cyfnod 2019-2023.[188] Fodd bynnag, rydyn ni'n nodi, oherwydd costau uwch, fod Channel 4 wedi nodi diffyg gweithredol o £55m yn 2023.[189]

---

182 Mewn termau nominal.
183 Dadansoddiad Ofcom o Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC ar gyfer 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 a 2023/24. Mae diffyg gweithredol net yn cynrychioli swm y gwarged/diffygion gweithredol ym mhob blwyddyn ariannol rhwng 2019/20 a 2023/24.
184 Cyn 2023, cafodd S4C gyllid gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a ffi'r drwydded. Fodd bynnag, o 2023 ymlaen, mae cyllid S4C wedi cael ei benderfynu fel rhan o setliad ffi'r drwydded. Diffygion gweithredol ar sail dadansoddiad Ofcom o Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol S4C ar gyfer 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23 a 2023/24.
185 Mewn termau nominal.
186 Mae refeniw heb fod drwy hysbysebion yn cynnwys incwm hawliau, dosbarthu, a refeniw theatrig. Mae hefyd yn adlewyrchu ffrydiau refeniw newydd a ddatblygwyd fel rhan o strategaeth Future4 Channel 4 ac sy'n parhau o dan ei strategaeth Fast Forward.
187 Mewn termau nominal.
188 Mae gwarged gweithredol net yn cynrychioli swm y gwarged/diffygion gweithredol ym mhob blwyddyn ariannol rhwng 2019 a 2023.
189 Dadansoddiad Ofcom o Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol C4C ar gyfer 2019, 2020, 2021, 2022 a 2023.

Mae ITV Plc hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei wasanaethau digidol, er enghraifft, drwy lansio ITVX, ac mae ganddo fusnes cynhyrchu a dosbarthu sylweddol, ITV Studios (tua 43% o gyfanswm refeniw ITV a 58% o'i elw gweithredol yn 2023).[190] Mae ITV wedi tyfu refeniw digidol 140% dros y pum mlynedd diwethaf i £490m.[191] Mae ITV Studios hefyd wedi tyfu dros yr un cyfnod ac mae'r elw gweithredol wedi cynyddu 7% i £290m.[192] Er mwyn ymateb i ostyngiad mewn refeniw hysbysebion llinol, mae ITV wedi cynnal ymarfer torri costau sylweddol ond mae costau ei is-adran Cyfryngau a Darlledu wedi cynyddu 18% dros yr un cyfnod.[193] Er bod refeniw llinol wedi gostwng a'r costau gweithredu'n uwch, mae ITV wedi adrodd elw gweithredol dros y pum mlynedd diwethaf oherwydd cyfraniad refeniw digidol ac elw o'i is-adran Studios, er ein bod yn nodi bod yr elw gweithredol wedi gostwng 54% i £238m yn 2023.[194]

Mae STV Plc wedi buddsoddi yn ei fusnes stiwdio i wrthbwyso'r gostyngiad mewn refeniw llinol.[195] Erbyn hyn, mae refeniw STV Studios yn cynrychioli 40% o gyfanswm y refeniw a 26% o'r elw gweithredol.[196] Ac ystyried twf STV Studios, mae STV wedi adrodd elw gweithredol dros y pum mlynedd diwethaf ond, yn debyg i ITV, gwelwyd bod elw gweithredol STV wedi gostwng 21% i £20.1m yn 2023.[197]

Mae Channel 5 yn rhan o Paramount Global, ond rydyn ni'n nodi, o'i ddatganiadau ariannol a gyhoeddwyd yn y DU, ei fod wedi bod yn broffidiol ar y cyfan dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn unol â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, oherwydd y tueddiadau mewn hysbysebion llinol, gostyngodd ei elw gweithredol 72% i £22.7m yn 2023.[198] Yn hanesyddol, roedd y rhan fwyaf o refeniw Channel 5 yn dod o hysbysebion llinol, ond rydyn ni ar ddeall bod Paramount Global yn ail-frandio ac yn ail-lansio gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr Channel 5 fel '5' yn 2025. Gallai hyn ei helpu i gynyddu refeniw digidol yn y dyfodol.

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi addasu i ostyngiad mewn incymau real drwy newid y ffordd maen nhw'n comisiynu cynnwys

Mae ffigur 14 isod yn dangos sut mae refeniw o brif ffynonellau cyllid darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Gostyngodd cyfanswm refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – gan gynnwys cyllid cyhoeddus o ffi'r drwydded a refeniw masnachol – i £6bn yn 2023, i lawr 15% mewn termau real o £7bn wedi'i addasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2019, ac o'i gymharu â £7.8bn yn 2014.


---

[190] Yn seiliedig ar enillion cyn llog, trethu ac amorteiddio. Fel arfer, mae elw gweithredol yn cynnwys amorteiddio, ond nid yw ITV Plc yn adrodd hyn ar lefel is-adran.
[191] Mewn termau nominal.
[192] Ar sail enillion cyn llog, trethu ac amorteiddio.
[193] Mae is-adran Cyfryngau a Darlledu ITV yn cynnwys ei fusnes darlledu digidol a theledu.
[194] Mae elw gweithredol grŵp yn cynnwys amorteiddio. Dadansoddiad Ofcom ar sail Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ITV Plc ar gyfer 2019, 2020, 2021, 2022 a 2023.
[195] Yn 2023, prynodd STV Plc Greenbird Media, cwmni cynhyrchu gyda 24 label.
[196] Ar sail elw gweithredol wedi'i addasu ar gyfer 2023, hynny yw, heb gynnwys costau untro sy'n ymwneud â'r cytundeb newydd ag ITV ac integreiddio Greenbird Media Limited wedyn.
[197] Dadansoddiad Ofcom ar sail Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol STV Plc ar gyfer 2019, 2020, 2021, 2022 a 2023. Mae'r elw gweithredol yn seiliedig ar elw gweithredol wedi'i addasu heb gynnwys costau untro.
[198] Nododd Channel 5 Broadcasting Limited elw gweithredol o £112m yn 2023 ond roedd hyn yn cynnwys taliad untro o £90m gan bartner gwerthu sy'n ymwneud â thandaliadau hanesyddol (£80.9m) ynghyd â llog (9.1m). Rydyn ni wedi eithrio'r taliad untro hwn uchod at ddibenion cymharu. Dadansoddiad Ofcom ar sail Adroddiad a Datganiadau Ariannol Channel 5 Broadcasting Limited ar gyfer 2023.

Mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym nad yw eu costau wedi gostwng i’r un graddau yn ystod y cyfnod hwn a bod lefelau uchel o chwyddiant wedi effeithio ar y gost o wneud rhaglenni teledu rhwng 2021 a 2023. Ar ben hynny, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi buddsoddi symiau sylweddol i ddatblygu eu gwasanaethau fideo ar-alw eu hunain dros y blynyddoedd diwethaf.

Un o’r ffyrdd y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ymateb i’r her hon yw drwy newid y ffordd maen nhw’n comisiynu cynnwys gwreiddiol o’r DU. Mae Ffigur 14 yn dangos, dros gyfnod 2014-2023, fod gwariant termau real ar gynnwys gwreiddiol o’r DU sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi gostwng £560m (tua 17%). Fodd bynnag, mae’r cyfanswm sy’n cael ei wario ar gynhyrchu cynnwys sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi aros yn gymharol sefydlog mewn termau real oherwydd bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a’r cynhyrchwyr yn gwneud mwy o ddefnydd o gyllid trydydd parti wrth gomisiynu rhaglenni, gyda gwariant trydydd parti yn cyrraedd £674m yn 2023.[199]

**Ffigur 14: Refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'i gymharu â'r gwariant ar gynnwys gwreiddiol o’r Deyrnas Unedig sy’n cael ei ddangos am y tro cyntaf, 2014-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*[200]

Mae gwariant trydydd parti yn cael ei dargedu’n gryf, gyda 74% ohono’n ymwneud â chynyrchiadau drama yn 2023. Mae llai o opsiynau cyllido eraill ar gyfer y rhan fwyaf o fathau eraill o gynnwys, sy’n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y DU, ond sy’n llai tebygol o fod yn llwyddiannus mewn marchnadoedd eilaidd a rhyngwladol.

Rydyn ni’n nodi tueddiadau yng ngwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar genres unigol o gynnwys yn Adran 7 (edrychwch ar Ffigur 18). Mae gwariant termau real wedi gostwng ar gyfer y rhan fwyaf o genres, gydag adloniant ffeithiol yn eithriad. Bu toriadau mewn termau real i’r rhan

[199] Ofcom/darlledwyr.

[200] Mae refeniw ffi'r drwydded wedi’i ddyrannu ar sail dadansoddiad Ofcom o ddata’r BBC. Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi’u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant). Mae data yn cynnwys gwariant uniongyrchol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol rhwydwaith, a chyfraniadau trydydd parti at wariant.

fwyaf o genres eraill, yn enwedig ffilmiau, rhaglenni ar y celfyddydau a'r clasurol, comedi, addysg a rhaglenni crefyddol.

## Bydd cynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod o dan bwysau yn y tymor hir

Fel y nodwyd gennym yn Adran 3, yn ôl y rhagolygon bydd gostyngiad pellach mewn gwylio teledu llinol, rhagwelir y bydd fideo ar-alw yn parhau i dyfu yn y dyfodol, ond disgwylir i'r twf hwn arafu a rhagwelir twf cryf mewn gwylio ar lwyfannau gwylio fideos ac ar gyfryngau cymdeithasol.[201] Os bydd y tueddiadau hyn yn parhau yn ôl y disgwyl, maen nhw'n debygol o effeithio mewn sawl ffordd ar gynaliadwyedd ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac rydyn ni'n eu hamlinellu isod.

### Gostyngiad pellach mewn refeniw o ffynonellau hanesyddol

Fel y nodwyd uchod, mae refeniw o ffi'r Drwydded Deledu wedi bod o dan bwysau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i nifer yr aelwydydd sy'n talu am Drwydded Deledu ostwng. Gall cynnydd yn argaeledd a defnydd gwasanaethau 'nad ydynt yn fyw' fel gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos gyfrannu at ostyngiad pellach yn nifer yr aelwydydd sydd â Thrwydded Deledu yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, bydd dyfodol cyllid y BBC yn rhan o'r adolygiad nesaf o Siarter y BBC. Mewn diweddariad gan y llywodraeth, dywedodd ei bod yn bwriadu cynyddu ffi'r drwydded ar sail cyfradd flynyddol chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr tan 2027, i roi'r sicrwydd o gyllid i'r BBC am weddill cyfnod y Siarter. Mae hyn yn golygu mai £174.50c fydd cost trwydded flynyddol teledu lliw o fis Ebrill 2025 ymlaen.[202] Ac ystyried maint y BBC, bydd ei gyllid yn y dyfodol yn ffactor pwysig o ran cynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol yn y DU yn y dyfodol.

Bydd nifer o ffactorau'n effeithio ar ragolygon tymor hwy ar gyfer refeniw hysbysebion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn hanesyddol, mae cysylltiad rhwng refeniw hysbysebion teledu llinol a pherfformiad yr economi ehangach. Felly mae'n bosib y bydd refeniw hysbysebion yn aros ar lefel uchel yn y dyfodol os bydd yr economi'n tyfu unwaith eto.[203] Disgwylir i dwf tymor hwy mewn refeniw hysbysebion gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr arafu gyda rhai'n rhagweld y bydd refeniw hysbysebion yn lefelu erbyn diwedd y 2020au.[204]

Rydyn ni hefyd yn nodi nifer o heriau a allai leihau refeniw hysbysebion teledu yn y tymor hir. Yn benodol, mae'r gostyngiad parhaus mewn gwylio teledu llinol a'r arafu a ragwelir mewn twf gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn mynd i gael effaith ar refeniw hysbysebion i ryw raddau.

Bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn wynebu mwy a mwy o gystadleuaeth gan fathau newydd o hysbysebion fideo. Mae nifer o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi datblygu

[201] Enders, 2024. Video viewing forecasts: A slowdown in change.
[202] DCMS, 2024. New plans to ensure the BBC's financial sustainability set out by the Culture Secretary.
[203] Nodwn fod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd yr economi'n tyfu ychydig dros 1% yn 2024, gan godi i 2% yn 2025, cyn gostwng i tua 1.5%. Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 2024. Economic and Fiscal Outlook 2024, t. 5.
[204]Gweler, er enghraifft, amcanestyniadau o adroddiad gwariant AA/WARC ac Ampere Analysis. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi buddsoddi hefyd yn eu gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu tanysgrifio, er enghraifft, ITVX, a Channel 4+. Fodd bynnag, ac ystyried y gystadleuaeth frwd gan wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, mae refeniw sy'n seiliedig ar danysgrifiadau yn debygol o barhau i fod yn ganran fach, yn gyffredinol, o gyfanswm refeniw darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

haenau hysbysebu yn eu cynlluniau prisio ochr yn ochr â'u model codi tâl sy'n seiliedig ar danysgrifio. Os bydd cynlluniau prisio fesul haen ar gyfer hysbysebion yn dod yn fwy poblogaidd yn y tymor hir, bydd hyn yn arwain at fwy o restr hysbysebu ar gael i hysbysebwyr a mwy o gystadleuaeth am wariant hysbysebu.

Disgwylir y bydd cystadleuaeth am wariant hysbysebu o YouTube yn tyfu dros y blynyddoedd nesaf hefyd. Mae presenoldeb YouTube ar setiau teledu wedi cynyddu, ac mae wedi bod yn datblygu mwy o gynnwys tebyg i deledu ar ei lwyfan. Mae'n gwella ei allu i gynnig diogelwch brand a ffordd o fesur brand i hysbysebwyr. Pan aethon ni ati i siarad â hysbysebwyr, dywedodd pob un ohonyn nhw wrthym eu bod yn buddsoddi'n helaeth erbyn hyn mewn hysbysebu ar YouTube. Dywedodd rhai wrthym eu bod wedi newid eu meddwl am hysbysebu, gyda chyllidebau penodol ar gyfer hysbysebion teledu llinol yn llawer llai cyffredin nag yn y gorffennol.

Yn gyffredinol, rydyn ni'n disgwyl y bydd gostyngiad yn refeniw hysbysebion y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd nesaf, er ei bod yn anodd rhagweld pa mor bell neu gyflym y bydd hyn yn gostwng. Mae'n bosibl y bydd refeniw hysbysebion ar y teledu yn parhau i fod yn eithaf cadarn. Ond, hyd yn oed os yw effaith twf economaidd yn ddigon i wrthbwyso unrhyw ddirywiad mewn lefelau gwylio, ac mai bach yw effaith cystadleuaeth newydd gan wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a llwyfannau rhannu fideos, fel bod lefelau nominal refeniw hysbysebion yn aros yn wastad, byddai hyn yn golygu bod refeniw blynyddol hysbysebion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gostwng £500m mewn termau real (-19%) erbyn 2034.[205] Fel rhan o'r prosesau aildrwyddedu diweddar, cynigiodd rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus amcan i Ofcom o'u refeniw hysbysebion. Yn gyffredinol, mae'r rhagolygon hyn yn awgrymu y gallai refeniw blynyddol hysbysebion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ostwng tua £1bn (-40%) mewn termau real erbyn 2034.[206] Fel y nodwyd uchod, mae hysbysebwyr wedi awgrymu y gallai'r farchnad hysbysebu fod yn newid wrth i gystadleuaeth gan lwyfannau rhannu fideos gryfhau. Os felly, mae'n bosibl y bydd refeniw hysbysebion ar y teledu yn gostwng yn gyflymach na'r hyn y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'i ragweld.

## Mae'r rhagolygon ar gyfer refeniw newydd sylweddol gan lwyfannau digidol eraill yn ansicr

Mae llwyfannau rhannu fideos fel YouTube neu TikTok a gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol sy'n cludo cynnwys fideo fel Instagram a Facebook, yn cynnig ffordd newydd i ddarlledwyr gyrraedd cynulleidfaoedd ac ennill refeniw ychwanegol.

Mae darparu cynnwys ar lwyfannau rhannu fideos neu gyfryngau cymdeithasol yn wahanol iawn i ddarparu cynnwys drwy sianeli teledu llinol neu wasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain. Nid yw llwyfannau rhannu fideos a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cynnig perthynas uniongyrchol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus â'u gwylwyr, a'r llwyfan ei hun sy'n lletya'r cynnwys, sy'n golygu mai'r llwyfan sy'n rheoli'r rhyngwyneb â'r gwyliwr, ac sy'n gwneud arian o'r cynnwys (drwy danysgrifiadau, hysbysebion neu gyfuniad o'r ddau). Fel darparwyr cynnwys, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedyn yn dibynnu ar y llwyfan hwnnw i dalu iddyn nhw am eu cynnwys, darparu data a gwybodaeth am eu gwylwyr, a sicrhau bod eu cynnwys yn cael ei weld a'i briodoli'n ddigonol i frand.

---

[205] Ar sail modelu Ofcom: yn y senario hwn rydyn ni'n tybio bod refeniw yn aros yn wastad mewn termau nominal dros y cyfnod rhwng 2024 a 2034.

[206] Mae'r senario mwy pesimistaidd hwn yn seiliedig ar amrywiaeth o ragolygon a gyflwynwyd i Ofcom gan ITV, Channel 4 a Channel 5 fel rhan o'u prosesau aildrwyddedu perthnasol.

Mae postio cynnwys ar lwyfan rhannu fideo neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod gwylwyr yn gallu cael gafael ar gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus heb orfod newid i wasanaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain, felly efallai y bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn ofalus ynghylch pa gynnwys maen nhw'n ei bostio i osgoi effaith negyddol ar fathau eraill o refeniw neu arafu twf y gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr.

Hyd yma, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn arbrofi gyda rhoi gwahanol feintiau o gynnwys ar lwyfannau trydydd parti, ac felly efallai ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw'r gwahanol ffactorau yn cydbwyso neu beidio. Mae rhai o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym fod yr elw o lwyfannau trydydd parti yn isel iawn ac mai eu prif strategaeth yw denu gwylwyr yn ôl i'w gwasanaethau fideo ar-alw. Mewn cyferbyniad, mae Channel 4 wedi rhoi mwy o ddeunydd ar YouTube, gan gynnwys rhai rhaglenni yn llawn.

Mae data cyfrinachol a gasglwyd gennym gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn awgrymu mai dim ond cyfran fach iawn o refeniw fideo ar-alw cyffredinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r refeniw maen nhw'n ei gael gan lwyfannau rhannu fideos a chyfryngau cymdeithasol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod llwyfannau cymdeithasol yn golygu bod llawer iawn o bobl yn gweld cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (gweler Ffigurau 25 a 26 yn Adran 7). Mae'r data'n dangos bod gwerth cyfartalog gweld cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar lwyfan rhannu fideo yn llawer is na gwerth cyfartalog cais am wasanaeth gwylio fideo ar-alw gan y darlledwyr. Mae hyn yn dangos yr heriau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wneud arian o gynulleidfaoedd ar y llwyfannau hyn, yn enwedig os yw hynny ar draul cynyddu lefelau gwylio ar eu gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr eu hunain, sy'n fwy proffidiol.

## Mae darlledwyr yn wynebu costau cyrraedd gwylwyr ar draws nifer o lwyfannau

Costau cynnwys yw'r rhan fwyaf o sylfaen costau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[207] Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dweud eu bod wedi gweld costau cynnwys yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfraddau chwyddiant uchel iawn. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn bwriadu buddsoddi mewn cynyrchiadau gwerth uchel fel rhan o'u strategaeth i ddatblygu eu gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Maen nhw'n dweud bod chwyddiant mewn genres fel drama wedi bod yn arbennig o uchel yn y blynyddoedd diweddar.

Mae cyfradd y chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, o'r lefelau uchel a welwyd rhwng 2021 a 2023, a disgwylir y bydd yn is yn y dyfodol.[208] Os felly, bydd hyn yn lliniaru'r pwysau ar gyllidebau cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ryw raddau. Fodd bynnag, rydyn ni'n disgwyl y bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau â'u buddsoddiadau mewn cynyrchiadau gwerth uchel i ddenu gwylwyr i'w gwasanaethau fideo ar-alw.


Mae'r data rydyn ni wedi'i gasglu gan ddarlledwyr yn dangos, ar wahân i wariant ar gynnwys, mai'r prif gostau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer eu sianeli llinol yw marchnata, darlledu, a gweinyddu. Mae'r costau hyn, wedi'u cyfuno ar draws prif sianeli a sianeli portffolio masnachol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, wedi gostwng mewn termau real dros gyfnod yr adolygiad, gan ostwng 15% ers 2019 i £589m yn 2023.

---

[207] Er enghraifft, yn 2023, fe wnaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, wario £2.7bn ar gynnwys gwreiddiol a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf.

[208] Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Banc Lloegr yn rhagweld y bydd chwyddiant y DU yn aros ar tua'r gyfradd darged o 2% o 2025 ymlaen.

**Ffigur 15: Costau heb fod yn gysylltiedig â chynnwys a ddewiswyd ar gyfer sianeli teledu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol: 2019-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant). Mae data yn cynnwys sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a sianeli portffolio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Mae darlledu'n cynnwys drwy deledu daearol digidol, lloeren a chebl.*

Gyda'i gilydd, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi lleihau cyfanswm eu costau darlledu gwasanaethau teledu llinol, a oedd – ar £218m – 23% yn is yn 2023 o'i gymharu â 2019. Fodd bynnag, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud wrthym fod rhai o'r arbedion hyn yn y costau yn rhai a fydd yn digwydd unwaith unig ac yn annhebygol o gael eu hailadrodd. Bydd gostyngiad arall mewn costau sy'n cael ei gyflawni yn 2024 – cau sianeli manylder safonol ar wasanaethau lloeren – yn un sy'n digwydd unwaith yn unig hefyd. Yn y cyfamser, mae rhanddeiliaid wedi nodi hefyd fod cynnydd mewn rhai costau sy'n gysylltiedig â darlledu drwy deledu daearol digidol a fydd yn dechrau yn 2024.

Fe wnaethon ni nodi yn ein hadroddiad Dyfodol Dosbarthu Teledu, mai'r lleiaf o amser y mae pobl yn ei dreulio ar deledu daearol digidol, y lleiaf effeithiol ydyw o ran costau fesul gwyliwr. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y duedd hon yn parhau yn y dyfodol heb unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff teledu daearol digidol ei ddarparu. Mae llawer o ddarlledwyr wedi dweud wrthym eu bod yn rhagweld trobwynt lle na fydd yn economaidd hyfyw mwyach i gefnogi teledu daearol digidol yn ei ffurf bresennol. Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni hefyd yn nodi tri dull cyffredinol o ran sut gallai teledu daearol digidol newid yn y dyfodol. Byddai gan bob un o'r rhain oblygiadau gwahanol i gostau dosbarthu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn dibynnu ar sut cawsant eu llunio gan y Llywodraeth.

Mae data a gasglwyd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos bod eu costau, heb fod yn gysylltiedig â chynnwys, wrth ddarparu eu gwasanaethau fideo ar-alw – gan gynnwys ffrydiau IP llinol byw drwy'r gwasanaethau hyn – wedi bod yn cynyddu wrth i'r gwasanaethau hyn dyfu. Ar gyfer y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5, mae'r costau hyn, gyda'i gilydd, wedi cynyddu 55% mewn termau real ers 2019, i £587m yn 2023.[209] Y costau mwyaf heb fod yn gysylltiedig â chynnwys a briodolir yn

[209] Rydyn ni'n nodi bod rhai costau cyffredinol ar gyfer busnesau ehangach darlledwyr, gan gynnwys rhai y mae gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr yn elwa ohonyn nhw, yn cael eu cofnodi o dan gostau darlledu/llinol ac felly nid ydynt yn cael eu hadrodd fel costau ar-alw.

uniongyrchol i wasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr yw marchnata, datblygu, taliadau hawliau sylfaenol a dosbarthu, a oedd, gyda'i gilydd, yn 82% o'r cyfanswm dros y cyfnod. Wrth i gynulleidfaoedd wylio mwy o gynnwys oddi ar chwaraewyr gwasanaethau fideo ar-alw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, efallai y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu costau uwch o ran dosbarthu protocol rhyngrwyd, yn dibynnu ar sut mae cysylltiadau masnachol â phartneriaid dosbarthu yn esblygu.[210]

Rydyn ni'n disgwyl y bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i fuddsoddi yn eu technoleg gwasanaethau fideo ar-alw yn y blynyddoedd i ddod. Er enghraifft, £98m oedd gwariant cyffredinol y BBC ar ddatblygu ei gynnyrch digidol yn 2021-22, ac mae'n disgwyl buddsoddi tua £50 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn mewn datblygu cynnyrch digidol erbyn 2025. Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod BBC iPlayer wedi perfformio'n dda ond bod y cyllid sydd ar gael yn sylweddol is na'r sefydliadau cyfryngau eraill y mae'n cystadlu â nhw. Gwariodd Netflix, yn benodol, £1.7bn ar dechnoleg a datblygu yn 2021.[211]

Mae'n bosibl y bydd integreiddio deallusrwydd artiffisial ar draws y gadwyn gyflenwi yn arwain at rai arbedion effeithlonrwydd i ddarlledwyr. Mewn arolwg, dywedodd 57% o'r cwmnïau cynhyrchu wrth Pact eu bod eisoes yn defnyddio deallusrwydd artiffisial neu'n bwriadu defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol agos yn eu proses gynhyrchu.[212] Nodwn fod y diwydiant yng nghamau cynnar y datblygiad hwn ac felly mae'n anodd rhagweld beth fydd maint tebygol unrhyw ostyngiad mewn costau.

## Gall y Ddeddf Cyfryngau effeithio ar gynaliadwyedd ariannol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

Bydd y Ddeddf Cyfryngau yn newid sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu rheoleiddio mewn nifer o ffyrdd (fel y nodir yn ein Map tuag at Reoleiddio). Gallai rhai o'r newidiadau a ddaw yn sgil y Ddeddf Cyfryngau helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft:

- Rhan 1a: Bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau drwy ymestyn cwmpas y rhan fwyaf o gwotâu fel bod cynnwys sy'n cael ei ddarparu ar-lein yn rhan o hynny. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithredu eu strategaethau digidol yn gyntaf a chyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd niwtral o ran llwyfan.
- Rhan 1b: Bydd hyn yn gwneud rhai newidiadau i'r drefn digwyddiadau rhestredig gan ei gwneud yn glir mai dim ond i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y mae'n berthnasol.
- Rhan 2: Bydd hyn yn sicrhau amlygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar wasanaethau teledu sydd wedi'u cysylltu. Cyn bo hir byddwn yn ymgynghori ar fanylion sut y dylid rhoi'r drefn hon ar waith. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y newidiadau hyn o fudd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy eu helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd yn haws gyda'u gwasanaethau fideo ar-alw.
- Rhan 3: Bydd hyn yn diddymu'r cyfyngiad sy'n atal Channel 4 rhag cynhyrchu ei gynnwys ei hun. Gallai hyn fod yn ffynhonnell newydd o gyllid ar gyfer Channel 4.

Bydd maint a natur gyffredinol yr effaith ar bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu'n rhannol ar sut mae darpariaethau'r Ddeddf Cyfryngau yn cael eu rhoi ar waith. Fel rydyn

---

[210] Yn wahanol i ddulliau dosbarthu llinol traddodiadol, mae costau dosbarthu protocol rhyngrwyd yn cynyddu wrth i nifer y gwylwyr gynyddu, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o'r costau hyn wedi gostwng fesul gwyliwr. MTM ac Ofcom, 2024. Broadcast Distribution Costs.
[211] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2022. A Digital BBC.
[212] Pact, 2024. Pact TV Production Census.

ni wedi'i nodi yn ein map, bydd ein hamserlen ar gyfer newidiadau i'r fframwaith a newidiadau i'r drwydded yn rhedeg tan 2026.

**Crynodeb o'r prif heriau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus:**

- Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Rydyn ni'n disgwyl y bydd refeniw hysbysebion teledu llinol yn parhau i ostwng yn y dyfodol ac na fydd cynnydd mewn refeniw gwasanaeth fideo ar-alw y darlledwyr eu hunain yn debygol o wrthbwyso hyn. Ar ben hynny, er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa, mae'n rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ysgwyddo costau darparu rhaglenni dros wasanaethau llinol ac ar-lein.
- Mae cyrraedd cynulleidfaoedd penodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus roi eu cynnwys ar lwyfannau rhannu fideos fel YouTube. Mae hyn yn codi materion sy'n ymwneud â gwneud arian a phriodoli a gallai leihau defnydd cynulleidfaoedd o wasanaethau fideo ar-alw y darlledwyr eu hunain. Er mwyn apelio at newid chwaeth cynulleidfaoedd, efallai y bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fuddsoddi mewn mathau newydd o gynnwys hefyd.
- Mae'r heriau hyn yn rhoi pwysau ar allu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnal eu gwariant ar raglenni teledu, a byddan nhw'n ei chael yn fwyfwy anodd cyflawni eu rhwymedigaethau o ran amrywiaeth, nifer neu ansawdd y rhaglenni teledu a gomisiynir.

# 7. Cyflawni dibenion ac amcanion Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

**Yn yr adran hon, rydyn ni'n:**

- Nodi ein hasesiad o sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion dros gyfnod yr adolygiad; a
- Cymharu gwariant ac allbwn gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus â chyfraniad darlledwyr amlsianel a darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio.

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion

Mewn cyfnod heriol iawn gyda phandemig Covid-19, amodau economaidd anodd, a digwyddiadau geowleidyddol sy'n dadsefydlogi, mae ein hasesiad yn dod i'r casgliad bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion a'u hamcanion. Maen nhw wedi darparu amrywiaeth eang o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau gwahanol, sy'n adlewyrchu cymunedau a diwylliannau ledled y DU, ac sy'n darparu newyddion sy'n ddigon cywir a digon diduedd – fel yr amlinellir yn fanwl yn Adrannau 3 a 4. Mae lefelau cyffredinol yr allbwn rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi aros yn sefydlog; mae gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi gostwng mewn termau real, er bod hyn wedi'i ystumio rhywfaint gan gyfnod o chwyddiant uchel – mewn termau nominal, mae'r gwariant wedi cynyddu ychydig.

Er mwyn cyrraedd a chysylltu'n well â chynulleidfaoedd, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddatblygu eu gwasanaethau fideo ar-alw eu hunain, gan gynnwys drwy gynyddu gryn dipyn ar faint o gynnwys a gynhyrchir yn y DU sydd ar gael yn eu catalogau ffrydio.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i gyflawni dibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus er gwaethaf gostyngiad mewn refeniw sydd wedi rhoi pwysau ar gyllid, a chael effaith negyddol o ran darparu rhai genres mwy arbenigol.

I weld ein hasesiad o sut mae C4C yn cyflawni ei ddyletswyddau, gweler Atodiad 3.

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnal lefelau eu hallbwn o gynnwys teledu gwreiddiol o'r DU, er bod y gwariant wedi gostwng mewn termau real

Mae darparu cynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel yn y DU yn galluogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni nifer o ddibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae nifer y rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, a lefelau'r buddsoddiad ynddyn nhw (procsi ar gyfer

ansawdd) yn darparu metrigau allweddol ar gyfer mesur perfformiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Roedd lefelau cyffredinol yr allbwn ar draws y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli portffolio'r BBC yn gymharol sefydlog dros gyfnod yr adolygiad (gweler Ffigur 16). Mae hyn er gwaethaf y tarfu a achoswyd yn sgil pandemig Covid-19, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'n fawr y ffaith bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddarparu rhaglenni newydd yn y DU – yn enwedig newyddion.[213] Mae'r amrywiadau yng nghyfanswm yr oriau dros y cyfnod yn adlewyrchu, yn rhannol, rai o'r amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn sy'n deillio o ddigwyddiadau chwaraeon mawr nad ydynt yn digwydd yn flynyddol (er enghraifft, Cwpan y Byd FIFA a'r Gemau Olympaidd). Mae oriau cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf fel cyfran o gyfanswm yr oriau darlledu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi aros yn gyson hefyd, 43% yn flynyddol ar gyfartaledd rhwng 2019 a 2023,[214] o'i gymharu â 44% dros y pum mlynedd blaenorol.


Mae sianeli portffolio masnachol ITV, Channel 4 a Channel 5 yn cyfrannu ymhellach at allbwn sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys rhywfaint o raglenni gwreiddiol ar-lein sy'n ymddangos am y tro cyntaf ar wasanaethau fideo ar-alw perthnasol y darlledwyr ac ar lwyfannau cymdeithasol. Mae cynnydd nodedig wedi bod mewn oriau cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf o'r gwasanaethau hyn dros y cyfnod – cynnydd i 5,303 yn 2023 o'i gymharu â 2,862 yn 2019 – wedi'i sbarduno gan gynnydd yn oriau rhaglenni adloniant ac, i raddau llai, rhaglenni ffeithiol a chwaraeon. Gyda'i gilydd, roedd y tri genre hyn yn cyfrif am 93% o oriau darlledu sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar sianeli portffolio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol dros y cyfnod. Ond, o ran cyfanswm yr oriau darlledu, mae'r sianeli hyn yn parhau i wasanaethu o hyd fel darparwyr yn bennaf ar gyfer y cynnwys a brynir ac ailddarllediadau rhaglenni a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

---

[213] Yn ystod cyfnod pandemig Covid-19, defnyddiodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddulliau gwahanol i egluro'r polisïau iechyd cyhoeddus diweddaraf i gynulleidfaoedd, gan gynnwys ym mhob un o'r gwledydd, lle'r oedd cyfyngiadau cysylltiedig â phandemig Covid-19 yn amrywio. Edrychwch ar ein hadroddiad Cyfryngau'r Genedl 2020, Cyfryngau'r Genedl 2021 a'n Hadroddiad Newyddion Rhwydwaith 2022 i gael rhagor o wybodaeth.

[214] Roedd rhaglenni a brynwyd yn cynrychioli cyfartaledd o 5% o gyfanswm yr oriau a ddarlledwyd, gydag ailddarllediadau'n cynrychioli'r 52% sy'n weddill.

**Ffigur 16: Oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl math o sianel 2014-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys BBC ALBA a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (fel BBC iPlayer, ITVX, ffrydio Channel 4, a My5) a llwyfannau cymdeithasol (fel YouTube, Instagram, Snapchat a Facebook) yn cael eu cynnwys fel rhan o'u ffigurau portffolio perthnasol.*

Mae cynnal lefelau buddsoddi mewn cynnwys teledu gwreiddiol o'r DU, mewn termau real, wedi bod yn fwy heriol na chynnal yr allbwn. Roedd y gwariant, a oedd wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, ar gynnwys a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn £2.9bn ar gyfartaledd bob blwyddyn, rhwng 2019 a 2023, o'i gymharu â £3.2bn rhwng 2014 a 2018. Mae cyfnod o chwyddiant uchel yn golygu bod y gostyngiad hwn mewn termau real yn waeth. Fodd bynnag, wrth ei werthuso mewn termau nominal, cynyddodd y gwariant ar gynnwys a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf, yn ôl cyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 2% dros y cyfnod.


Mae cyfran pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus unigol o'r gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf (prif sianeli a phortffolio'r BBC yn unig) wedi aros yn sefydlog, gyda'r BBC yn cyfrif am ychydig o dan hanner (49%) bob blwyddyn ar gyfartaledd, ITV 31%, 16% Channel 4 a Channel 5 5%.[215] Roedd gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar sianeli portffolio masnachol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyfrannu £189m arall ar gyfartaledd bob blwyddyn dros y cyfnod (mewn termau real).

Mae cynnydd mewn gwariant trydydd parti – a ddaw o ffynonellau fel cyd-gynyrchiadau gyda chomisiynwyr eraill, credyd treth y Llywodraeth ar gyfer teledu cymwys o safon uchel (HETV), cyllido diffyg a blaensymiau gan gynhyrchwyr annibynnol – wedi gwrthbwyso'n rhannol y gostyngiad mewn termau real mewn gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, sydd tua £642m y flwyddyn ar gyfartaledd dros gyfnod yr adolygiad, o'i gymharu â £471m dros y pum mlynedd blaenorol.

---

[215] Mae dadansoddiad manwl o ddata gwariant ac oriau rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unigol ar gael yn ein [Hadroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu yn 2024](). 

**Ffigur 17: Gwariant rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl math o sianel 2014-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant).*


# Bu gostyngiad mewn oriau a gwariant ar gyfer rhai genres

Un o ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw darparu gwasanaethau sydd "â chydbwysedd priodol, o ran eu natur a'u pynciau".[216] Wrth gyflawni'r diben hwn, mae'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys nifer o wahanol genres o raglenni, fel cynnwys sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi gweithgareddau diwylliannol y DU, diddordebau mewn chwaraeon a hamdden a rhaglenni addysgol, crefyddol a diddordebau arbenigol.[217] Mae amrywiaeth eang o raglenni gwahanol yn bwysig i gynulleidfaoedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel sy'n cael ei drafod yn Adran 3.

Mae cymysgedd genres allbwn a gwariant y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos yr amrywiaeth o raglenni maen nhw'n eu cynnig, a'r meysydd lle mae hyn yn cael mwy o bwyslais nag eraill. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni mewn amrywiaeth o genres sy'n darparu ar gyfer gwahanol ddiddordebau. Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant hwn – 91% dros gyfnod yr adolygiad – yn canolbwyntio ar chwaraeon, adloniant, newyddion a materion cyfoes, dramâu, operâu sebon a rhaglenni ffeithiol, gyda'r genres hyn yn cyfrif am 97% o'r oriau o gynnwys a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf. Roedd newyddion a materion cyfoes yn unig yn cyfrif am 60% o'r oriau, wedi'i sbarduno'n bennaf gan sianeli BBC News a BBC Parliament.


[216] Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 264(4).
[217] Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 264(6).

**Ffigur 18: Gwariant rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl genre, 2014-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant).*

**Ffigur 19: Oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl genre, 2019-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys BBC ALBA a rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.*

Yn ystod y cyfnod, rhaglenni adloniant a chwaraeon a welodd y gostyngiad mwyaf o ran oriau, gyda'r allbwn blynyddol cyfartalog rhwng 2019 a 2023 i lawr 21% a 12%, yn y drefn honno, o'i gymharu â'r cyfartaledd dros y pum mlynedd blaenorol. Ond gwelwyd twf yn oriau adloniant ffeithiol, i fyny 39%, ac, i raddau llai, newyddion a materion cyfoes (i fyny 1.3%, ond yn cynrychioli cynnydd nodedig mewn oriau absoliwt).

Yn y rhan fwyaf o'r genres mwy arbenigol, cynhyrchwyd llai o oriau o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf dros y cyfnod, gyda rhaglenni ffeithiol arbenigol (-10% o'i gymharu â 2014-2018), rhaglenni'r celfyddydau a cherddoriaeth glasurol (-34%) a rhaglenni plant (-16%) yn gweld y

gostyngiad absoliwt mwyaf. Gostyngodd y buddsoddiad ym mhob un o'r genres hyn mewn termau real a nominal, gan adlewyrchu'r heriau o ran cynnal amrywiaeth eang o raglenni ar draws pob genre.


Mae costau cynhyrchu uwch wedi rhoi pwysau ar allu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu neu hyd yn oed gynnal yr un faint o gynnwys gwreiddiol mewn rhai genres allweddol. Ar gyfer dramâu, rhaglenni comedi, plant ac adloniant, mae cost fesul awr rhaglenni wedi cynyddu mewn termau real ers 2019.

Mae faint o gynhyrchu mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gefnogi yn y DU, gan gynnwys ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau a'r tu allan i Lundain, yn cael ei asesu yn Adran 5 yr adolygiad hwn. Fel y nodwyd yno, roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhagori ar eu rhwymedigaethau cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith dros gyfnod yr adolygiad.[218]

## Mae darparwyr fideo ar-alw a darlledwyr eraill yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i sawl genre

Mae darlledwyr amlsianel a darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer cynulleidfaoedd – er bod llawer o hyn, yn wahanol i raglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, y tu ôl i wal dalu. Gyda'i gilydd, mae'r darparwyr hyn yn gwario mwy na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, ond mae'r rhan fwyaf o'u buddsoddiad blynyddol cyfartalog o £4.5bn dros y cyfnod yn mynd ar chwaraeon (71% bob blwyddyn ar gyfartaledd), wedi'i sbarduno gan gynigion premiwm Sky Sports a TNT Sports. Mae drama yn genre arall lle mae darparwyr amlsianel a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi gwario mwy na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'u gwariant cyfun ar y genre yn dyblu mewn termau real dros y cyfnod, o £390m wedi'i addasu gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2019 i £776m yn 2023. Ond mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn arwain buddsoddiad mewn newyddion a materion cyfoes, rhaglenni ffeithiol ac adloniant.

**Ffigur 20: Gwariant rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn ôl genre a math o ddarparwr, 2019-2023**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr / darparwyr fideo ar-alw. Cyflwynir y ffigurau mewn termau real (wedi'u haddasu ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer chwyddiant). *Mae ffigurau darlledwyr gwasanaeth*

[218] Edrychwch ar ein hadroddiad cydymffurfio blynyddol o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

*cyhoeddus yn cynnwys sianeli portffolio masnachol. Mae gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a darparwyr amlsianel yn cynnwys gwasanaethau llinol a fideo ar-alw – yr olaf lle mae'n cael ei gynnig a lle cafodd data ei gyflwyno i Ofcom – ar gyfer: Bloomberg, BritBox, CBS AMC Networks, GB News, Hearst Networks EMEA (AETN gynt), Moochi TV, Narrative Entertainment, Netflix, Paramount Global, Sky, Talk TV, Talking Pictures, UKTV, a Warner Bros. Discovery (gan gynnwys CNN, Turner Broadcasting, a TNT Sports).*

O ran allbwn, roedd darlledwyr amlsianel wedi darparu mwy na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran cyfanswm yr oriau o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2021. Roedden nhw wedi cynyddu yn ôl cyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 8.1% dros gyfnod yr adolygiad. Ond, mae'r gymysgedd o genres yn gyfyng eto, ac yn fwy cyfyng byth o ran y gwariant – mae newyddion a materion cyfoes a chwaraeon yn cyfrif am gyfartaledd blynyddol o 96% o oriau o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf. Newyddion a materion cyfoes oedd prif sbardun y cynnydd mewn oriau, gyda sianeli GB News (2021) a Talk TV (2022) yn cael eu lansio yn ystod y cyfnod – er bod yr olaf wedi rhoi'r gorau i weithredu fel sianel deledu linol ym mis Mai 2024, gan symud ar-lein yn unig.

**Ffigur 21: Oriau rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarparwyr amlsianel, yn ôl genre, 2019-2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Bloomberg, CBS AMC Networks, GB News, Hearst Networks EMEA (AETN gynt), Moochi TV, Narrative Entertainment, Paramount Global, Sky, Talk TV, Talk Pictures, UKTV a Warner Bros. Discovery (gan gynnwys CNN, Turner Broadcasting, a TNT Sports).*


Mae nifer y rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarparwyr amlsianel a darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio mewn genres eraill – fel rhaglenni ffeithiol, adloniant, drama a rhaglenni plant – yn gymharol fach. Mae cwmpas cynnwys mwy arbenigol yn llai byth, gan ddibynnu ar raglenni trwyddedig i amrywio'r cynnwys a gynigir sy'n aml yn brin o'r dyfnder a ddarperir yn gyffredinol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ond, sylwir bod comedi yn genre lle mae'r darparwyr amlsianel wedi darparu tua'r un faint o oriau o gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod yr adolygiad, sy'n cyfateb i 150 awr y flwyddyn ar gyfartaledd i 154 awr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[219]

Mae darparwyr gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi darparu nifer gymharol fach o oriau cynnwys gwreiddiol o'r DU, yn bennaf yn y genres ffeithiol/realiti (er enghraifft, *The Grand Tour* ar Amazon Prime Video) a dramâu. Mae llawer o'u buddsoddiad wedi canolbwyntio ar

[219] Yn cynnwys sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol.

ddetholiad o deitlau drama â chyllideb fawr sydd ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU ac ar draws y byd (er enghraifft, *Bridgerton* ar Netflix). Drwy flaenoriaethu cynnwys effeithiol wedi'i sgriptio, wedi'i ategu gan raglenni adloniant a rhaglenni ffeithiol sy'n berthnasol yn lleol, mae'r buddsoddiad cynyddol gan wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio wedi gosod y DU fel canolfan allweddol ar gyfer buddsoddi mewn cynyrchiadau rhyngwladol.

**Ffigur 22: Oriau cynnwys gwreiddiol a gynhyrchwyd yn y DU sydd newydd ei ryddhau ar wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, yn ôl genre, 2019-2023**





*Ffynhonnell: Ampere Analysis. Mae'r rhain yn cynnwys Netflix, Amazon Prime Video, Disney+, Apple TV+, Discovery+, a Paramount+ – mae'r data'n cynrychioli rhaglenni gwreiddiol newydd sbon sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU sy'n cael eu hychwanegu at gatalogau yn y DU bob blwyddyn; ac eithrio cynnwys chwaraeon.*

## Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi darparu mwy a mwy o gynnwys ar-lein yn y DU

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddatblygu eu gwasanaethau fideo ar-alw perthnasol eu hunain wrth iddyn nhw drawsnewid i ddigidol yn gyntaf. O ran cynnwys, maen nhw wedi ehangu eu catalogau ar-alw ac wedi cadw'r ffocws ar raglenni a gynhyrchir yn y DU. Roedd oriau cronnus cynnwys o'r DU wedi cynyddu 80% rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Rhagfyr 2023, ac roedd hyn yn cynrychioli 64% o oriau catalog ar ddiwedd y cyfnod (er bod hyn wedi gostwng o 74% yn 2019). I'r gwrthwyneb, mae'r gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, gyda'i gilydd, yn cynnig llai na hanner nifer yr oriau o gynnwys yn y DU (ac yn gwneud hynny y tu ôl i wal dalu), gan ganolbwyntio'n bennaf ar raglenni a wneir yn yr Unol Daleithiau.

**Ffigur 23: Oriau catalog fideo ar-alw yn ôl gwlad gynhyrchu ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio, 2019-2023**





*Ffynhonnell: Ampere Analysis. Mae gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn oriau catalog cronnus ar gyfer BBC iPlayer, ITVX / ITV Hub (cynnwys gwylio am ddim yn unig), ffrydiau Channel 4 / All 4, a My5; mae'r oriau cronnus ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio ar gyfer Netflix, Amazon Prime Video, Disney+, NOW, Apple TV+, Discovery+, a Paramount+ (yn y blynyddoedd roedd y gwasanaethau ar gael). Rhagfyr bob blwyddyn.*

Mae cynigion ar gyfer cynnwys ar-alw yn wahanol iawn i wasanaethau teledu llinol, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y cymysgedd genres gwahanol o sianeli o'i gymharu â chatalogau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Un gwahaniaeth cyson ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw cyfran uwch o oriau drama sydd ar gael ar-alw o'i gymharu â chyfanswm yr oriau[220] sy'n cael eu darlledu ar eu prif sianeli teledu – sy'n arbennig o wir am y BBC, ITV a Channel 4. Mae drama yn enghraifft o genre sy'n addas iawn ar gyfer gwylio ar-alw, yn wahanol, er enghraifft, i newyddion a materion cyfoes, sydd â fawr ddim gwerth ar ôl y darllediad cyntaf.

[220]Rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac ailddarllediadau.

**Ffigur 24: Cymysgedd genres o oriau darlledu/catalog ar bum prif sianel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr, 2023**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr (data sianeli), Ampere Analysis (data catalog gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr). Mae data sianeli yn cynrychioli cyfanswm yr oriau rhwydwaith (rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rhaglenni sy'n cael eu prynu a rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu) sy'n cael eu darlledu yn 2023. Mae data gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr yn gatalogau fel yr oedden nhw ym mis Rhagfyr 2023 (diwedd cyfnod yr adolygiad).*


Mae apêl dramâu ar wasanaethau fideo ar-alw yn cael ei hadlewyrchu mewn data ceisiadau am raglenni[221]. Dyma'r genre rhaglen y mae gofyn amdano fwyaf ar draws gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'n cyfrif yn gyson am tua chwarter yr holl geisiadau. Plant yw'r ail genre mwyaf poblogaidd, sy'n adlewyrchu nid yn unig ei addasrwydd ar gyfer gwylio ar-alw ond hefyd twf cyflym y cynulleidfaoedd ieuengaf ar-lein.

Mae cynnydd yn y galw am gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein yn dystiolaeth bod ceisiadau am raglenni wedi cynyddu yn ôl cyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 16% rhwng 2019 a 2023, i 13.3 biliwn yn 2023. Ond, mae hyn yn sylweddol is na nifer y ceisiadau cronnus a gafwyd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a gwasanaethau amlsianel, sydd – ar gyfer gwasanaethau a gyflwynodd ddata i Ofcom – wedi cyrraedd cyfanswm o 27.4 biliwn yn 2023 (gweler Ffigur 25). Fodd bynnag, mae'r duedd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a gwasanaethau amlsianel yn adlewyrchu gostyngiad bach / lefelu yn y niferoedd sy'n gwylio ar-alw ar y llwyfannau hyn yn dilyn cynnydd yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cau'r bwlch yn gymesur, er bod y bwlch hwnnw'n dal yn fawr. Roedd ceisiadau am wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli traean o gyfanswm y gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio a'r gwasanaethau amlsianel yn 2019, gan gynyddu i tua hanner yn 2023.

---

[221]Mae dadansoddiad manwl o lefelau gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar sail data Barb ar gael yn Adran 3. Cafodd y data ar geisiadau am raglenni a ddyfynnwyd yma ei gasglu gan ddarlledwyr / darparwyr fideo ar-alw a'i ddarparu i Ofcom ganddyn nhw.

**Ffigur 25: Ceisiadau am raglenni fideo ar-alw yn ôl genre ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheini nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, 2019-2023 (bn)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr / darparwyr fideo ar-alw. Mae data gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio ac amlsianel ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw – lle mae'n cael ei gynnig a lle cafodd data ei gyflwyno i Ofcom – ar gyfer : Bloomberg, BritBox, CBS AMC Networks, CNN, GB News, Hearst Networks EMEA (AETN gynt), Moochi TV, Narrative Entertainment, Netflix, Paramount Global, Sky, Talk TV, Talking Pictures, UKTV, a Warner Bros. Discovery (gan gynnwysTNT Sports). Diffinnir ffilmiau fel y rheini sy'n cael eu rhyddhau mewn sinema fasnachol.*

Hefyd, mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gynulleidfaoedd ar gyfer eu cynnwys ar lwyfannau cymdeithasol, gyda nifer y bobl sy'n gwylio yno – cyfanswm o 21.2 biliwn yn 2023[222] – yn gyson fwy na'r ceisiadau am raglenni ar lwyfannau gwasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr. Ond, dod i wylio fideos byr mae pobl yn bennaf, yn hytrach na'r rhaglenni hir sy'n cael eu gwylio ar wasanaethau fideo ar-alw gan y darlledwyr. Er bod YouTube yn cyrraedd llawer iawn o oedolion yn y DU o'i gymharu â llwyfannau cymdeithasol eraill,[223] dim ond cyfran fach yw hyn o'r niferoedd sy'n gwylio cynnwys cymdeithasol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, tua 7% yn 2023. Er y dylid nodi bod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'gwylio' yn gallu amrywio, ac mae YouTube yn debygol o fod yn denu ymgysylltiad hirach na llwyfannau eraill ac felly mwy o funudau gwylio. Roedd Facebook yn dal i ddenu'r nifer fwyaf o bobl yn gwylio, ar ddiwedd cyfnod yr adolygiad, er bod y niferoedd wedi bod yn dirywio, ac roedd TikTok ac Instagram wedi dod yn fwy poblogaidd. Gyda'i gilydd, roedd y tri llwyfan hyn yn cynrychioli 86% o'r niferoedd sy'n gwylio yn 2023.

[222] Yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd i Ofcom gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r data hwn yn cynnwys cymysgedd o ddata'r DU yn unig a data byd-eang; pan fo'r data'n fyd-eang, mae'n debygol mai cynulleidfaoedd y DU fydd y rhan fwyaf o'r niferoedd sy'n gwylio, wrth ystyried bod y cynnwys fel arfer wedi'i gynllunio ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU a bod rhwystrau daearyddol ar gyfer y cynnwys hwn mewn rhai achosion, er enghraifft, cynnwys chwaraeon.

[223] adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2024 Ofcom.

**Ffigur 26: Niferoedd sy'n gwylio cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl llwyfan, 2019-2023 (bn)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'r data ar niferoedd sy'n gwylio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol a roddir i Ofcom yn cynnwys cymysgedd o ddata'r DU yn unig a data byd-eang; pan fo'r data'n fyd-eang, mae'n debygol mai cynulleidfaoedd y DU fydd y rhan fwyaf o'r niferoedd sy'n gwylio, wrth ystyried bod y cynnwys fel arfer wedi'i gynllunio ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU a bod rhwystrau daearyddol ar gyfer y cynnwys hwn mewn rhai achosion, er enghraifft, cynnwys chwaraeon. Nid yw data Instagram yn cael ei adrodd yn llawn yn y blynyddoedd cyn 2023. Ni ddylid dehongli'r naid y flwyddyn honno fel rhywbeth sy'n cynrychioli twf sydyn, enfawr.*

# 8. Y camau nesaf

Ddechrau 2025, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ddogfennau ategol ar gyfer yr adolygiad hwn ar:

- Y farchnad hysbysebion teledu yn y DU;
- Y berthynas rhwng defnyddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer newyddion ac ystod o ganlyniadau ar lefel cymdeithas; a
- Cyfryngwyr ar-lein ac amrywiaeth y cynnwys newyddion.

Byddwn yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid yn ystod chwarter cyntaf 2025 i drafod yr heriau yn y dyfodol a nodir yn y ddogfen hon ac i edrych ar opsiynau posibl ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Hoffen ni glywed syniadau rhanddeiliaid am gynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn y dyfodol. Os hoffech chi gymryd rhan yn y sgwrs, mae croeso i chi gysylltu â PSMReview2025@ofcom.org.uk.

Yn ystod haf 2025, byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y ddogfen hon yn adeiladu ar y newidiadau mewn tueddiadau a'r heriau i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a nodir yn y ddogfen hon, a bydd yn ystyried cyfleoedd i gefnogi cynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac argaeledd newyddion cywir o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddo. Bydd y canfyddiadau'n cael eu llywio gan ein rhaglen barhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Hyd yma, mae rhanddeiliaid wedi nodi nifer o gyfleoedd i helpu darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i allu cysylltu â chynulleidfaoedd, sicrhau bod newyddion cywir o ansawdd uchel ar gael, a chynaliadwyedd ariannol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gamau a fyddai'n helpu i sicrhau amlygrwydd cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys llwyfannau ar-alw a llwyfannau rhannu fideos, mentrau i wella pa mor weledol a pha mor rhwydd yw canfod newyddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein, i fynd i'r afael â'r broblem o ledaenu camwybodaeth a thwyllwybodaeth a lleihau'r broblem honno, a mesurau i gefnogi cynaliadwyedd ariannol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chreu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhaglenni eraill cysylltiedig Ofcom, gan gynnwys gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau a'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

# Geirfa

**Gwasanaethau fideo ar-alw a gefnogir gan hysbysebion**. Gwasanaethau ar-alw/ffrydio sy'n cynnwys hysbysebion a heb fod yn gysylltiedig â sianeli teledu sy'n cael eu darlledu (gwahanol i wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr).

**Gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr**. Gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu darparu gan sianeli teledu llinol. Mae BBC iPlayer a My5 yn enghreifftiau o wasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys rhaglenni sydd eisoes wedi'u darlledu ar wasanaethau llinol ac, yn fwyfwy, rhaglenni sydd heb gael eu darlledu eto neu raglenni sydd wedi'u creu dim ond ar gyfer y gwasanaeth fideo ar-alw gan ddarlledwyr.

**Cyfradd twf blynyddol cyfansawdd**. Mae'n mesur y gyfradd twf flynyddol gymedrig dros gyfnod penodol.

**Teledu daearol digidol**. Mae'n trosglwyddo cynnwys teledu dros sbectrwm radio drwy erial.

**Cynnwys tebyg i deledu sy'n cael ei ddarparu dros y rhyngrwyd** - gwasanaethau ffrydio ar-alw a chynigion llinol dros ar y rhyngrwyd.

Mae **teledu llinol** yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn unol ag amserlen. Mae modd ei wylio naill ai'n fyw (ar yr adeg y mae wedi'i amserlennu) neu mae modd ei ohirio drwy oedi teledu byw neu drwy ddefnyddio dyfais recordio. Nid yw'n cynnwys gwasanaethau ar-alw/ffrydio.

**Amlsianeli-** Mae'r sector amlsianel yn cynnwys pob sianel deledu, ar wahân i brif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u sianeli portffolio, sy'n cael eu darlledu yn y DU.

**Termau nominal** - Mae data a gyflwynir mewn termau nominal heb gael ei addasu ar gyfer chwyddiant a gall fod yn hanesyddol.

**Cyfryngydd ar-lein** – Mae cyfryngwyr ar-lein yn wasanaethau sy'n gweithredu rhwng cyhoeddwr cynnwys ar-lein, er enghraifft cynnwys newyddion, a defnyddwyr sy'n cael mynediad at y cynnwys dan sylw drwy'r gwasanaeth cyfryngu. Gall gwasanaethau o'r fath drefnu sut mae'r cynnwys yn cael ei arddangos, ei dagio, neu ei gyflwyno mewn trefn benodol. Mae mathau o gyfryngwyr ar-lein yn cynnwys: peiriannau chwilio, cyd-gasglwyr newyddion, a chyfryngau cymdeithasol.

**Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus -** Y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU yw'r BBC, y rheini sy'n darparu gwasanaethau Channel 3, Channel 4 Corporation, trwyddedai Channel 5, ac S4C. Er bod pob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd â'r statws hwn. Gyda'i gilydd, mae ganddyn nhw ddyletswydd i gyflawni dibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

**Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus** - Amrywiaeth eang o gynnwys ar wasanaethau llinol, gwasanaethau fideo ar-alw gan ddarlledwyr, a gwasanaethau ar-lein sydd o ansawdd uchel, sy'n adlewyrchu pob rhan o'r DU, ac sy'n dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd. Mae'n cynnwys newyddion cywir, dibynadwy o ansawdd uchel.

**Termau real** - Mae data a gyflwynir mewn termau real wedi cael ei addasu ar gyfer chwyddiant (wedi'i fesur gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr).

**Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio**. Gwasanaethau ar-alw/ffrydio sydd ond ar gael wrth dalu am danysgrifiad. Enghreifftiau yw Netflix, Amazon Prime Video a Disney+.

**Fideo ar-alw**.

**Llwyfannau rhannu fideos**- . Mae llwyfannau fideo ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu â'r cyhoedd yn cael eu hystyried yn llwyfannau rhannu fideos, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu hariannu gan danysgrifiadau neu hysbysebion. Mae'r rhain yn cynnwys YouTube, TikTok a Twitch.